COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

HEDDLU DE CYMRU

DATGANIAD TERFYNOL O GYFRIFON

(CYFRIFON Y GRŴP)

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN

31 MAWRTH 2025

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

South Wales Police and Crime Commissioner

HEDDLU DE CYMRU

SOUTH WALES POLICE

David Holloway-Young
CPFA

Y PRIF SWYDDOG CYLLID COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

South Wales Police and Crime Commissioner

CYNNWYS

Adroddiad Naratif y Prif Swyddog Cyllid 3

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol 12

Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon 16

Datganiadau Ariannol

- Dadansoddiad o Wariant a Chyllid 17
- Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 18
- Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn 21
- Y Fantolen 22
- Datganiad Llif Arian Parod 23
- Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu 24

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

- Nodyn 1 Polisïau Cyfrifyddu 25
- Nodyn 2 Safonau Cyfrifyddu a Gyhoeddwyd, Nas Mabwysiadwyd 31
- Nodyn 3 Dyfarniadau Allweddol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu 31
- Nodyn 4 Tybiaethau a Wnaed ynghylch y Dyfodol a Ffynonellau Mawr Eraill o Ansicrwydd Amcangyfrif 32
- Nodyn 5 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd 33
- Nodyn 6 Nodiadau i'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid 34

Nodiadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

- Nodyn 7 Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd 35
- Nodyn 8 Incwm a Gwariant Cyllido a Gwariant 37
- Nodyn 9 Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol 37
- Nodyn 10 Dadansoddiad Goddrychol – Incwm a Gwariant 37
- Nodyn 11 Incwm Grant ac Incwm Arall 38
- Nodyn 12 Cydnabyddiaeth Swyddogion/Cyflogeion 40
- Nodyn 13 Partïon Cysylltiedig 45
- Nodyn 14 Lwfansau'r Aelodau 47
- Nodyn 15 Costau Archwilio Allanol 47

Nodiadau i'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn

- Nodyn 16 Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido o dan y Rheoliadau 48

Nodiadau i'r Fantolen

- Nodyn 17 Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Anniriaethol 50
- Nodyn 18 Gwariant Cyfalaf a Chyllid Cyfalaf 52
- Nodyn 19 IFRS 16 Prydlesau 53
- Nodyn 20 Asedau a Ddelir i'w Gwerthu 53
- Nodyn 21 Buddsoddiadau Byrdymor ac Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod 54
- Nodyn 22 Dyledwyr 54
- Nodyn 23 Credydwyr 55
- Nodyn 24 Darpariaethau 55
- Nodyn 25 Cronfeydd wrth Gefn Annefnyddiadwy 56
- Nodyn 26 Cynlluniau Pensiwn Buddiannau Diffiniedig 59
- Nodyn 27 Offerynnau Ariannol 65
- Nodyn 28 Natur a Maint y Risgiau sy'n Deillio o Offerynnau ariannol 67
- Nodyn 29 Rhwymedigaethau Digwyddiadol/Asedau Digwyddiadol 68

Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian Parod

- Nodyn 30 Datganiad Llif Arian Parod – Gweithgareddau Gweithredu 69
- Nodyn 31 Datganiad Llif Arian Parod – Gweithgareddau Buddsoddi 69
- Nodyn 32 Datganiad Llif Arian Parod – Gweithgareddau Cyllido 69

Nodiadau ar Gydweithio

- Nodyn 33 Cydweithio 70

Rhestr Termau 74

ADRODDIAD NARATIF Y PRIF SWYDDOG CYLLID 2024-25

1. DE CYMRU FEL LLE

Mae ardal Heddlu De Cymru yn cynnwys saith ardal awdurdod lleol, sef Caerdydd, Abertawe, Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd Port Talbot, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr ac mae'n cwmpasu tua 831 o filltiroedd sgwâr. Gyda chyfuniad o ardaloedd trefol a gwledig, mae'r hen ddiwydiannau glo a dur wedi diflannu bron yn gyfan gwbl ac wedi'u disodli gan ddiwydiannau'r sector gwasanaethu.

Yn ddaearyddol, mae rhan ogleddol yr ardal wedi'i dominyddu gan gyfres o gymoedd sy'n rhedeg yn fras o'r gogledd i'r de; yr un pellaf i'r gorllewin yw Cwm Tawe (a Phenrhyn Gŵyr) a'r un pellaf i'r dwyrain yw Cwm Merthyr. Mae'r ardaloedd arfordirol isel yn rhan ddeheuol ardal yr Heddlu yn cynnwys dinasoedd Caerdydd ac Abertawe, a'r rhain hefyd yw'r ardaloedd mwyaf poblog. Gyda'i gilydd, mae gan y saith awdurdod lleol sydd o fewn ffin yr Heddlu boblogaeth o tua 1.3 miliwn.

2. HEDDLU DE CYMRU

Heddlu De Cymru yw'r heddlu mwyaf yng Nghymru a'r nawfed heddlu mwyaf yng Nghymru a Lloegr (GRE 2024-25). Mae'r Heddlu wedi'i rannu'n dair Uned Reoli Sylfaenol ond mae ganddo hefyd adrannau canolog megis y Gwasanaethau Cymorth Gweithredol sy'n darparu adnoddau a rennir fel Cŵn yr Heddlu, Ceffylau a chelloedd cadw, a'r Uned Ymchwiliadau Gwyddonol ar y Cyd sy'n archwilio arddangosion ac yn mynd i leoliadau troseddau i gasglu tystiolaeth. Mae'r olaf o'r rhain yn un o'r swyddogaethau niferus sy'n cael eu trefnu a'u rhedeg ar y cyd â heddluoedd cyfagos er mwyn sicrhau arbedion maint, rhannu arbenigedd, safleoedd a chyfarpar, a chynnig Gwerth am Arian i drethdalwyr lleol.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn comisiynu gwasanaethau ac yn dyfarnu grantiau yn ei rhinwedd ei hun er mwyn lleihau ac atal troseddau, ac yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawni plismona gweithredol.

3. TREFNIADAU RHEOLI ARIANNOL

Mae Adran Gyllid yr Heddlu, gan weithio gyda Thîm Cyllid Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn llunio gwybodaeth ariannol gywir ac amserol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i amrywiaeth eang o randdeiliaid ac yn llywio penderfyniadau'r rheolwyr.

Gan gydnabod nad yw'r amserlen ar gyfer yr archwiliad statudol yn gofyn am gyfrifon drafft erbyn 31 Mai ac i reoli'r adnoddau sydd ar gael yn well, roedd y ddau Brif Swyddog Cyllid yn barod i gyhoeddi cyfrifon drafft erbyn 30 Mehefin 2025. Felly, cyhoeddwyd hysbysiad Rheoliad 10 ar wefannau'r ddwy Gorfforaeth Undyn yn nodi'r dyddiad cyhoeddi diwygiedig. Mae'r amseru hwn yn gyson â heddluoedd ledled Cymru a Lloegr ac yn unol â disgwyliadau'r corff archwilio statudol, sef Archwilio Cymru.

4. CYNLLUN HEDDLU, TROSEDDU A CHYFIAWNDER

Dechreuodd y Comisiynydd ei blwyddyn gyntaf yn ei swydd ym mis Mai 2024 ac erbyn 31 Mawrth 2025, roedd yn ofynnol iddi fod wedi ysgrifennu a chyhoeddi ei Chynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder.

Mae tîm y Comisiynydd wedi mynd ati, drwy dîm prosiect dynodedig, i sicrhau bod y cynllun yn cael ei ddatblygu, yn dilyn gwaith ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid. Cyhoeddwyd fersiwn derfynol y cynllun ar 31 Mawrth 2025. Mae'r cynllun yn cynnwys fframwaith rheoli perfformiad helaeth er mwyn sicrhau bod modd mesur i ba raddau y mae amcanion y cynllun yn cael eu cyflawni. Mae'r ffeithlun isod yn rhoi crynodeb o'r cynllun a'i flaenoriaethau a'i amcanion allweddol.

4. CYNLLUN HEDDLU, TROSEDDU A CHYFIAWNDER



5. PERFFORMIAD ARIANNOL

Cyllid Craidd a Phraesept y Dreth Gyngor 2024-25

Cyhoeddwyd Setliad Cyllid yr Heddlu ar gyfer 2024-25 ym mis Rhagfyr 2023. Er bod cyfanswm y cyllid wedi cynyddu £24.5 miliwn, arhosodd y grant craidd yr un fath i raddau helaeth, sef £195 miliwn. Manylir ar hyn yn y tabl isod. Cynyddodd Grant Recriwtio'r Heddlu o £6.2 miliwn i £9.6 miliwn i ariannu costau blwyddyn lawn swyddogion ychwanegol a recriwtiwyd a pharhaodd wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio tuag at gostau'r swyddogion newydd hynny yn unig.

Cymharu Cyllid	2024/25	2023/24	Newid
	£'000	£'000	£'000
Grant Craidd (Y Swyddfa Gartref/Llywodraeth Cymru)	194,802	194,944	(142)
Dyfarniad Cyflog – Ariannwyd yn Rhannol	11,767	7,461	4,306
Cyfanswm y Cyllid Craidd	**206,569**	**202,405**	**4,164**
Grant Pensiynau (yn cynnwys cynnydd yn y gyfradd cyfraniadau)	10,480	3,106	7,374
Grant a Glustnodwyd ar gyfer Rhaglen Recriwtio'r Heddlu	9,609	6,217	3,392
Cyllid Recriwtio Ychwanegol	2,064	-	2,064
Cyfanswm y Cyllid Arall	**22,153**	**9,323**	**12,830**
Cyfanswm y Cyllid	**228,722**	**211,728**	**16,994**

Mae Grantiau gan y Llywodraeth yn darparu tua hanner (53.4%) y cyllid sydd ei angen ar gyfer gwariant arfaethedig ac angenrheidiol. Caiff y gweddill ei godi o Braesept y Dreth Gyngor ac ym mis Chwefror 2024, cymeradwyodd Panel yr Heddlu a Throseddu gynnig Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gynyddu'r praesept £2.35 y mis (cynnydd blynyddol o £28.20 neu 8.69% i £352.67) fesul eiddo Band D (2023-24:
cynnydd o £22.36 neu 7.4% i £324.47).

Yn ystod y sesiwn honno, cymeradwyodd Panel yr Heddlu a Throseddu Gyllideb Refeniw a Rhaglen Gyfalaf arfaethedig 2024-25. Dangosir y Gyllideb Refeniw a ffynonellau cyllid yn **NHABL 5.A**.

TABL 5.A	£'000	£'000	%
Gofynion y Gyllideb	-	**386,962**	-
Ffynonellau Cyllid			
Grant gan y Swyddfa Gartref	144,068	-	-
Grant Cynnal Refeniw	62,501	-	-
Is-gyfanswm		**206,569**	**53.38%**
Incwm o Braesept y Dreth Gyngor			
Cyngor Dinas Caerdydd	53,384	-	-
Cyngor Dinas Abertawe	33,082	-	-
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	17,220	-	-
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	19,561	-	-
Bro Morgannwg	22,358	-	-
Cyngor Merthyr Tudful	6,681	-	-
Cyngor Rhondda Cynon Taf	28,107	-	-
Is-gyfanswm		**180,393**	**46.62%**
Cyfanswm y Cyllid		**386,962**	**100.00%**

Alldro Refeniw 2024-25

Mae **TABL 5.B** yn nodi Alldro Refeniw o £386.96m ar gyfer y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys gwariant o £376.33 miliwn a throsglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer ymrwymiadau hysbys gwerth £10.13 miliwn ar gyfer y Grŵp. Roedd y balans a oedd yn weddill, sef £0.5 miliwn, yn drosglwyddiad arfaethedig i Gronfa Gyffredinol yr Heddlu er mwyn cyflawni'r Gwariant Refeniw Gros targed o 3% ar gyfer y Gronfa Gyffredinol, sydd £2 miliwn islaw'r targed a osodwyd ar hyn o bryd. Dangosir Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn/Incwm Grant isod fel £21.06 miliwn llai amrywiadau eraill mewn incwm.

TABL 5.B	Cyllideb £'000	Alldro £'000	Amrywiad £'000
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	2,747	2,722	25
Gwasanaethau a Gomisiynwyd	13,615	15,672	(2,057)
Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn/Incwm Grant a Phartneriaeth	(9,442)	(11,474)	2,032
Cyllidebau dan reolaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	**6,920**	**6,920**	**-**
Cyflogau a Phensiynau Swyddogion yr Heddlu	249,150	248,185	965
Costau Staff yr Heddlu a Staff Eraill	129,008	129,207	(199)
Safleoedd	16,113	17,688	(1,575)
Cludiant	7,588	7,485	103
Cyflenwadau a Gwasanaethau	33,211	35,908	(2,697)
Costau Asiantaethau a Chostau Eraill	18,572	24,536	(5,964)
Costau Cyllid Cyfalaf	19,834	31,023	(11,189)
Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn/Incwm Grant	(93,434)	(114,490)	21,056
Cyllidebau a ddirprwywyd i'r Prif Gwnstabl	**380,042**	**379,542**	**500**
Sefyllfa ar Ddiwedd y Flwyddyn	**386,962**	**386,462**	**500**

Caiff **TABL 5.B** ei baratoi ar yr un sail a'r cyfrifon rheoli a gyflwynir yn ystod y flwyddyn i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Nid yw'n cynnwys yr addasiadau cyfrifyddu technegol fel dibrisiant asedau anghyfredol a newidiadau mewn rhwymedigaethau pensiwn.

Cyflwynir gwariant refeniw yn y Cyfrifon yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Y canlyniad ar gyfer 2024-25 yw diffyg o £46.89 miliwn ar gyfer y grŵp ar ddarparu gwasanaethau. Manylir ar y cysoni rhwng y tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn a gofnodwyd yn y cyfrifon rheoli a'r diffyg a gofnodwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr o dan adran Dadansoddiad o Wariant a Chyllid Cyfrifon y Grŵp.

Llwyddodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i fantoli ei chyllideb. Roedd hyn yn cynnwys cyflawni'r targed o sicrhau £0.23 miliwn o arbedion a gafodd ei gynnwys yn ei chyllideb. Cafodd hyn ei gyflawni'n bennaf drwy danwariant yn y gyllideb cyflogau o ganlyniad i swyddi gwag yn nhîm y Comisiynydd.

Cyflawnodd y Prif Gwnstabl ei danwariant arfaethedig yn erbyn ei chyllideb £0.5 miliwn. Cyflawnwyd y tanwariant yn bennaf o ganlyniad i reoli swyddi gwag yn ystod y flwyddyn ac amseru ymgyrchoedd recriwtio.

Gwariant Cyfalaf 2024-25

Ar ddechrau 2024-25, roedd gan y Comisiynydd Raglen Gyfalaf pedair blynedd gwerth £129M. Drwy'r buddsoddiad hwn, budd modd cyflawni amrywiaeth o amcanion, gan gynnwys:

- Adeiladau addas at y diben gan gynnwys maes saethu arfau tanio cydweithredol o'r radd flaenaf;
- Cerbydau effeithlon, gan gynnwys cerbydau trydan, fel sy'n briodol i anghenion plismona;
- Technoleg effeithiol, e.e. defnyddio technoleg adnabod wynebau awtomatig i wella'r broses o ganfod troseddwyr a'u herlyn.

Cymeradwyodd y Comisiynydd Raglen Gyfalaf gwerth £34.0 miliwn ar gyfer 2024-25. Cafodd y ffigur hwn ei ddiwygio i £47.9 miliwn yn ystod y flwyddyn yn dilyn llithriant o raglen gyfalaf 2023-24, yn bennaf o ganlyniad i ffactorau allanol. £41 miliwn oedd y rhaglen gyfalaf gyda llithriant o £6.8 miliwn yn gadael tanwariant bach o £0.121 miliwn, a oedd i'w groesawu. Dangosir y prif feysydd gwariant a ffynonellau cyllid yn **NHABL 5.C**.

TABL 5.C

	Cyllideb Wreiddiol £'000	Cyllideb Ddiwygiedig £'000	Alldro £'000	Llithriant £'000	Tanwariant/ (Gorwariant)
Cynnal a Chadw/Adnewyddu Seilwaith					
Ystadau	2,900	1,935	989	946	-
Fflyd	3,354	5,354	5,354		-
Gwasanaethau Gwybodaeth	4,088	5,487	4,842	6	-
Gwasanaethau Digidol	4,246	3,927	2,237	4	-
Arall	1,584	1,623	124	5	-
				1,690 1,499	
Is-gyfanswm	**16,172**	**18,326**	**13,546**	**4,780**	**-**
Prosiectau					
Ystadau	15,906	27,474	26,717	757	-
Gwasanaethau Gwybodaeth	2,802	2,112	702	1,289	121
Is-gyfanswm	**18,708**	**29,586**	**27,419**	**2,046**	**121**
Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf	**34,880**	**47,912**	**40,965**	**6,826**	**121**
Ariannwyd gan					
Cyllid Refeniw Uniongyrchol	15,856	20,064	12, 976	6,826	262
Cronfeydd wrth gefn	4,047	3,560		-	-
Benthyciadau	13,960	8,607	3, 56	-	- (141)
Grantiau a Chyfraniadau	702	14,073		-	-

PWY SY'N GWEITHIO YN HEDDLU DE CYMRU

Ar 31 Mawrth 2025, roedd yr Heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cynnwys y staff canlynol:

	CALl yr Heddlu	CALl Tîm y Comisiynydd	Cyfanswm CALl
Swyddogion yr Heddlu	3,497.1	1.0	3,498.1
Staff yr Heddlu	2,311.8	48.9	2,360.7
PCSOs	330.3	-	330.3
Cyfanswm	**6,139.2**	**49.9**	**6,189.1**

NODER: Nid yw CALl yn cynnwys cyflogeion a oedd wedi cymryd seibiant gyrfa neu wedi'u secondio i sefydliad y tu allan i Heddlu De Cymru ar 31.03.2025. Caiff yr Heddlu hefyd ei gefnogi gan Gwnstabliaid Gwirfoddol, Gwirfoddolwyr Ieuenctid yr Heddlu (cadetiaid) a gwirfoddolwyr.

6. COMISIYNU

Mae'r Comisiynydd yn comisiynu gweithgareddau a gwasanaethau ac yn eu hariannu drwy grantiau er mwyn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau a'r canlyniadau a ddymunir yn y Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder. Y gyllideb gomisiynu ar gyfer 2024-25 oedd £12.8 miliwn, gyda £4.7 miliwn yn cael ei ariannu drwy grantiau allanol. Mae'r prif wasanaethau a gomisiynwyd ac a ariannwyd drwy grantiau wedi'u hamlinellu isod:

- **Dyfodol** – £2.3 miliwn i ddarparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i'r rhai sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol. Cyfrannodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi £1.5 miliwn tuag at y gwasanaeth hwn hefyd;
- **Drive** – £0.8 miliwn i wella diogelwch dioddefwyr drwy helpu cyflawnwyr cam-drin domestig risg uchel i newid eu hymddygiad;
- **Yr Uned Atal Trais** – buddsoddiad o £1.2 miliwn i fabwysiadu dull iechyd y cyhoedd o atal pob math o drais yng Nghymru;
- **Gwasanaethau i Ddioddefwyr** – buddsoddiad o £2.9 miliwn wedi'i ddatganoli o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi dioddefwyr ledled ardal yr Heddlu;
- **Y Rhaglen Fraenaru i Fenywod** – buddsoddiad o £0.8 miliwn tuag at leihau nifer y dedfrydau o garchar i fenywod a gostwng cyfraddau aildroseddu;
- **Partneriaethau Diogelwch Cymunedol** – cyfanswm o £0.6 miliwn tuag at y saith partneriaeth yn ardal yr Heddlu i gynnal amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys cymorth troseddau casineb, gweithgareddau cydlyniad cymunedol a gweithgareddau ymddygiad gwrthgymdeithasol; a
- **Timau Troseddwyr Ifanc** – buddsoddiad o £0.3 miliwn i ddarparu gwasanaethau ymyrryd yn gynnar, atal a dargyfeirio i bobl ifanc ledled ardal pob awdurdod lleol yn ardal yr Heddlu.

7. CYDWEITHIO

Mae gan yr Heddlu a'r Comisiynydd hanes cadarn o gydweithio â phrif bartneriaid, sef heddluoedd yng Nghymru, awdurdodau lleol, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a byrddau iechyd lleol a chenedlaethol. Mae'r Uned Arfau Tanio ar y Cyd a'r Uned Troseddau Cyfundrefnol gyda Heddlu Gwent a Heddlu Dyfed Powys yn enghreifftiau allweddol o gydweithio rheng flaen. Mae swyddogaethau cymorth cydweithredol yn cynnwys Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd, Caffael ar y Cyd, Gwasanaethau Digidol a Chymorth Gwyddonol ar y Cyd, y caiff pob un ohonynt eu cyflawni mewn cydweithrediad â Heddlu Gwent. Cyfanswm gwariant gros yr Heddlu ar weithgareddau cydweithredol ar gyfer 2024-25 oedd £36.45 miliwn. Ceir rhagor o fanylion yn y nodiadau i'r Datganiad o Gyfrifon.

8. RHEOLI RISGIAU

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn mynd ati i reoli risgiau fel rhan o arferion gwaith rheolaidd. Mae'r Comisiynydd yn cadw Cofrestr Risg ac mae'r Prif Gwnstabl yn rheoli Cofrestr Materion ac Ansicrwydd. Caiff y ddwy eu diweddaru'n rheolaidd a'u cyflwyno bob chwarter i'r Bwrdd Adnoddau – grŵp goruchwylio a gaiff ei gadeirio ar y cyd gan y priod Brif Swyddogion Cyllid. Diffinnir llwybr atgyfeirio i gyfarfod Aur y Prif Gwnstabl a Bwrdd Strategol y Comisiynydd. Caiff y cofrestrau eu cyflwyno a'u hadolygu gan aelodau annibynnol y Cyd-bwyllgor Archwilio er mwyn eu herio a chraffu arnynt ymhellach. Mae rhai o'r risgiau/materion/ansicrwydd mwyaf sylweddol wedi'u nodi isod lle y gellir eu datgelu heb amharu ar yr Heddlu yn weithredol, yn y gobaith o helpu'r darllenydd i ddeall y materion a wynebir gan yr Heddlu:

Y COMISIYNYDD / YR HEDDLU	RISG / MATER / ANSICRWYDD	EFFAITH BOSIBL	MESURAU LLINIARU
Y Comisiynydd / Yr Heddlu	Materion cyllid systemig yn effeithio ar Blismona yng Nghymru fel yr Ardoll Prentisiaethau, diffyg cyllid cyfalaf a methiant i adlewyrchu cyllid ar gyfer Plismona Prifddinas Cymru.	Llai o gyllid ar gael i Heddlu De Cymru o gymharu â heddluoedd yn Lloegr. Mae hyn wedi arwain at newid yng nghydbwysedd y cyllid gan y Swyddfa Gartref/Llywodraeth Cymru i'r trethdalwyr lleol.	Mae'r ddwy Gorfforaeth Undyn yn parhau i wneud sylwadau i'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r gwahaniaethau hyn mewn cyllid. Mae cynllun cyflawni'r Prif Gwnstabl yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau effeithlonrwydd a chynhyrchiant.
Y Comisiynydd	Goblygiadau parhaus y newidiadau i reolau sy'n llywodraethu gwrandawiadau camymddwyn yr heddlu.	Mae effaith y newidiadau ac argaeledd Personau Cyfreithiol Gymwys yn rhoi pwysau ar adnoddau, sy'n arwain at oedi ac ôl-groniadau, gan niweidio enw da plismona. Mae hyn yn peri risg sylweddol ledled Cymru a Lloegr.	Mae proses newydd ar waith ers mis Mai 2024 ac mae Prif Gwnstabl Cynorthwyol yn cadeirio'r panel camymddwyn ynghyd â dau Aelod Panel Annibynnol. Mae Person Cyfreithiol Gymwys yn cynghori'r panel hefyd. Mae'r ôl-groniad o achosion yn parhau i gael ei asesu.
Y Comisiynydd	Cyhoeddi'r Adolygiad o'r Dirwedd Plismona / y Papur Gwyn.	Gallai hyn gynnwys newidiadau i rolau a chylchoedd gwaith Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ac mae pryderon nad oes ystyriaeth lawn wedi'i rhoi i'r cyd-destun Cymreig, am fod llawer o swyddogaethau eisoes wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru.	Mae Swyddfeydd Comisiynydd yr Heddlu yn chwarae rhan lawn yn yr adolygiad, ar lefel unigol a Chymru gyfan. Mae adnodd i Gymru wedi'i secondio i dîm y Swyddfa Gartref er mwyn sicrhau bod y cyd-destun Cymreig yn cael ei ddeall. Bydd Plismona yng Nghymru ac Uned Gyswllt yr Heddlu yn cadw golwg ar ddatblygiadau.
Y Comisiynydd	Cydymffurfiaeth ym maes Diogelu Data.	Risgiau posibl mewn perthynas â chydymffurfiaeth ym maes diogelu data, yn enwedig cytundebau rhannu data ac Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data o ganlyniad i newidiadau diweddar ymhlith y staff.	Mae'r Heddlu yn darparu rhywfaint o gymorth ond mae materion o ran capasiti. Mae cydymffurfiaeth yn cael ei monitro'n barhaus.
Yr Heddlu	Amseroedd ymateb i Achosion o Gam-drin Domestig Graddfa 2.	Mae amseroedd ymateb wedi cynyddu 31 munud ers mis Mai 2024. Mae'r cynnydd hwn yn peri risg i'r cyhoedd.	Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu i nodi heriau a meysydd i'w gwella.
Yr Heddlu	Galw a Chapasiti Tîm Ymchwilio Ar-lein yr Heddlu.	Rhagwelir y bydd nifer yr achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein yn cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf, yn ychwanegol at gynnydd o 181% ers 2019.	Crëwyd naw swydd ychwanegol ac mae ymgyrchoedd wedi'u targedu ar waith i leihau'r ôl-groniad o achosion.

9. RHEOLI RISGIAU (Parhad)

Y COMISIYNYDD / YR HEDDLU	RISG / MATER / ANSICRWYDD	EFFAITH BOSIBL	MESURAU LLINIARU
Yr Heddlu	Gofyniad yn ymwneud ag Opioidau Synthetig / Cyfarpar Diogelu personol.	Mae'r risg o ddod i gysylltiad ag opioidau synthetig yn golygu bod angen buddsoddi mewn Cyfarpar Diogelu Personol yn unol ag astudiaeth gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NSA) o ganlyniad i'r risg sylweddol i Iechyd a Diogelwch swyddogion/staff.	Darparwyd stoc o 3,000 o fasgiau i swyddogion wrth i'r gweithgor bennu'r gofynion ehangach.
Yr Heddlu	Dyfarniad Uchel Lys y DU ar y diffiniad o fenywod.	Her gyfreithiol yn erbyn yr Heddlu a'r heriau/costau cynyddol o ran ystadau sydd eu hangen i gydymffurfio â'r dyfarniad.	Sefydlwyd grwpiau Arian ac Ystadau wrth aros am ganllawiau cenedlaethol a chyfreithiol ar y materion.

10. EDRYCH YMLAEN

Mae ansicrwydd mawr ym maes plismona ar hyn o bryd a disgwylir i'r Adolygiad o'r Dirwedd Plismona / y Papur Gwyn a'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, a gyhoeddir bob tair blynedd, gael eu cyhoeddi erbyn i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol hyn ddod i ben.

Gyda rhai awdurdodau maerol cyfun yn bodoli yn Llundain, bydd y broses arfaethedig o ddatganoli swyddogaethau'r meiri hyn yn golygu y byddant yn ymgymryd â phwerau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu – gyda Chomisiynwyr yr Heddlu yn dod yn is-feiri, er enghraifft. Mae'r sefyllfa yng Nghymru yn wahanol, am fod Llywodraeth Cymru wedi'i datganoli. Mae plismona yn fater a gedwir yn ôl o dan gylch gwaith y Swyddfa Gartref ac, felly, bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn parhau i fod yn atebol am wasanaethau plismona. Yn y tymor hwy, mae'n bosibl y bydd y dull gwahanol hwn o lywodraethu heddluoedd yn effeithio ar heddluoedd yng Nghymru, yn enwedig os bydd y fformiwla gyllido yn newid.

Er ei fod i'w groesawu o safbwynt cynllunio ariannol tymor canolig, mae'n anochel y bydd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, a gyhoeddir bob tair blynedd, yn un heriol, a gyda'r adolygiad o'r dirwedd yn creu Canolfan Blismona Ganolig gyda swyddogaethau canolog, mae'n bosibl y caiff amlen gyllid yr heddlu ei brigdorri ymhellach gyda llai o gyllid yn cael ei ddyrannu i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a heddluoedd o ganlyniad i hynny.

Bydd drafftio datganiadau cywir o gyfrifon, cynnal archwiliadau dilynol a chyhoeddi datganiadau o gyfrifon wedi'u harchwilio yn rhan hanfodol o drefniadau rheoli ariannol mewn cyfnod mor ansicr.

11. PERFFORMIAD YR HEDDLU

Er y bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif, mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gyflawni plismona gweithredol. Ar gyfartaledd, mae Heddlu De Cymru yn cael 20,000 o alwadau brys 999 bob mis, neu 657 o alwadau bob dydd. At hynny, mae'r heddlu yn cael ychydig dros 822 o alwadau 101 nad ydynt yn rhai brys bob dydd.

Atebwyd 90% (2023-24: 84.8%) o alwadau 999 o fewn y targed cenedlaethol o 10 eiliad. Yn gyffredinol, y gyfradd ateb ar gyfer galwadau 999 oedd 99.8% (2023-24: 99.8%) a 92.1% ar gyfer galwadau nad oeddent yn rhai brys (2023-24: 88.5%), sy'n welliant sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Caiff troseddau eu cofnodi yn erbyn mathau o droseddau SYG (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Y drosedd y rhoddir gwybod i Heddlu De Cymru amdani fwyaf yw “Stelcio ac Aflonyddu” ac mae'n cynrychioli 11.87 o achosion fesul 1,000 o bobl (y cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr yw 10.10). Er bod mwy o'r troseddau hyn a throseddau “Dwyn o siopau” a “Trefn Gyhoeddus” na'r cyfartaledd cenedlaethol, mae pobl yr un mor debygol neu'n llai tebygol yn gyffredinol o wynebu trosedd yn Ne Cymru nag mewn rhannau eraill o'r wlad. Mae De Cymru yn lle mwy diogel o safbwynt troseddau cerbydau, dwyn a thrais heb anaf. Cyflwynir tabl o'r troseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt yma:



12. EGLURO'R DATGANIADAU CYFRIFYDDU

Yn sgil sefydlu'r ddwy Gorfforaeth Undyn, mae'n ofynnol i bob corff baratoi ei Ddatganiad o Gyfrifon ei hun ac mae'r Comisiynydd yn paratoi Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y Grŵp a Chronfa Bensiwn yr Heddlu. Er gwaethaf eu statws ffurfiol fel endidau cyfreithiol annibynnol, mae'r berthynas rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn seiliedig ar gydweithio er budd pobl De Cymru o dan gyd-faner ‘Heddlu De Cymru’.

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, fel y'u diwygiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Llywodraeth Leol baratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol. Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y DU (y Cod) wedi'i nodi'n ddogfen sy'n cynrychioli arferion priodol.

Mae'r Cod yn gymwys i Gyrff Llywodraeth Leol a nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014 y mae'n ofynnol iddynt baratoi cyfrifon i'w harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Diwygiwyd adran 12 o'r Ddeddf hon gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 i gyfeirio at Gomisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid yn lle Awdurdodau'r Heddlu.

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â *Fframwaith y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol ar gyfer Paratoi a Chyflwyno Datganiadau Ariannol* fel y'i dehonglir gan y Cod. Mae Fframwaith y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol yn amlinellu'r cysyniadau sy'n sail i'r gwaith o baratoi a chyflwyno datganiadau ariannol ar gyfer defnyddwyr allanol y cyfrifon. Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn parhau i ddilyn Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Fformat y Datganiad o Gyfrifon

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys y canlynol:

Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon
Mae'n nodi cyfrifoldebau'r Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddogion Cyllid yn ystod y broses o baratoi a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Dadansoddiad o Wariant a Chyllid
Dengys sut y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau'r Llywodraeth, y dreth gyngor ac ardrethi busnes) o gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd. Mae hefyd yn dangos sut y caiff y gwariant hwn ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng y gwahanol wasanaethau. Caiff incwm a gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Ni chaiff Dadansoddiad o Wariant a Chyllid ar wahân ei gyflwyno ar gyfer y Comisiynydd gan y byddai'n rhoi darlun anghyflawn o'r datgeliadau gofynnol. Caiff y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid ar gyfer y Grŵp ei gyflwyno o fewn yr adran Datganiadau Ariannol isod ac mae'n dangos y dadansoddiad cyflawn fel sy'n ofynnol.

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
Mae hwn yn nodi cost darparu gwasanaethau plismona yn ystod y flwyddyn yn unol â Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol yn hytrach na'r swm a ariannwyd drwy Grantiau'r Llywodraeth a Phraesept y Dreth Gyngor.

Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn
Mae'n dadansoddi symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn (ac ynghyd â nodyn 16 Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido o dan y Rheoliadau) ac yn cysoni rhwng cyllid a chost gwasanaethau plismona a ddangosir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Y Fantolen
Mae'r fantolen yn nodi'r asedau, y rhwymedigaethau a'r cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2025.

Datganiad Llif Arian Parod
Mae'n nodi'r newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn ariannol.

Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu
Mae hwn yn nodi'r incwm a'r gwariant sy'n gysylltiedig â Phensiynau Swyddogion yr Heddlu, megis taliadau pensiwn misol a chyfandaliadau ymddeol.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
Mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth fanylach am eitemau incwm, gwariant, asedau, rhwymedigaethau a chronfeydd wrth gefn nad yw'n ymarferol eu dangos yn y prif ddatganiadau cyfrifyddu a nodir uchod.

ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU
I GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru;
- Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru sy'n cynnwys Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru; ac
- Cronfa Bensiwn Heddlu De Cymru

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

Mae datganiadau ariannol Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru yn cynnwys Dadansoddiad o Wariant a Chyllid y Grŵp, Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn y Grŵp, Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp, Mantolen y Grŵp, Datganiad Llif Arian Parod y Grŵp a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae Cronfa Bensiwn Heddlu De Cymru yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a Datganiad Asedau Net a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Heddlu De Cymru, Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu De Cymru ar 31 Mawrth 2025 a'u hincwm a'u gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n ymdrin â chyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol.

Rwyf i a'm staff yn annibynnol ar Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a, Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu De Cymru, yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol o ran digwyddiadau nac amodau, a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru na Chronfa Bensiwn Heddlu De Cymru i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar y wybodaeth arall.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad neu a ymddengys fel arall ei bod wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw anghysonderau neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail fy ngwaith, fod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, rhaid i mi nodi hynny.

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'n cyd-fynd â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25;

- Mae'r wybodaeth a roddir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'n cyd-fynd â'r canllawiau.

Materion yr adroddaf arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ynghylch Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu De Cymru a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd.

- Nid oes gennyf ddim i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu ni chafwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â nhw;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion na'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol o ran y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon a nodir ar dudalen 16, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y canlynol:

- paratoi'r datganiad o gyfrifon, gan gynnwys datganiadau ariannol Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu De Cymru, sy'n rhoi darlun gwir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- y cyfryw reolaethau mewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau o gyfrifon nad oes camddatganiad perthnasol ynddynt, boed hynny drwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu De Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu De Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gallai fod yn rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd a wneir gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a pennaeth archwilio mewnol y Grŵp, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Heddlu De Cymru, Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu De Cymru ynghylch y canlynol:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig o dwyll; ac
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried, gan weithredu fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y potensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, cydnabod gwariant, cofnodi dyddlyfrau anarferol a thuedd wrth gyfrifo amcangyfrifon cyfrifyddu.
- Meithrin dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu De Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru yn gweithredu yn unol â nhw, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, Grŵp Comisiynydd

yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu De Cymru.

- Meithrin dealltwriaeth o gydberthnasau â phartïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Cydbwyllgor Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll o ganlyniad i'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid sydd ynghlwm wrth ganfod achosion o afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu De Cymru, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir, yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod achosion o afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol ym maes rheolaeth fewnol a nodir gennyf yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu De Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompt
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad:

1 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O GYFRIFON 2024-25

Cyfrifoldebau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Mae'n ofynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei materion ariannol yn briodol a sicrhau bod un swyddog yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Y Prif Swyddog Cyllid yw'r swyddog hwnnw;
- rheoli ei materion er mwyn sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o'i hadnoddau a diogelu ei hasedau;
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Ardystiaf fod y Datganiad o Gyfrifon hwn wedi'i gymeradwyo.

Dyddiad:

EMMA WOOLS
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi'r Datganiad o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol fel y'u nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn synhwyrol;
- cydymffurfio â'r Cod.

Mae'r Prif Swyddog Ariannol hefyd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol cyfredol;
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

Ardystiaf fod y Datganiad o Gyfrifon yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru ar y dyddiad cyfrifyddu ac o'i hincwm a'i gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Dyddiad:

DAVID HOLLOWAY-YOUNG, CPFA
Prif Swyddog Cyllid

DATGANIADAU ARIANNOL 2024-25

Dadansoddiad o Wariant a Chyllid (y Grŵp)

Dengys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid sut y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau'r Llywodraeth, y praesept ac ardrethi busnes) gan y Comisiynydd o gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd gan y Comisiynydd yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut y caiff y gwariant hwn ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng y mathau o wariant. Caiff incwm a gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

	2024-25			2023-24		
	Gwariant Net y Gellir ei Godi ar Gronfa'r Heddlu £000	Addasiadau rhwng y Sail Gyllido a'r Sail Gyfrifyddu £000	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £000	Gwariant Net y Gellir ei Godi ar Gronfa'r Heddlu £000	Addasiadau rhwng y Sail Gyllido a'r Sail Gyfrifyddu £000	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £000
Cyflogau a Phensiynau Swyddogion yr Heddlu	208,576	(27,600)	180,976	189,462	(16,345)	173,117
Cyflogau Staff yr Heddlu	79,321	(622)	78,699	76,251	1,442	77,693
Cyllidebau Datganoledig	11,381	49	11,430	10,014	14	10,028
Cyllidebau'r Heddlu / Cyllidebau Wrth Gefn	38,216	(6,729)	31,487	33,840	2,598	36,438
Cyllidebau wedi'u Canoli	18,356	(5,831)	12,525	18,001	(5,083)	12,918
Cyllidebau a Ariennir yn Allanol	(10,469)	(399)	(10,868)	21,254	(29,960)	(8,706)
Cyllidebau Cydweithredol	30,822	(6,893)	23,929	24,058	(4,732)	19,326
Cyllidebau Canolog	(2,446)	18,054	15,608	(41,957)	33,341	(8,616)
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	6,460	(6,460)	-	7,758	(7,758)	-
Cost Net Gwasanaethau	**380,217**	**(36,431)**	**343,786**	**338,681**	**(26,483)**	**312,198**
Incwm a Gwariant Arall	(386,967)	90,073	(296,894)	(358,699)	80,463	(278,236)
(Cynnydd)/Lleihad Net mewn Cronfeydd Wrth Gefn cyn trosglwyddiadau o'r cronfeydd wrth gefn	**(6,750)**	**53,642**	**46,892**	**(20,018)**	**53,980**	**33,962**
Trosglwyddiadau (i)/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	6,250	-	-	19,748	-	-
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer y flwyddyn	**(500)**	**-**	**-**	**(270)**	**-**	**-**
Balans Cronfa'r Heddlu ar 1 Ebrill	(10,918)	-	-	(10,648)	-	-
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer y flwyddyn	(500)	-	-	(270)	-	-
Balans Cronfa'r Heddlu ar 31 Mawrth	**(11,418)**	**-**	**-**	**(10,918)**	**-**	**-**

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – Y Grŵp

Mae'r datganiad hwn yn dangos cost gyfrifyddu darparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu drwy drethiant. Mae Cyrff Llywodraeth Leol yn codi trethi i dalu am wariant yn unol â'r rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa o ran trethiant yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

		Y Grŵp 2024-25			Y Grŵp 2023-24		
	Nodyn	Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000	Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000
Cyflogau a Phensiynau Swyddogion yr Heddlu		180,976	-	**180,976**	173,117	-	**173,117**
Cyflogau a Phensiynau Staff yr Heddlu		78,699	-	**78,699**	77,693	-	**77,693**
Cyllidebau Datganoledig		13,411	(1,981)	**11,430**	12,163	(2,135)	**10,028**
Cyllidebau'r Heddlu / Cyllidebau Wrth Gefn		48,943	(17,456)	**31,487**	43,892	(7,454)	**36,438**
Cyllidebau wedi'u Canoli		13,760	(1,235)	**12,525**	13,375	(457)	**12,918**
Cyllidebau a Ariennir yn Allanol		25,844	(36,712)	**(10,868)**	31,467	(40,173)	**(8,706)**
Cyllidebau Cydweithredol		44,713	(20,784)	**23,929**	33,833	(14,507)	**19,326**
Cyllidebau Canolog		32,159	(16,551)	**15,608**	18,399	(27,015)	**(8,616)**
Gwasanaethau'r Heddlu		**438,505**	**(94,719)**	**343,786**	**403,939**	**(91,741)**	**312,198**
Craidd Corfforaethol a Democrataidd		3,231	(145)	**3,086**	3,406	(177)	**3,229**
Gwasanaethau a Gomisiynwyd (gan gynnwys Gwariant y Gronfa Diogelwch Cymunedol)		14,126	(11,790)	**2,336**	13,237	(9,343)	**3,894**
Costau Heb eu Dosbarthu:							
- Buddiannau Ymddeol Cost Gwasanaeth Blaenorol		40	-	**40**	(30)	-	**(30)**
- Iawndal Rhwymedi Pensiwn yr Heddlu		971	(971)	**-**	-	-	**-**
- Costau Eraill Heb eu Dosbarthu, gan gynnwys Buddiannau Terfynu – ymddeoliad gwirfoddol		2	-	**2**	-	-	**-**
Cost Gwasanaethau	**10**	**456,875**	**(107,625)**	**349,250**	**420,552**	**(101,261)**	**319,291**
Gwariant Gweithredu Arall							
- (Enillion)/colledion ar Waredu Asedau Anghyfredol		786	-	**786**	225	-	**225**
- Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi	**8**	132,831	(46,780)	**86,051**	125,528	(50,827)	**74,701**
- Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol	**9**	-	(389,195)	**(389,195)**	-	(360,255)	**(360,255)**
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau		**590,492**	**(543,600)**	**46,892**	**546,305**	**(512,343)**	**33,962**
(Gwarged)/Diffyg ar Ailbrisio Asedau Anghyfredol				**(5,931)**			**(3,280)**
(Enillion)/Colledion Actiwaraidd ar Asedau/Rhwymedigaethau Pensiwn				**(317,920)**			**38,370**
(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall				**(323,851)**			**35,090**
Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr				**(276,959)**			**69,052**

Mae'r tabl uchod yn dangos sefyllfa'r Grŵp a chaiff y datganiadau ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl eu nodi ar wahân yn y tablau canlynol.

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

	Nodyn	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 2024-25			Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 2023-24		
		Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000	Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000
Cyflogau a Phensiynau Swyddogion yr Heddlu		-	-	**-**	-	-	**-**
Cyflogau a Phensiynau Staff yr Heddlu		-	-	**-**	-	-	**-**
Cyllidebau Datganoledig		-	(1,981)	**(1,981)**	-	(2,135)	**(2,135)**
Cyllidebau'r Heddlu / Cyllidebau Wrth Gefn		-	(17,456)	**(17,456)**	-	(7,454)	**(7,454)**
Cyllidebau wedi'u Canoli		-	(1,235)	**(1,235)**	-	(457)	**(457)**
Cyllidebau a Ariennir yn Allanol		-	(36,712)	**(36,712)**	-	(40,173)	**(40,173)**
Cyllidebau Cydweithredol		-	(20,784)	**(20,784)**	-	(14,507)	**(14,507)**
Cyllidebau Canolog		-	(16,551)	**(16,551)**	-	(27,015)	**(27,015)**
Gwasanaethau'r Heddlu		**-**	**(94,719)**	**(94,719)**	**-**	**(91,741)**	**(91,741)**
Craidd Corfforaethol a Democrataidd		3,231	(145)	**3,086**	3,406	(177)	**3,229**
Gwasanaethau a Gomisiynwyd (gan gynnwys Gwariant y Gronfa Diogelwch Cymunedol)		14,126	(11,790)	**2,336**	13,237	(9,343)	**3,894**
Costau Heb eu Dosbarthu:							
- Buddiannau Ymddeol Cost Gwasanaeth Blaenorol		-	-	**-**	-	-	**-**
- Iawndal Rhwymedi Pensiwn yr Heddlu		-	(971)	**(971)**	-	-	**-**
- Costau Eraill Heb eu Dosbarthu, gan gynnwys Buddiannau Terfynu – ymddeoliad gwirfoddol		-	-	**-**	-	-	**-**
Cost Gwasanaethau		**17,357**	**(107,625)**	**(90,268)**	**16,643**	**(101,261)**	**(84,618)**
Gwariant Gweithredu Arall							
- (Enillion)/colledion ar waredu asedau anghyfredol		786	-	**786**	225	-	**225**
- Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi	**8**	893	(46,780)	**(45,887)**	753	(50,827)	**(50,074)**
- Trethiant ac incwm grant amhenodol	**9**	-	(389,195)	**(389,195)**	-	(360,255)	**(360,255)**
Costau Comisiynu (trosglwyddiad o fewn y grŵp)		**571,456**	**-**	**571,456**	**528,684**	**-**	**528,684**
(Gwarged)/diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau		**590,492**	**(543,600)**	**46,892**	**546,305**	**(512,343)**	**33,962**
(Gwarged) neu ddiffyg ar ailbrisio asedau anghyfredol				(5,931)			(3,280)
(Enillion)/colledion actiwaraidd ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn				10			152
Addasiadau Cyfrifyddu eraill oherwydd ailddatganiadau				-			-
Costau Comisiynu (trosglwyddiad o fewn y grŵp)				(317,930)			38,218
(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall				**(323,851)**			**35,090**
Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr				**(276,959)**			**69,052**

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Prif Gwnstabl

	Nodyn	Y Prif Gwnstabl 2024-25			Y Prif Gwnstabl 2023-24		
		Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000	Gwariant Gros £000	Incwm Gros £000	Gwariant Net £000
Cyflogau a Phensiynau Swyddogion yr Heddlu		180,976	-	**180,976**	173,117	-	**173,117**
Cyflogau a Phensiynau Staff yr Heddlu		78,699	-	**78,699**	77,693	-	**77,693**
Cyllidebau Datganoledig		13,411	-	**13,411**	12,163	-	**12,163**
Cyllidebau'r Heddlu / Cyllidebau Wrth Gefn		48,943	-	**48,943**	43,892	-	**43,892**
Cyllidebau wedi'u Canoli		13,760	-	**13,760**	13,375	-	**13,375**
Cyllidebau a Ariennir yn Allanol		25,844	-	**25,844**	31,467	-	**31,467**
Cyllidebau Cydweithredol		44,713	-	**44,713**	33,833	-	**33,833**
Cyllidebau Canolog		32,159	-	**32,159**	18,399	-	**18,399**
Gwasanaethau'r Heddlu		**438,505**	**-**	**438,505**	**403,939**	**-**	**403,939**
Costau Heb eu Dosbarthu:							
- Buddiannau Ymddeol Cost Gwasanaeth Blaenorol		40	-	**40**	(30)	-	**(30)**
- Iawndal Rhwymedi Pensiwn yr Heddlu		971	-	**971**			
- Costau Eraill Heb eu Dosbarthu, gan gynnwys Buddiannau Terfynu – ymddeoliad gwirfoddol		2	-	**2**			
Cost Gwasanaethau		**439,518**	**-**	**439,518**	**403,909**	**-**	**403,909**
Gwariant Gweithredu Arall							
- Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi	**8**	131,938	-	**131,938**	124,775	-	**124,775**
Costau Comisiynu (trosglwyddiad o fewn y grŵp)		(571,456)	-	**(571,456)**	(528,684)	-	**(528,684)**
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau		**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**
(Enillion)/Colledion Actiwaraidd ar Asedau/Rhwymedigaethau Pensiwn				(317,930)			38,218
Costau Comisiynu (trosglwyddiad o fewn y grŵp)				317,930			(38,218)
(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall				**-**			**-**
Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr				**-**			**-**

Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn ar y cronfeydd wrth gefn gwahanol a ddelir, wedi'u dadansoddi'n gronfeydd defnyddiadwy (h.y. y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu leihau trethiant lleol) ac yn gronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy, na ellir eu defnyddio. Mae'r (Gwarged) neu'r Diffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos cost economaidd wirioneddol darparu gwasanaethau. Ceir rhagor o fanylion yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r llinell (Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn dangos Balans statudol Cronfa'r Heddlu cyn unrhyw drosglwyddiadau yn ôl disgresiwn i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd neu ohonynt.

	Nodyn	Balans Cronfa'r Heddlu £000	Cronfeydd Wrth Gefn Cronfa'r Heddlu a Glustnodwyd £000	Y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn £000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £000	Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy £000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn £000
Balans ar 31 Mawrth 2024 a ddygwyd ymlaen		**(10,918)**	**(64,964)**	**(104)**	**(75,986)**	**2,667,711**	**2,591,725**
Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2024-25							
(Gwarged)/diffyg ar ddarparu gwasanaethau		46,892	-	-	**46,892**	-	**46,892**
Incwm a gwariant cynhwysfawr arall		-	-	-	**-**	(323,851)	**(323,851)**
Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr		**46,892**	**-**	**-**	**46,892**	**(323,851)**	**(276,959)**
Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido o dan y rheoliadau	**16**	(53,642)	-	104	**(53,538)**	53,538	**-**
(Cynnydd)/lleihad net cyn trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd		**(6,750)**	**-**	**104**	**(6,646)**	**(270,313)**	**(276,959)**
Trosglwyddiadau (i)/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd		6,250	(6,250)		**-**	-	**-**
(Cynnydd)/lleihad mewn symudiad yn ystod y flwyddyn	**7**	**(500)**	**(6,250)**	**104**	**(6,646)**	**(270,313)**	**(276,959)**
Balans ar 31 Mawrth 2025 a gariwyd ymlaen		**(11,418)**	**(71,214)**	**-**	**(82,632)**	**2,397,398**	**2,314,766**

	Nodyn	Balans Cronfa'r Heddlu £000	Cronfeydd Wrth Gefn Cronfa'r Heddlu a Glustnodwyd £000	Y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn £000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £000	Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy £000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn £000
Balans ar 31 Mawrth 2023 a ddygwyd ymlaen		**(10,648)**	**(45,216)**	**-**	**(55,864)**	**2,578,537**	**2,522,673**
Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2023-24							
(Gwarged)/diffyg ar ddarparu gwasanaethau		33,962	-	-	**33,962**	-	**33,962**
Incwm a gwariant cynhwysfawr arall		-	-	-	**-**	35,090	**35,090**
Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr		**33,962**	**-**	**-**	**33,962**	**35,090**	**69,052**
Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido o dan y rheoliadau	**16**	(53,980)	-	(104)	**(54,084)**	54,084	**-**
(Cynnydd)/lleihad net cyn trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd		**(20,018)**	**-**	**(104)**	**(20,122)**	**89,174**	**69,052**
Trosglwyddiadau (i)/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd		19,748	(19,748)		**-**	-	**-**
(Cynnydd)/lleihad mewn symudiad yn ystod y flwyddyn	**7**	**(270)**	**(19,748)**	**(104)**	**(20,122)**	**89,174**	**69,052**
Balans ar 31 Mawrth 2024 a gariwyd ymlaen		**(10,918)**	**(64,964)**	**(104)**	**(75,986)**	**2,667,711**	**2,591,725**

Y Fantolen

Mae'r datganiad yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau cydnabyddedig. Mae'r asedau net (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyfateb i'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Cofnodir cronfeydd wrth gefn mewn dau gategori – cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy (h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gellir eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau), yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar y defnydd a wneir ohonynt (e.e. y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn y gellir ond ei defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled) a chronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy, h.y. na ellir eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu (e.e. y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn), lle y byddai symiau ond ar gael i ddarparu gwasanaethau pe bai'r asedau yn cael eu gwerthu; a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a ddangosir ar y llinell 'Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail gyllido o dan y rheoliadau' yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn (e.e. Diffygion pensiwn).

		31 Mawrth 2025			31 Mawrth 2024		
	Nodyn	Y Grŵp £000	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu £000	Y Prif Gwnstabl £000	Y Grŵp £000	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu £000	Y Prif Gwnstabl £000
Eiddo, Offer a Chyfarpar	17	220,546	220,546	-	204,582	204,582	-
Asedau Anniriaethol	17	3,745	3,745	-	1,831	1,831	-
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	26	-	-	-	-	-	-
Dyledwyr Hirdymor Eraill	22	198	-	198	222	-	222
Dyledwyr Hirdymor – trosglwyddiad o fewn y grŵp		wedi'u heithrio wrth gysoni ar gyfer y grŵp	-	2,562,833	wedi'u heithrio wrth gysoni ar gyfer y grŵp	-	2,820,636
Asedau Hirdymor		**224,489**	**224,291**	**2,563,031**	**206,635**	**206,413**	**2,820,858**
Buddsoddiadau Byrdymor	21	38,266	38,266	-	25,787	25,787	-
Asedau a Ddelir i'w Gwerthu	20	295	295	-	195	195	-
Stocrestrau		3,353	-	3,353	2,705	-	2,705
Dyledwyr Byrdymor	22	42,869	42,869	-	69,697	69,697	-
Dyledwyr – cyfalaf gweithio o fewn y grŵp		-	(39,121)	39,121	-	(44,032)	44,032
Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod	21	27,096	27,096	-	14,842	14,842	-
Asedau Cyfredol		**111,879**	**69,405**	**42,474**	**113,226**	**66,489**	**46,737**
Benthyciadau Byrdymor		(1,594)	(1,594)	-	(1,085)	(1,085)	-
Credydwyr Byrdymor	23	(47,337)	(4,863)	(42,474)	(51,344)	(4,607)	(46,737)
Rhwymedigaethau Cyfredol		**(48,931)**	**(6,457)**	**(42,474)**	**(52,429)**	**(5,692)**	**(46,737)**
Credydwyr Hirdymor – trosglwyddiad o fewn y grŵp		wedi'u heithrio wrth gysoni ar gyfer y grŵp	(2,562,833)	-	wedi'u heithrio wrth gysoni ar gyfer y grŵp	(2,820,636)	-
Darpariaethau	24	(6,465)	(6,465)	-	(6,074)	(6,074)	-
Benthyciadau Hirdymor		(32,035)	(32,035)	-	(30,742)	(30,742)	-
Credydwyr Hirdymor Eraill	23	(653)	(653)	-	(1,461)	(1,461)	-
Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill:							
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	26	(790)	(19)	(771)	(900)	(22)	(878)
- Cynllun Cronfa'r Heddlu	26	(2,562,260)	-	(2,562,260)	(2,819,980)	-	(2,819,980)
Rhwymedigaethau Hirdymor		**(2,602,203)**	**(2,602,005)**	**(2,563,031)**	**(2,859,157)**	**(2,858,935)**	**(2,820,858)**
Asedau Net		**(2,314,766)**	**(2,314,766)**	**-**	**(2,591,725)**	**(2,591,725)**	**-**
Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	7	(82,632)	(82,632)	-	(75,986)	(75,986)	-
Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy	25	2,397,398	2,397,398	-	2,667,711	2,667,711	-
Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn		**2,314,766**	**2,314,766**	**-**	**2,591,725**	**2,591,725**	**-**

Datganiad Llif Arian Parod

Mae'r Datganiad Llif Arian Parod yn dangos y newidiadau i arian parod Heddlu De Cymru/y Comisiynydd a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'n cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod drwy ddosbarthu llifau arian parod yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llifau arian parod sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o'r graddau y caiff y gweithrediadau eu hariannu drwy drethiant ac incwm grant neu gan y rhai sy'n derbyn y gwasanaethau a ddarperir. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli'r graddau y mae llifau arian parod allan wedi'u gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae llifau arian parod sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol o ran rhagweld hawliadau ar lifau arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca).

	Nodyn	2024-25 £000	2023-24 £000
(Gwarged)/diffyg net wrth ddarparu gwasanaethau		46,892	33,962
Addasiadau i (warged)/diffyg net wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn ymwneud ag arian parod		(111,706)	(62,962)
Addasiadau ar gyfer eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y (gwarged)/diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido		19,441	4,975
Llifau arian parod net o Weithgareddau Gweithredu	**30**	**(45,373)**	**(24,025)**
Enillion o Fuddsoddiadau a Gwasanaethu Cyllid		(3,724)	(2,582)
Gweithgareddau Buddsoddi	**31**	38,790	32,519
Gweithgareddau Cyllido	**32**	(1,947)	997
(Cynnydd)/lleihad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod		**(12,254)**	**6,909**
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd		14,842	21,751
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd	**22**	**27,096**	**14,842**



Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu

Cynllun yr Heddlu	2024-25 £000	2023-24 £000
Cyfraniadau derbyniadwy		
Gan y cyflogwr:		
- Arferol	(52,640)	(43,168)
- Ymddeoliadau cynnar (gan gynnwys tâl cyfalaf cyfatebol ar gyfer ymddeoliadau oherwydd salwch)	(464)	-
Gan aelodau	(20,278)	(18,677)
	(73,382)	**(61,845)**
Trosglwyddiadau i mewn		
Trosglwyddiadau unigol i mewn o gynlluniau eraill	**(190)**	**(330)**
Buddiannau sy'n daladwy		
Pensiynau	101,600	95,402
Cyfnewidiadau a buddiannau ymddeol mewn cyfandaliad	13,537	13,854
Buddiannau marwolaeth mewn cyfandaliad	446	281
	115,583	**109,537**
Taliadau i'r sawl sy'n ymadael ac mewn perthynas â nhw		
Trosglwyddiadau i gynlluniau eraill	-	15
Cyfraniadau a ad-dalwyd	144	100
	144	**115**
Is-gyfanswm cyn trosglwyddo o Gronfa'r Heddlu	**42,155**	**47,477**
Arian ychwanegol sy'n daladwy o Gronfa'r Heddlu (ar ffurf grantiau ychwanegol)	**(42,155)**	**(47,477)**
Diffyg i'w dalu o Gronfa'r Heddlu	**-**	**-**
Datganiad Asedau Net – Rhwymedigaethau ac asedau cyfredol net		
Asedau cyfredol:		
Dyledwr – balansau net sy'n ddyledus o Gronfa'r Heddlu	3,885	16,723
Balans banc	-	-
Rhwymedigaethau cyfredol:		
Credydwr - buddiannau sy'n daladwy i swyddogion sy'n ymddeol ddiwedd Mawrth talwyd Ebrill	(2,280)	(1,174)
Credydwr – grant sy'n ddyledus i'r Swyddfa Gartref	(1,605)	-
Dyledwr – balansau net sy'n ddyledus i Gronfa'r Heddlu	-	(15,549)
Net	**-**	**-**

Nodiadau i Gyfrifon Cronfa Bensiwn yr Heddlu

Sefydlwyd y gofyniad i sefydlu Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu ar wahân o dan Reoliadau Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007 (OS 2007/1932). Pennir cyfraniadau Cyflogeion a Chyflogwyr at y gronfa hon gan lywodraeth ganolog.

Caiff cronfa bensiwn yr heddlu ei gweinyddu a'i rheoli gan drydydd parti, XPS Administration.

Mae pensiwn yr Heddlu yn gynllun nas ariennir ac felly nid oes gan y gronfa unrhyw asedau buddsoddi. Caiff y taliadau i mewn i'r Gronfa Bensiwn ac allan ohoni eu mantoli i ddim bob blwyddyn drwy gael cyfraniad ychwanegol o Gronfa'r Heddlu, a gaiff ei ad-dalu, yn ei dro, gan y Swyddfa Gartref.

Nid yw datganiadau ariannol y gronfa yn ystyried rhwymedigaethau yn y dyfodol i dalu pensiynau a buddiannau eraill ar ôl diwedd y flwyddyn. Cyfrifir am y rhain ym mantolen y Grŵp fel buddiannau ymddeol yn y dyfodol. Heblaw am y nodiadau uchod, mae Cronfa Bensiwn yr Heddlu wedi dilyn y polisïau cyfrifyddu fel y'u nodir yn **Nodyn 1** a **Nodyn 26**.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

NODYN 1: Polisïau Cyfrifyddu

Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 a'r alldro ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2025 a sefyllfaoedd cymharol mewn perthynas â 2023-24. Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd lunio Datganiad o Gyfrifon blynyddol o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol o dan Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Yr egwyddorion cyffredinol a'r arferion a fabwysiadwyd wrth lunio'r cyfrifon hyn yw'r rhai a argymhellir gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Cyfeirir at y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25 (y Cod) sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Mae gan Gyrff Llywodraeth Leol rywfaint o ddisgresiwn wrth benderfynu pa bolisïau y mae angen eu darparu a lefel y manylion i'w datgelu, ond dylid nodi bod y Cod yn datgan y tybir bod defnyddwyr datganiadau ariannol yn meddu ar wybodaeth resymol am gyfrifyddu, a fyddai'n cyfyngu ar y manylion sydd eu hangen yn y crynodeb o'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Croniadau o incwm a gwariant

Cyfrifir am weithgarwch yn y flwyddyn y mae'n digwydd, ac nid pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu'n dod i law. Yn benodol:

- Cydnabyddir refeniw o ddarparu gwasanaethau pan fydd modd mesur canran y trafodiad a gwblhawyd yn ddibynadwy a'i bod yn debygol y ceir y buddiannau economaidd neu'r potensial am wasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad;
- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio – os bydd bwlch rhwng y dyddiad y ceir cyflenwadau a'r dyddiad y cânt eu defnyddio, cânt eu cario fel stocrestrau ar y Fantolen;
- Cofnodir treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a geir (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogeion) fel gwariant pan geir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir taliadau;
- Cyfrifir am log sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ac sy'n daladwy ar fenthyciadau fel incwm a gwariant, yn y drefn honno, ar sail y gyfradd llog weithredol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llifau arian parod a osodwyd neu a bennwyd gan y contract;
- Pan fydd refeniw a gwariant wedi'u cydnabod ond nad yw arian parod wedi dod i law nac wedi'i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol ar y Fantolen. Lle na chaiff dyledion eu talu o bosibl, caiff balans y dyledwyr ei leihau a chodir tâl ar refeniw am yr incwm na chaiff ei gasglu o bosibl; a
- Lle nad oedd symiau gwirioneddol ar gael, mae'n bosibl y bu'n rhaid defnyddio gwerthoedd amcangyfrifedig priodol.

Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Mae trafodion Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cynnwys costau gweithredu ei Thîm a chostau corfforaethol penodol eraill, y cyfrifir amdanynt fel gwariant Craidd Corfforaethol a Democrataidd o dan y Cod ynghyd â dosbarthiad newydd ar gyfer comisiynu gwasanaethau. Mae gwariant gros yn cynnwys taliadau a godir ar asedau (gostyngiadau dibrisio ac ailbrisio) ac mae'r holl incwm wedi'i gynnwys er mwyn trosglwyddo cyllid i dalu costau Cyfrif Gwariant y Prif Gwnstabl. Mae incwm a gwariant y Grŵp yn cynnwys yr holl incwm a gwariant sy'n ymwneud â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl.

Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod

Caiff arian parod ei gynrychioli gan arian parod mewn llaw ac adneuon â sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar ôl rhybudd nad yw'n fwy na 24 awr. Mae hyn yn cynnwys adneuon cyfrif banc y gellir cael gafael arnynt a'u hawlio ar unwaith yn ogystal â Chronfeydd y Farchnad Arian y gellir cael gafael arnynt ar unwaith. Nid yw'r Cod yn cynnwys meini prawf llym ar gyfer cyfansoddiad yr hyn sy'n cyfateb i arian parod ac mae gan y Comisiynydd rywfaint o ddisgresiwn yn y polisi hwn. Mae cyngor pellach yn awgrymu nad yw adneuon cyfnod penodol yn hylifol iawn ac nad oes modd eu troi'n arian parod yn hawdd ac, o dan rai amodau o'r farchnad, y gallai fod risg o newid mewn gwerth. Ar y sail hon, cyfrifir am bob buddsoddiad adnau cyfnod penodol fel buddsoddiadau.

Rhwymedigaethau digwyddiadol

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi pan fydd digwyddiad wedi codi sy'n creu rhwymedigaeth bosibl y caiff ei bodolaeth ond ei chadarnhau os bydd digwyddiadau ansicr yn codi yn y dyfodol neu fel arall nad ydynt yn gyfan gwbl dan reolaeth y Comisiynydd na'r Prif Gwnstabl. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd yn codi o dan amgylchiadau lle y byddai darpariaeth fel arall yn cael ei gwneud ond nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Ni chydnabyddir rhwymedigaethau digwyddiadol yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

Asedau digwyddiadol

Mae ased digwyddiadol yn codi pan fydd digwyddiad wedi codi sy'n creu ased posibl y caiff ei fodolaeth ond ei gadarnhau os bydd digwyddiadau ansicr yn codi yn y dyfodol neu fel arall nad ydynt yn gyfan gwbl dan reolaeth y Comisiynydd na'r Prif Gwnstabl. Ni chydnabyddir asedau digwyddiadol yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon pan fo'n debygol y bydd all-lif o fuddiannau economaidd neu'r potensial am wasanaeth.

Buddiannau cyflogeion

Buddiannau sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddiannau cyflogeion byrdymor yw'r rhai sy'n ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddiannau megis cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb oherwydd salwch â thâl, taliadau bonws a buddiannau anariannol (e.e. ceir) i gyflogeion presennol, ac fe'u cydnabyddir fel traul am wasanaeth yn y flwyddyn y mae'r cyflogeion yn rhoi'r gwasanaeth. Gwneir croniad ar gyfer cost hawliau i wyliau neu unrhyw fath o gyfnod o absenoldeb (e.e. gwyliau blynyddol a chyfnod o absenoldeb hyblyg) y mae cyflogeion yn eu hennill ond nad ydynt yn eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn y gall cyflogeion eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Caiff y croniad ei godi ar (Gwarged) neu Ddiffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau, ond yna'i wrthdroi drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn er mwyn i fuddiannau gwyliau gael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn ariannol pan fydd yr absenoldeb oherwydd gwyliau yn digwydd.

Buddiannau Terfynu

Symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad i derfynu cyflogaeth cyflogai cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad cyflogai i dderbyn cael ei ddiswyddo'n wirfoddol yw buddiannau terfynu, ac fe'u codir ar sail gronnol ar y llinell Costau Heb Eu Dosbarthu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fydd ymrwymiad y gellir ei ddangos i derfynu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu wneud cynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

Pan fydd buddiannau terfynu yn cynnwys ychwanegiadau at bensiynau, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r swm sy'n daladwy i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr gael ei godi ar falans Cronfa'r Heddlu, yn hytrach na'r swm a gyfrifwyd yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen dyraniadau i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn ac ohoni er mwyn dileu'r dyledion a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau terfynu sy'n ychwanegu at bensiynau a rhoi dyledion ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw gyfryw symiau sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

Buddiannau Ôl-gyflogaeth

Nid yw pensiynau Swyddogion yr Heddlu yn cael eu hariannu drwy statud. Fodd bynnag, newidiodd y trefniadau ariannu ar 1 Ebrill 2006 o 'Talu Wrth Ennill' (h.y. yn seiliedig ar daliadau i bensiynwyr presennol), tâl uniongyrchol a godwyd ar y Cyfrif Refeniw, i gyfraniad pensiwn blynyddol gan y cyflogwr yn seiliedig ar ganran o'r cyflog, gyda'r balans yn daladwy i bensiynwyr yn dod o grant a roddwyd gan y Swyddfa Gartref. Mae pob cyflogai arall yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn aelodau gweithredol o Gronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, gan wneud cyfraniadau priodol fel cyflogwr ar gyfer aelodau eu cynlluniau staff i'r gronfa honno.

Mae'r ddau gynllun yn rhoi buddiannau diffiniedig i aelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd fel cyflogeion.

Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad o Gyfrifon. Ni chaiff digwyddiadau ar ôl y dyddiad diweddarach hwn eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau.

Pan fydd digwyddiadau cyn y dyddiad hwn (digwyddiadau addasu) yn rhoi gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar ddyddiad y fantolen, caiff y ffigurau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau eu haddasu ym mhob ffordd berthnasol er mwyn adlewyrchu effaith y wybodaeth hon. Pan fydd digwyddiadau cyn y dyddiad hwn (digwyddiadau nad ydynt yn rhai addasu) yn dangos amodau sy'n codi ar ôl dyddiad y fantolen, ni chaiff y datganiadau ariannol eu haddasu, ond os ydynt yn berthnasol, cânt eu datgelu mewn nodyn.

Eitemau eithriadol ac addasiadau cyfnod blaenorol

Pan fydd eitemau o incwm a gwariant yn berthnasol, datgelir eu natur a'r swm ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn dibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau o ran deall perfformiad ariannol.

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu er mwyn cywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn rhagolygol, (h.y. yn y flwyddyn gyfredol a blynyddoedd yn y dyfodol y mae'r newid yn effeithio arnynt ac nad ydynt yn arwain at addasiad cyfnod blaenorol).

Dim ond pan fydd arferion cyfrifyddu priodol yn gofyn amdanynt neu pan fydd y newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar y sefyllfa ariannol neu'r perfformiad ariannol y caiff newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu eu gwneud.

Pan gaiff newid ei wneud, caiff ei gymhwyso'n ôl-weithredol (oni nodir fel arall) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi'i gymhwyso erioed.

Caiff gwallau sylweddol a ddarganfyddir yn ffigurau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol drwy newid balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

Offerynnau ariannol

Rhwymedigaethau Ariannol

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y Fantolen pan ddaw'r Comisiynydd neu'r Prif Gwnstabl yn barti yn narpariaethau cytundebol offeryn ariannol, a chânt eu mesur i ddechrau ar sail gwerth teg a'u cario ar eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae taliadau blynyddol a godir ar y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am log sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi â chyfradd llog weithredol yr offeryn.

Y gyfradd llog weithredol yw'r gyfradd sy'n disgowntio'n union daliadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn i swm yr offeryn a gydnabuwyd yn wreiddiol. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau, y swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sy'n weddill (ynghyd â llog cronedig); a'r llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Asedau Ariannol – Adneuon, Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy

Cydnabyddir adneuon, benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy ar y Fantolen pan ddaw'r Comisiynydd neu'r Prif Gwnstabl yn barti yn narpariaethau cytundebol offeryn ariannol, a chânt eu mesur i ddechrau ar sail gwerth teg. Yna, cânt eu mesur ar eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol ar gyfer llog derbyniadwy yn seiliedig ar swm cario'r ased wedi'i luosi â chyfradd llog weithredol yr offeryn.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r adneuon, y benthyciadau a'r symiau derbyniadwy, y swm a gyflwynir ar y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sy'n weddill (ynghyd â llog cronedig) a'r llog a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n dderbyniadwy ar gyfer y flwyddyn yng nghytundeb y benthyciad.

Trosi arian tramor

Pan fydd y Comisiynydd neu'r Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i drafodiad mewn arian cyfred tramor, caiff y trafodiad ei drosi'n sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gymwys ar y dyddiad yr oedd y trafodiad yn weithredol.

Grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau eraill

P'un a gânt eu talu ar gyfrif, drwy randaliadau neu ar ffurf ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd partïon yn ddyledus i Heddlu De Cymru/y Comisiynydd pan fydd sicrwydd rhesymol:

- y bydd y Comisiynydd neu'r Prif Gwnstabl yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth y taliadau; ac
- y daw'r grantiau neu'r cyfraniadau i law.

Caiff arian a delir ymlaen llaw fel grantiau a chyfraniadau nad yw'r amodau ar eu cyfer wedi'u bodloni ei gario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fydd amodau wedi'u bodloni, caiff y grant neu'r cyfraniad ei gredydu i linell y gwasanaeth perthnasol (grantiau refeniw a chyfraniadau y gellir eu priodoli) neu Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol (grantiau refeniw nas clustnodwyd a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Cydnabyddir grantiau gwerth isel penodol islaw de minimis yn y flwyddyn y byddant yn dod i law. Caiff balansau eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn a chaiff symiau gwerth isel de minimis penodol eu cydnabod o bosibl. Os bydd angen addasiadau yn y dyfodol, cyfrifir am y rhain yn y dyfodol.

Asedau anniriaethol

Caiff gwariant ar asedau anariannol nad oes sylwedd ffisegol iddynt ond a reolir o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol (e.e. trwyddedau meddalwedd) ei gyfalafu pan ddisgwylir y bydd buddiannau economaidd neu'r potensial am wasanaeth yn y dyfodol yn llifo o'r ased anniriaethol. Caiff asedau anniriaethol eu mesur ar gost i ddechrau. Dim ond pan fydd modd pennu gwerth teg yr asedau drwy gyfeirio at farchnad weithredol y caiff symiau eu hailbrisio. Yn ymarferol, nid oes yr un ased anniriaethol yn bodloni'r maen prawf hwn, ac felly caiff asedau anniriaethol eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio.

Stocrestrau a chontractau hirdymor

Caiff stocrestrau (stociau) eu prisio ar werth gwireddadwy cost neu net, pa un bynnag sydd isaf. Cyfrifir am gontractau hirdymor ar sail codi ar y (Gwarged) neu'r Diffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau am werth y gwaith a'r gwasanaethau a geir o dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

Cyd-drefniadau – Cyfrif am gyfuno cyd-drefniadau

Pan fydd y Comisiynydd/Heddlu wedi ymrwymo i drefniadau cydweithredol â Chomisiynwyr/Heddluoedd eraill, mae asesiad wedi'i wneud yn erbyn Cyd-drefniadau IFRS 11 er mwyn penderfynu ar y driniaeth gyfrifyddu briodol. Mae IFRS11 yn ei gwneud yn ofynnol i drefniadau o'r fath gael eu dosbarthu'n Gyd-fentrau neu'n Gyd-weithrediadau. Caiff holl drefniadau o'r fath y Comisiynydd/Heddlu eu dosbarthu'n Gyd-weithrediadau lle mae gan y Comisiynydd/Heddlu yr hawl i'w gyfran deg o Asedau a Rhwymedigaethau'r Cyd-weithrediadau.

Prydlesau

Yn 2024-25, mae Heddlu De Cymru wedi cymhwyso *IFRS 16 Leases* fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Prif effaith y gofynion newydd yw y bydd ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth prydles yn cael eu nodi ar y Fantolen ar 1 Ebrill 2024 ar gyfer prydlesau y cyfrifwyd amdanynt yn flaenorol fel prydlesau gweithredu (h.y. heb gydnabod yr eiddo prydles fel ased na rhenti yn y dyfodol fel rhwymedigaeth). Gweler **Nodyn 19** am ragor o fanylion ar drosglwyddo i IFRS 16.

Fel deiliad prydles, o 1 Ebrill 2024, cynhaliwyd asesiadau i ganfod a yw contract yn brydles, neu'n cynnwys prydles, ar ddechrau'r contract. Mae contract yn brydles, neu'n cynnwys prydles, os yw'r contract yn cyfleu'r hawl i reoli'r defnydd a wneir o ased a nodwyd am gyfnod o amser. Mae'r eithriadau sydd wedi'u cymhwyso ar gyfer prydlesau byrdymor (prydlesau â chyfnod o 12 mis neu lai) a gwerth isel (lle mae gwerth yr ased sylfaenol yn llai na £10,000 yn newydd).

Cydnabod Cychwynnol

Caiff rhwymedigaeth y brydles ei chydnabod i ddechrau ar werth presennol taliadau'r brydles nad ydynt wedi'u talu hyd at y dyddiad hwnnw, wedi'i ddisgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles, os gellir pennu'r gyfradd honno yn hawdd. Os na ellir pennu'r gyfradd honno yn hawdd, defnyddir y gyfradd fenthyca gynyddrannol. Mae'r gyfradd fenthyca gynyddrannol yn seiliedig ar y gyfradd llog y byddai'n rhaid i Heddlu De Cymru ei thalu er mwyn benthyca, dros gyfnod tebyg, a gyda sicrwydd tebyg, yr arian yr oedd ei angen i gaffael ased o werth tebyg i'r ased hawl i ddefnyddio mewn amgylchedd economaidd tebyg.

Gall taliadau prydles gynnwys taliadau sefydlog llai unrhyw gymhellion prydles sy'n dderbyniadwy, taliadau prydles amrywiadwy sy'n dibynnu ar fynegai neu raddfa, a gaiff eu mesur i ddechrau gan ddefnyddio'r mynegai neu'r gyfradd ar y dyddiad dechrau, gwarantau gwerth gweddilliol, pris arfer opsiwn prynu os oes sicrwydd rhesymol y bydd deiliad y brydles yn arfer yr opsiwn hwnnw, a thaliadau cosbau am derfynu'r brydles, os yw cyfnod y brydles yn adlewyrchu deiliad y brydles yn arfer opsiwn i derfynu'r brydles.

Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei fesur i ddechrau ar gost. Mae cost yn cynnwys swm rhwymedigaeth y brydles a fesurwyd i ddechrau, unrhyw daliadau prydles a wnaed ar y dyddiad dechrau neu cyn hynny (llai unrhyw gymhellion prydles a dderbyniwyd) ac unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol. Caiff asedau hawl i ddefnyddio eu cyfalafu ar gost a'u datgelu gydag eiddo, offer a chyfarpar.

Lle y caiff ased hawl i ddefnyddio ei gaffael ar gyfradd hedyn pupur neu heb unrhyw gost ynghlwm wrtho, caiff ei gost ei fesur ar ei werth teg ar y dyddiad dechrau, a ddarperir gan brisiwr annibynnol. Caiff y gwahaniaeth rhwng gwerth teg yr ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth y brydles ei chydnabod yn y gwarged neu'r diffyg ar y llinell darparu gwasanaethau yn unol â'r broses o drosglwyddo ased a roddwyd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Proses Fesur Ddilynol

Caiff y model costau ei gymhwyso fel procsi ar gyfer gwerth presennol er mwyn mesur asedau hawl i ddefnyddio yn ddiweddarach ar gyfer prydlesau byrdymor (5 mlynedd neu lai) neu brydlesau tymor hwy pan fydd cytundeb y brydles yn cynnwys darpariaeth i ddiweddaru taliadau'r brydles ar gyfer amodau'r farchnad.

Pan fydd y model costau yn briodol, caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei fesur ar gost llai unrhyw ddibrisiant a gronnwyd ac unrhyw golledion o ganlyniad i amhariad a gronnwyd, a'i addasu ar gyfer unrhyw rwymedigaethau wedi'u hailfesur. Pan na fydd y model costau yn briodol, ar gyfer prydlesau hirdymor nad ydynt yn destun adolygiadau rhent a phrydlesau hedyn pupur neu heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt, caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei fesur ar werth teg gan brisiwr allanol ar ddyddiad y fantolen.

Caiff rhwymedigaeth y brydles ei mesur yn ddiweddarach drwy gynyddu'r swm cario i adlewyrchu llog ar rwymedigaeth y brydles, gan leihau'r gwerth cario i adlewyrchu'r taliadau prydles a wnaed, ac ailfesur y swm cario i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiadau i'r brydles a nodwyd. Caiff taliadau prydles amrywiadwy na chawsant eu cynnwys wrth fesur rhwymedigaeth y brydles i ddechrau eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr o hyd fel cost yn ystod y cyfnod.

Asedau anghyfredol a ddelir i'w gwerthu

Pan ddaw'n debygol y caiff swm cario ased ei adennill yn bennaf drwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy barhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu'n ased a ddelir i'w werthu. Caiff yr ased ei ailbrisio ar unwaith cyn ei ailddosbarthu ac yna'i gario ar y swm hwn neu werth teg llai costau i'w werthu, pa un bynnag sydd isaf. Pan fydd gostyngiad sylweddol mewn gwerth teg llai costau i'w werthu, cofnodir y golled ar y llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Cydnabyddir enillion mewn gwerth teg hyd at swm unrhyw golledion a gydnabyddir yn y (Gwarged) neu'r Diffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn unig. Ni chodir am ddibrisiant ar asedau a ddelir i'w gwerthu. Caiff derbyniadau cyfalaf dros £10,000, ar ôl iddynt gael eu cydnabod i ddechrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, eu trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn a dim ond ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf neu ad-dalu dyledion y gellir eu defnyddio a chaiff derbyniadau o dan £10,000 eu cadw yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Eiddo, offer a chyfarpar

Caiff asedau ac iddynt sylwedd ffisegol a ddelir i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w gosod ar rent i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol, eu dosbarthu'n eiddo, offer a chyfarpar.

Cydnabod

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella eiddo, offer a chyfarpar ei gyfalafu ar sail croniadau, ar yr amod ei bod yn debygol y sicrheir y manteision economaidd neu'r potensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r eitem yn y dyfodol ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Codir gwariant sy'n cynnal potensial ased i sicrhau manteision economaidd neu botensial gwasanaeth (h.y. gwaith atgyweirio a chynnal a chadw) yn y dyfodol ond nad yw'n ychwanegu gwerth ato fel gwariant pan eir iddo. Mae gwerth llawn gwariant cyfalaf wedi'i gynnwys yn y llinell ychwanegiadau ond mae'r gwerth cario yn y dyfodol yn adlewyrchu gwerth yr ased. Caiff asedau â phrisiad unigol o fwy na £10,000 eu cyfalafu, pan fydd eu hoes amcangyfrifedig o fudd perthnasol y tu hwnt i flwyddyn, ond gellir dewis cyfalafu eitemau islaw'r trothwy hwn fesul achos.

Mesur

Caiff asedau eu mesur ar gost i ddechrau, sy'n cynnwys:

- y pris prynu; ac
- unrhyw gostau y gellir eu priodoli i ddod â'r ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol er mwyn iddo allu bod yn weithredol yn y modd a fwriedir gan reolwyr.

Mae'r Cod, yn gryno, yn rhagnodi'r seiliau canlynol dros fesur dosbarthiadau o eiddo, offer a chyfarpar:

Prisiadau ar wahân ar gyfer tir ac adeiladau ac unrhyw gydrannau.

Cynnwys amcangyfrif o oes ddefnyddiol sy'n weddill yr adeilad ac unrhyw gydrannau.

Pennir y fethodoleg brisio yn ôl dosbarthiad yr ased:

- **Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu** – Cost Hanesyddol;
- **Tir ac adeiladau eraill** – Gwerth cyfredol yn seiliedig ar 'Werth Marchnadol', defnydd presennol neu Gost Ailadeiladu Ddibrisiedig;
- Pan na fydd unrhyw dystiolaeth o werth cyfredol yn seiliedig ar y farchnad, oherwydd natur arbenigol yr ased ac am mai anaml iawn y caiff yr ased ei werthu, caiff ei amcangyfrif drwy ddefnyddio dull cost ailadeiladu ddibrisiedig;
- **Cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar** – Cost Ailadeiladu Ddibrisiedig os nad oedd modd pennu Gwerth Defnydd Presennol;
- **Asedau Dros Ben** – Gwerth Teg yn seiliedig ar Werth Defnydd Presennol;
- **Asedau a ddelir i'w gwerthu** – wedi'u mesur ar y swm cario neu werth teg llai costau i'w gwerthu, pa un bynnag sydd isaf, a dylai dibrisiant ar yr asedau hynny ddod i ben;

Caiff asedau sydd wedi'u cynnwys ar y Fantolen ar werth cyfredol eu hailbrisio'n ddigon rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw eu swm cario yn sylweddol wahanol i'w gwerth cyfredol ar ddiwedd y flwyddyn, ond o leiaf bob pum mlynedd. Caiff prisiadau allanol eu gosod ar gontract i Avison Young (UK) Ltd. Caiff cynnydd mewn prisiadau eu cyfateb gan gredydau i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn er mwyn cydnabod enillion nas gwireddwyd.

Yn eithriadol, gellid credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fyddant yn deillio o wrthdroi colled a godwyd ar wasanaeth yn flaenorol.

Pan gaiff lleihad mewn gwerth ei nodi, cyfrifir am hyn drwy'r canlynol:

- Pan fydd balans o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, caiff swm cario'r ased ei leihau yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig);
- Pan na fydd unrhyw falans yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn neu pan fydd balans annigonol, caiff swm cario'r ased ei leihau yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisio a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef dyddiad ei gweithredu'n ffurfiol. Mae enillion sy'n codi cyn y dyddiad hwnnw wedi cael eu cyfuno yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Mae dyddiad gweithredol prisiadau ar gyfer y categorïau canlynol o asedau fel a ganlyn:

- Tir ac adeiladau: Cynhaliwyd prisiadau ar gyfer rhanbarth Morgannwg Ganol yn 2024-25;
- Cerbydau, offer a chyfarpar: adolygiadau blynyddol, sy'n deillio o briod swyddogaethau rheoli asedau a hwylusir gan adrannau mewnol, gan gynnwys Rheoli'r Fflyd a Systemau Gwybodaeth ar gyfer systemau cyfrifiadurol a systemau technoleg eraill.

Amhariad
Caiff asedau eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn o ran a oes unrhyw arwydd bod amhariad ar ased o bosibl. Pan fydd arwyddion a phan fydd unrhyw wahaniaethau posibl a amcangyfrifir yn berthnasol, amcangyfrifir swm adenilladwy'r ased a, phan fydd hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled o ganlyniad i amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan gaiff colledion o ganlyniad i amhariad eu nodi, cyfrifir amdanynt drwy'r canlynol:

- Pan fydd balans o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, caiff swm cario'r ased ei leihau yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig);
- Pan na fydd unrhyw falans yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn neu pan fydd balans annigonol, caiff swm cario'r ased ei leihau yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Dibrisiant
Darperir ar gyfer dibrisiant ar yr holl asedau eiddo, offer a chyfarpar drwy ddyraniad systematig o'u symiau dibrisiadwy dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodol y gellir ei phennu (h.y. tir rhydd-ddaliadol) ac asedau nad ydynt ar gael eto (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Mae dibrisiant yn gymwys i'r holl asedau eiddo, offer a chyfarpar, p'un a ydynt yn cael eu dal ar gost hanesyddol neu swm wedi'i ailbrisio, heblaw am rai eithriadau penodol:

- Tir lle y gellir dangos bod i'r ased oes ddefnyddiol ddiderfyn;
- Eiddo buddsoddi;
- Asedau sy'n cael eu hadeiladu nes eu bod ar gael i'w defnyddio;
- Asedau sydd wedi'u dosbarthu'n rhai a ddelir i'w gwerthu (h.y. asedau dros ben neu sydd wedi cael eu dadgydnabod); ac
- Asedau a ddelir ar eu gwerth gweddilliol amcangyfrifedig.

Bydd y tâl dibrisiant yn seiliedig ar y swm dibrisiadwy a bennir dros oes ddefnyddiol yr ased, gan ddefnyddio dull dibrisio sy'n adlewyrchu'r patrwm y disgwylir i fuddiannau economaidd neu botensial am wasanaeth yr ased gael eu treulio/ei dreulio yn y dyfodol. Caiff diwygiadau i'r uchod eu hystyried yn flynyddol, gan gynnwys dulliau dibrisio, oes ddefnyddiol amcangyfrifedig a gwerthoedd gweddilliol, ac os bydd disgwyliadau'n amrywio'n sylweddol, yr amcangyfrif cyfrifyddu ac nid y polisi cyfrifyddu a gaiff ei newid.

Pan fydd gan eitem o eiddo, offer a chyfarpar gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol o'i chymharu â chyfanswm cost yr eitem, caiff y cydrannau eu dibrisio ar wahân.

Pan fydd gan fwy nag un rhan sylweddol o'r un ased yr un oes ddefnyddiol a'r un dull dibrisio, gall y cyfryw rannau gael eu grwpio wrth bennu'r tâl dibrisiant.

Defnyddir y sylfeini canlynol

Tir ac adeiladau
Ni chaiff gwerthoedd tir eu dibrisio, ac ystyrir gwahanu adeiladau ag asedau sy'n werth mwy na'r trothwy o
£2.5m yn gydrannau. Mae'r trothwy hwn yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r prif eiddo gweithredol â gwerth uwch, sy'n cyfateb i tua 80% yn nhermau cyfanswm gwerth asedau adeiladau.

Bydd cydrannau posibl yn ystyried oes amcangyfrifedig asedau sy'n weddill ac yn cael eu cyfyngu mewn egwyddor i'r strwythur cynnal, y to a gwasanaethau (mecanyddol a thrydanol). Ystyrir bod hyn yn briodol o ran bodloni'r gofynion. Cymhwysir trothwy de minimus o 20% o werth yr adeilad. Yn y dyfodol, pan gaiff rhan o ased ei hadnewyddu, bydd angen dadgydnabod y rhan sydd wedi'i hadnewyddu.

Caiff enillion ailbrisio hefyd eu dibrisio, gyda swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth cyfredol a godir ar asedau a'r dibrisiant y gellid bod wedi'i godi yn seiliedig ar drosglwyddo eu cost hanesyddol bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Cerbydau
Ar sail llinell syth dros y cyfnod yr amcangyfrifir y ceir budd o'u defnyddio – rhwng 2 a 15 mlynedd.

Caledwedd Gyfrifiadurol
Ar sail llinell syth dros y cyfnod yr amcangyfrifir y ceir budd o'u defnyddio – rhwng 3 a 7 mlynedd.

Anniriaethol – Trwyddedau Meddalwedd Gyfrifiadurol
Wedi'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros eu hoes amcangyfrifedig, rhwng 3 a 7 mlynedd.

Canllaw yw'r oes economaidd ddefnyddiol a nodir ac mae'n dibynnu ar yr ased unigol dan sylw.

Darpariaethau

Mae darpariaethau yn neilltuo symiau i ddarparu ar gyfer rhwymedigaethau y mae'n debygol yr eir iddynt ond lle mae ansicrwydd ynghylch y symiau neu'r dyddiadau y byddant yn codi. Caiff darpariaethau eu codi'n uniongyrchol ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a chaiff y gwariant, pan eir iddo, ei godi yn erbyn y ddarpariaeth.

Cronfeydd wrth gefn

Mae'r Comisiynydd yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisi yn y dyfodol er mwyn darparu ar gyfer hapddigwyddiadau. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu drwy neilltuo symiau o Falans Cronfa'r Heddlu yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan eir i wariant a ariennir o gronfa wrth gefn, fe'i codir ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno er mwyn sgorio yn erbyn y (Gwarged) neu'r Diffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna caiff y gronfa wrth gefn ei neilltuo'n ôl i Falans Cronfa'r Heddlu yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw dâl net yn erbyn treth gyngor ar gyfer y gwariant.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau ymddeol a buddiannau cyflogeion ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy ar gyfer Heddlu De Cymru/y Comisiynydd – rhoddir esboniad o'r cronfeydd wrth gefn hyn yn y polisïau perthnasol.

Mae symiau wedi'u neilltuo er mwyn talu am wariant penodol yn y dyfodol, ar ffurf cronfeydd cyfalaf a refeniw wrth gefn a glustnodwyd. At hynny, cynhelir cronfa gyffredinol wrth gefn (Cronfa'r Heddlu), a ariennir gan wargedion incwm cronedig uwchlaw gwariant, er mwyn talu am wariant eithriadol a gwariant nas rhagwelir. Mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn cadw cronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar risg, gyda'r nod o sicrhau bod gan Gronfa'r Heddlu falans o 3% o Wariant Refeniw Gros.

Treth ar werth

Dim ond i'r graddau nad yw'n adenilladwy gan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi y caiff TAW sy'n daladwy ei chynnwys fel traul. Ni chaiff TAW sy'n dderbyniadwy ei chynnwys mewn incwm.

NODYN 2: Safonau Cyfrifyddu a Gyhoeddwyd, Nas Mabwysiadwyd

O dan y Cod, mae'n ofynnol i'r Grŵp nodi gwybodaeth sy'n amlinellu effaith newid cyfrifyddu sydd ei angen o dan safon gyfrifyddu newydd sydd wedi cael ei chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu eto gan y cod.

- **IAS 21 The Effects of Changes in Foreign Exchange Rate** (Lack of Exchange ability) a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023. Mae'r newidiadau i IAS 21 yn egluro sut y dylai endid asesu a yw arian cyfred yn gyfnewidiadwy a sut y dylid pennu cyfradd gyfnewid ar y pryd pan na fydd yn gyfnewidiadwy, yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth sy'n galluogi defnyddwyr datganiadau ariannol i ddeall yr effaith pan na fydd arian cyfred yn gyfnewidiadwy, *Lease Liability in a Sale and Leaseback* (Diwygiadau i IFRS 16) a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022.
- ***IFRS 17 Insurance Contracts*** a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017. Mae IRFS 17 yn disodli IRFS 4 ac mae'n nodi'r egwyddorion ar gyfer nodi, mesur, cyflwyno a datgelu contractau yswiriant.

Mae'r newidiadau i'r ffordd y caiff asedau nad ydynt yn fuddsoddiad yng Nghod 2025/26 yn cynnwys addasiadau i *IAS 16 Property, Plant and Equipment* ac *IAS 38 Intangible Assets*, a dehongliadau ohonynt. Mae'r rhain yn cynnwys nodi tair proses ar gyfer gwerthuso eiddo, offer a chyfarpar gweithredol, gan ei gwneud yn ofynnol i asedau diriaethol nad ydynt yn fuddsoddiad gael eu mynegeio ac i asedau anniriaethol gael eu mynegeio gan ddefnyddio'r dull cost hanesyddol. Mae effaith y rhain yr un fath â'i gwneud yn ofynnol i newid y polisi cyfrifyddu o ganlyniad i ddiwygiad i safonau, a fyddai fel arfer yn cael ei ddatgelu o dan IAS 8. Fodd bynnag, mae'r addasiadau hefyd yn cynnwys rhyddhad o ofynion IAS 8 ar ôl newid y polisi cyfrifyddu.

NODYN 3: Dyfarniadau Allweddol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu, bu'n rhaid i Heddlu De Cymru/y Comisiynydd lunio barn am drafodion cymhleth neu'r rhai sy'n ymwneud ag ansicrwydd ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol.

Mae'r dyfarniadau allweddol yn y Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys y canlynol:

- Mae cryn ansicrwydd ynghylch lefelau cyllido yn y dyfodol. Mae'r Comisiynydd wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon i roi arwydd y gallai fod amhariad pellach ar yr asedau o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a gostwng lefelau gwasanaethau a ddarperir.

- Gwneir nifer o dybiaethau mewn perthynas â rhoi *IFRS 16 Leases*: y trothwy ar gyfer eithriadau gwerth isel yw £10,000 yn unol â chyfalafu *de minimis*; y gyfradd fenthyca gynyddrannol a ddefnyddir ar gyfer prydlesau yw cyfradd fenthyca blwydd-daliadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar gyfer cyfnod y brydles; pan fydd angen dyfarniad ar gyfnod y brydles, er enghraifft, ar brydlesau sydd wedi dod i ben ond sy'n parhau am gyfnod amhenodol, bydd Heddlu De Cymru yn gwneud dyfarniad ar gyfnod y brydles yn seiliedig ar y cyfnod y disgwylir yn rhesymol i'r ased sylfaenol gael ei ddefnyddio. Ceir mewnbwn gan yr adrannau perthnasol sy'n meddu ar y wybodaeth fanwl sydd ei hangen i gynnal yr asesiad hwn, a chaiff dyfarniadau eu cymhwyso fesul ased unigol, yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael pan gynhelir yr asesiad. Mae'n bosibl y caiff prydlesau eu monitro'n barhaus er mwyn nodi unrhyw newidiadau a all effeithio ar ddyfarniadau cychwynnol.

- Cyfrifir dibrisiant eiddo, offer a chyfarpar ar sail oes economaidd ddefnyddiol yr asedau sy'n amcangyfrifon. Caiff oes economaidd ddefnyddiol adeiladau ei hadolygu ar adeg prisio.

- Cofnodir nifer o ddarpariaethau ym mantolen y Grŵp a chodir newidiadau blynyddol yn lefel y darpariaethau ar Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp. Defnyddir ffactorau fel hynt hawliadau cyfreithiol yn erbyn yr Heddlu ac unrhyw ddata ategol a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i amcangyfrif rhesymol gael ei gyfrifo, i benderfynu ar lefel y ddarpariaeth. Caiff gwybodaeth ategol bellach fel penderfyniadau'r Ombwdsmon ei hystyried hefyd.
- Gallai fod angen cynnwys Rhwymedigaethau Digwyddiadol yn y nodiadau i'r cyfrifon os nad yw'r data/gwybodaeth uchod mewn perthynas â darpariaethau ar gael neu os tybir nad yw'r data/gwybodaeth yn ddigon dibynadwy i gyfrifo darpariaeth resymol. Felly, mae angen penderfynu pa un a ddylid datgan rhwymedigaeth ddigwyddiadol neu wneud darpariaeth.
- Mae croniadau ar gyfer absenoldebau a gronnwyd yn seiliedig ar wybodaeth o system rhestru dyletswyddau'r heddlu ar gyfer swyddogion a staff gweithredol sydd ar y rhestr dyletswyddau ac aelodau eraill o staff yr heddlu. Fodd bynnag, mae'r croniad yn seiliedig ar dybiaeth y bydd y cyfnod o absenoldeb yn cael ei gymryd yn y flwyddyn ariannol ganlynol ac yn adlewyrchu costau cyflog hynny.

NODYN 4: Tybiaethau a Wnaed ynghylch y Dyfodol a Ffynonellau Mawr Eraill o Ansicrwydd Amcangyfrif

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar dybiaethau ynghylch y dyfodol, neu sydd fel arall yn ansicr. Llunnir amcangyfrifon drwy ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffeithiau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau â sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol iawn i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau yn y Fantolen ar 31 Mawrth 2025 y mae cryn risg o addasiad sylweddol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

- Caiff asedau eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol sy'n dibynnu ar dybiaethau ynghylch lefel y gwaith atgyweirio a chynnal a chadw a wneir. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, gall unrhyw leihad mewn gwariant o'r fath arwain at amheuaeth ynghylch yr oes ddefnyddiol a bennir i asedau. Os caiff oes ddefnyddiol asedau ei lleihau, bydd dibrisiant yn cynyddu a bydd swm cario'r asedau yn lleihau.
- Pensiynau – ceir gwybodaeth gan yr Actiwari ar gyfer Rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn yr Heddlu a Llywodraeth Leol. Mae'r tabl canlynol yn dangos y dadansoddiad o sensitifrwydd ar y tybiaethau a ddefnyddiwyd:

Ansicrwydd ynghylch Eitemau		Effaith os bydd y Canlyniadau Gwirioneddol yn Wahanol i'r Tybiaethau	
Rhwymedigaeth Pensiwn – Yr Heddlu (Gwybodaeth gan yr Actiwari)			
Sensitifrwydd y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig i newidiadau yn y tybiaethau actiwaraidd arwyddocaol:			
Newid mewn Tybiaeth*		**Effaith ar y Rhwymedigaeth Buddiannau Diffiniedig**	
		%	**£ miliwn**
Cyfradd ddisgowntio rhwymedigaethau'r cynllun	+0.5% y flwyddyn	-7.0%	-185
Cyfradd cynnydd mewn cyflog	+0.5% y flwyddyn	1.0%	22
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau / ailbrisiad a ohiriwyd	+0.5% y flwyddyn	7.0%	183
Disgwyliad oes: tybir bod pob aelod a dibynyddion sy'n oedolion flwyddyn yn iau		2.5%	59
Rhwymedigaeth Pensiwn – Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gwybodaeth gan yr Actiwari)			
Mae'r canlyniadau a ddangosir yn yr adroddiad yn sensitif i'r tybiaethau a ddefnyddiwyd. Nodir brasamcan o'r effaith y gallai newid y tybiaethau allweddol ei chael ar werth cyfredol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig a ariennir ar 31 Mawrth 2025 isod. Ym mhob achos, dim ond y dybiaeth a nodir a gaiff ei newid; erys pob tybiaeth arall fel ag y mae. Er enghraifft, rydym wedi tybio na fydd chwyddiant yn newid y ffigur chwyddiant cyflog, dim ond y cynnydd mewn pensiynau. Nid ydym wedi cynnwys sensitifrwydd buddiannau nas ariennir ar sail perthnasedd.			
Newid mewn Tybiaeth*		**Effaith ar y Rhwymedigaeth Buddiannau Diffiniedig**	
		%	**£ miliwn**
Addasiad i'r gyfradd ddisgowntio	+0.1% y.f.	-1.7%	-6.90
Addasiad i'r gyfradd cynnydd mewn cyflog	+0.1% y.f.	0.3%	1.22
Addasiad i'r gyfradd cynnydd mewn pensiwn	+0.1% y.f.	1.5%	6.09
Addasiad i'r dybiaeth nodi oedran marwolaeth **	+blwyddyn	-2.2%	-8.93
Addasiad i'r gyfradd ddisgowntio	-0.1% y.f.	1.8%	7.31
Addasiad i'r gyfradd cynnydd mewn cyflog	-0.1% y.f.	-0.3%	-1.22
Addasiad i'r gyfradd cynnydd mewn pensiwn	-0.1% y.f.	-1.4%	-5.68
Addasiad i'r dybiaeth nodi oedran marwolaeth **	-blwyddyn	2.2%	8.93

* Bydd newidiadau i'r gwrthwyneb o ran y tybiaethau yn arwain at newidiadau cyfatebol a newidiadau i'r gwrthwyneb o ran y DBO. Bydd dyblu'r newidiadau o ran y tybiaethau yn arwain at ddyblu'r newid yn y DBO. Mae'r sensitifrwydd yn dangos y newid yn y dybiaeth ar ei phen ei hun. Yn ymarferol, prin yw'r achosion pan fydd y cyfryw dybiaethau yn newid ar eu pen eu hunain ac o ystyried y rhyngddibyniaethau rhwng y tybiaethau, gall yr effaith wirioneddol fod yn wahanol i gyfuno'r newidiadau uchod yn unig. Hyd cyfartalog wedi'i bwysoli y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yw tua 16 mlynedd ar gyfer yr holl gynlluniau gyda'i gilydd.

** Mae sgôr o +blwyddyn yn golygu y tybir bod aelodau yn dilyn y patrwm marwolaeth a nodir yn y tabl sylfaen ar gyfer unigolyn sydd flwyddyn yn hŷn na nhw.

NODYN 5: Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau Ôl-Fantolen.

NODIADAU I'R DATGANIAD DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

NODYN 6: Nodiadau i'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid

	2024-25				2023-24			
Addasiadau i Gronfa'r Heddlu er mwyn cyrraedd y symiau a nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	**Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf £000**	**Addasiadau Pensiwn £000**	**Gwahaniae thau Eraill £000**	**Cyfansw m £000**	**Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf £000**	**Addasiadau Pensiwn £000**	**Gwahaniae thau Eraill £000**	**Cyfansw m £000**
Cyflogau a Phensiynau	-	(25,581)	(2,019)	(27,600)	-	(17,747)	1,402	(16,345)
Swyddogion yr Heddlu Cyflogau	-	(126)	(496)	(622)	-	1,056	386	1,442
Staff yr Heddlu	(8)	-	57	49	(14)	-	28	14
Cyllidebau Datganoledig	(15,911)	(89)	9,271	(6,729)	(7,826)	(44)	10,468	2,598
Cyllidebau'r Heddlu /	-	-	(5,831)	(5,831)	-	-	(5,083)	(5,083)
Cyllidebau wrth gefn	(39)	(739)	379	(399)	(470)	(494)	(28,996)	(29,960)
Cyllidebau wedi'u Canoli	(727)	(2,728)	(3,438)	(6,893)	(317)	(1,260)	(3,155)	(4,732)
Cyllidebau a Ariennir yn	13,927	(450)	4,577	18,054	3,293	(409)	30,457	33,341
Allanol Cyllidebau	-	(12)	(6,448)	(6,460)	(8)	34	(7,784)	(7,758)
Cydweithredol Cyllidebau								
Canolog								
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu								
Cost Net Gwasanaethau	**(2,758)**	**(29,725)**	**(3,948)**	**(36,431)**	**(5,342)**	**(18,864)**	**(2,277)**	**(26,483)**
Incwm a Gwariant Arall	(1,447)	89,815	1,705	90,073	(1,332)	77,253	4,542	80,463
Y gwahaniaeth rhwng (Gwarged)/diffyg Cronfa'r Heddlu a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Gwarged)/diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	**(4,205)**	**60,090**	**(2,243)**	**53,642**	**(6,674)**	**58,389**	**2,265**	**53,980**

Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf

Mae'r golofn hon yn ychwanegu dibrisiant ac amhariad ac enillion a cholledion ailbrisio yn y llinell gwasanaethau, ac yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf drwy drosglwyddo incwm ar waredu asedau a'r symiau a ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny. Caiff y taliadau statudol a godir am gyllid cyfalaf h.y. Darpariaeth Isafswm Refeniw a chyfraniadau refeniw eraill eu didynnu o incwm a gwariant arall gan na ellir codi am y rhain o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Addasiadau ar gyfer Pensiynau

Y newidiadau net ar gyfer tynnu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu gwariant ac incwm Buddiannau cyflogeion IAS 19 sy'n gysylltiedig â phensiynau.

Addasiadau ar gyfer Gwahaniaethau Eraill

Mae'r rhain yn cynnwys addasiadau drwy'r gronfa absenoldebau a gronnwyd wrth gefn.

NODIADAU I'R DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

NODYN 7: Trosglwyddiadau (i)/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r symiau a neilltuwyd o Gronfa'r Heddlu mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwariant yn y dyfodol a'r symiau a drosglwyddwyd yn ôl o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i dalu am wariant o Gronfa'r Heddlu yn 2024-25.

Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn a Glustnodwyd	Balans ar 31 Mawrth 2023 £000	Trosglwyddiadau Allan £000	Trosglwyddiadau i Mewn £000	Balans ar 31 Mawrth 2024 £000	Trosglwyddiadau Allan £000	Trosglwyddiadau i Mewn £000	Balans ar 31 Mawrth 2025 £000
Cronfa Iechyd a Lles Wrth Gefn	(744)	200	(200)	(744)	184	-	**(560)**
Cronfa Bartneriaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	(1,028)	1,028	(1,150)	(1,150)	1,150	(1,650)	**(1,650)**
Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Uned Atal Trais	(1,246)	36	(78)	(1,288)	18	(71)	**(1,341)**
Cronfa Wrth Gefn Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol/Tasglu Rhanbarthol Heddlu De Cymru	(435)	435	-	-	-	-	**-**
Cronfeydd Wrth Gefn Penodol Eraill o dan £150,000	(806)	437	(574)	(943)	563	(322)	**(702)**
Trefniadau Cymell Rhanbarthol/Cronfa Wrth Gefn Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol y Tri Heddlu	(1,493)	78	(406)	(1,821)	200	(637)	**(2,258)**
Systemau Gwybodaeth – Amrywiol	(176)	132	(352)	(396)	296	(433)	**(533)**
Cyfarpar Diogelwch Swyddogion	(576)	-	(250)	(826)	45	-	**(781)**
Plismona Gweithredol	(250)	250	-	-	-	-	**-**
Goramser y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus	(250)	85	(85)	(250)	-	-	**(250)**
Cronfa Troseddau Mawr	(250)	-	-	(250)	-	-	**(250)**
Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Gwyliau Banc	(780)	780	-	-	-	(257)	**(257)**
Cynnydd ym Mhris y Contract Fforenseg	(382)	-	-	(382)	-	-	**(382)**
PEQF	(200)	200		-	-	-	**-**
Ailstrwythuro/Adfer Partneriaeth Gan Bwyll	(1,485)	-	-	(1,485)	-	-	**(1,485)**
JSIU - Ymchwiliadau Fforensig i Wrthdrawiadau	(230)	-	-	(230)	-	-	**(230)**
Tanwydd a Chronfa Wrth Gefn ar gyfer Chwyddiant heb ei Gyllidebu	(4,000)	2,000	-	(2,000)	1,504	-	**(496)**
Rhaglen Recriwtio'r Heddlu	(920)	920	-	-	-	-	**-**
Achredu a Seilwaith Fforenseg Ddigidol	(250)	13	(243)	(480)	230	(220)	**(470)**
Costau Rhwymedi Pensiwn	(32)	-	(340)	(372)	201	-	**(171)**
Cyllid Hyb Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu	-	-	(700)	(700)	700	-	**-**
Cetris Gynnau Taser	-	-	(195)	(195)	78	(108)	**(225)**
Incwm Deddf Eiddo'r Heddlu	-	-	-	-		(1,582)	**(1,582)**
Galw yn ystod yr Haf	-	-	-	-		(150)	**(150)**
Cynllun Cyflawni Heddlu De Cymru	-	-	-	-		(512)	**(512)**
Cronfa Arloesedd *	-	-	(15,000)	(15,000)	557		**(14,443)**
Cyfanswm y Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn a Glustnodwyd	**(15,533)**	**6,594**	**(19,573)**	**(28,512)**	**5,726**	**(5,942)**	**(28,728)**
Cyfanswm y Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn a Glustnodwyd	**(29,683)**	**7,403**	**(14,172)**	**(36,452)**	**5,106**	**(11,140)**	**(42,486)**
Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	**(45,216)**	**13,997**	**(33,745)**	**(64,964)**	**10,832**	**(17,082)**	**(71,214)**
Derbyniadau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso	**-**	**-**	**(104)**	**(104)**	**104**	**-**	**-**
Wrth Gefn	**(10,648)**	**-**	**(270)**	**(10,918)**	**-**	**(500)**	**(11,418)**
Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn	**(55,864)**	**13,997**	**(34,119)**	**(75,986)**	**10,936**	**(17,582)**	**(82,632)**
Symudiad yn ystod y flwyddyn – (cynnydd)/lleihad				**(20,122)**			**(6,646)**

Gwybodaeth ychwanegol a phroffil gwariant arfaethedig yn y dyfodol ar gyfer cronfeydd refeniw wrth gefn a glustnodwyd dros y ddwy flwyddyn ariannol nesaf

	Balans ar 31 Mawrth 2025 £000	Sylwadau	Proffil Gwariant 2025-26 £000	Proffil Gwariant 2026-27 £000
Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn a Glustnodwyd:				
Cronfa Iechyd a Lles Wrth Gefn	(560)	Strategaeth Iechyd a Llesiant i drawsnewid gallu sefydliadol i helpu i fynd i'r afael â'r bwlch o ran gwerth am arian.	280	280
Cronfa Bartneriaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	(1,650)	Swm ychwanegol ar gyfer y Gronfa Bartneriaeth – yn cynnal mentrau presennol sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Fraenaru i Fenywod a mentrau eraill a gymeradwywyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 24/25	1,650	-
Cronfa Gyffredinol/Penodol Wrth Gefn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	(1,341)	I ariannu ymrwymiadau ar gyfer yr Uned Atal Trais, Dyfodol a mentrau eraill	1,341	-
Cronfeydd Wrth Gefn Penodol Eraill o dan £150,000	(702)	Cyfuno cronfeydd wrth gefn unigol	702	-
Trefniadau Cymell Rhanbarthol/Cronfa Wrth Gefn Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol y Tri Heddlu	(2,258)	Derbyniadau ARIS Cronfa Wrth Gefn y Tri Heddlu ynghyd â thanwariant y Tri Heddlu	1,129	1,129
Systemau Gwybodaeth – Amrywiol	(533)	Trwyddedau Microsoft, Control Works a chyllid wrth gefn ar gyfer canlyniad apêl yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnata	533	-
Cyfarpar Diogelwch Swyddogion	(781)	Gofyniad gweithredol i wella Arfwisg, Lifrai, Cyfarpar a diogelwch swyddogion	781	-
Goramser y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus	(250)	I ariannu'r pwysau a achosir gan y galw cynyddol tra bydd adolygiad yn mynd rhagddo	250	-
Cronfa Troseddau Mawr	(250)	Cynllun wrth Gefn ar gyfer Troseddau Mawr e.e. Llofruddiaethau Categori A	250	-
Cynnydd ym Mhris y Contract Fforenseg	(382)	Negodiadau ynghylch contract Cenedlaethol	382	-
Ailstrwythuro/Adfer Partneriaeth Gan Bwyll	(1,485)	I ariannu'r adolygiad a'r canlyniad	1,485	-
JSIU - Ymchwiliadau Fforensig i Wrthdrawiadau	(230)	I gefnogi'r gwaith o gyflawni'r gofynion achredu gorfodol	230	-
Tanwydd a Chronfa Wrth Gefn ar gyfer Chwyddiant heb ei Gyllidebu	(496)	I ariannu'r diffyg o ran costau ynni yn y gyllideb fyrdymor tra bydd y farchnad yn sefydlogi	496	-
Achredu a Seilwaith Fforenseg Ddigidol	(470)	I gefnogi'r gwaith o gyflawni'r gofynion achredu gorfodol	470	-
Costau Rhwymedi Pensiwn	(171)	Rhwymedigaeth 24/25 yn dilyn dyfarniad McCloud	171	-
Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Gwyliau Banc	(257)	I dalu costau ychwanegol gwyliau banc	-	257
Cronfa Arloesedd *	(14,443)	I ariannu prosiectau gwyddoniaeth ac arloesi gan heddluoedd ledled Cymru a Lloegr	6,951	3,891
Cetris Gynnau Taser	(225)	I ariannu cost ychwanegol cetris ar gyfer gynnau taser X2 presennol nes bod y rhaglen ddisodli yn cael ei rhoi ar waith	225	-
Incwm Deddf Eiddo'r Heddlu	(1,582)	I'w wario yn unol â'r Rheoliadau i glirio treuliau penodol, talu iawndal a gwneud rhoddion elusennol.	250	250
Galw yn ystod yr Haf	(150)	I dalu costau ychwanegol o ganlyniad i'r cynnydd yn y galw yn ystod yr haf.	150	-
Cynllun Cyflawni Heddlu De Cymru	(512)	I gefnogi'r Cynllun Cyflawni newydd.	512	-
Cyfanswm y Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn a Glustnodwyd	**(28,728)**	**Proffil Gwariant**	**18,238**	**5,807**

* Mae swm o £14.4 miliwn wedi'i gynnwys mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (31 Mawrth 2024: £15 miliwn) ar gyfer y Gronfa Arloesedd. Mae'r cyllid hwn wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau Gwyddoniaeth ac Arloesi Cenedlaethol i'w ddyrannu gan fentrau gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwyddoniaeth ac Arloesi Cenedlaethol sydd â chynrychiolaeth eang o faes plismona. Y Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan oedd cadeirydd y Pwyllgor ar ddyddiad y Fantolen.

Ceir rhagor o fanylion am y mathau o gronfeydd cyfalaf wrth gefn a sut y cânt eu defnyddio yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y flwyddyn ariannol.

NODYN 8: Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi

Y Grŵp

	2024-25 £000	2023-24 £000
Llog sy'n daladwy ar ddyledion	735	768
Llog sy'n daladwy ar Brydlesau Asedau Hawl i ddefnyddio	166	-
Costau llog pensiynau	131,930	124,760
Grant ychwanegol derbyniadwy ar gyfer pensiynau (y Swyddfa Gartref)	(42,155)	(47,477)
Incwm o'r llog ar fuddsoddiadau	(4,625)	(3,350)
Cyfanswm	**86,051**	**74,701**

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

	2024-25 £000	2023-24 £000
Llog sy'n daladwy ar ddyledion	735	768
Llog sy'n daladwy ar Brydlesau Asedau Hawl i ddefnyddio	166	-
Costau llog pensiynau	(8)	(15)
Grant ychwanegol derbyniadwy ar gyfer pensiynau (y Swyddfa Gartref)	(42,155)	(47,477)
Incwm o'r llog ar fuddsoddiadau	(4,625)	(3,350)
Cyfanswm	**(45,887)**	**(50,074)**

NODYN 9: Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol

	2024-25 £000	2023-24 £000
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf gan y Llywodraeth	(2,233)	(1,557)
Incwm o'r Dreth Gyngor	(180,393)	(163,754)
Incwm o ardrethi annomestig (Llywodraeth Cymru)	(482)	(431)
Grant Cynnal Refeniw (Llywodraeth Cymru)	(62,019)	(62,144)
Grantiau'r llywodraeth nad ydynt wedi'u neilltuo (y Swyddfa Gartref)	(144,068)	(132,369)
Cyfanswm	**(389,195)**	**(360,255)**

NODYN 10: Dadansoddiad Goddrychol – Incwm a Gwariant

	2024-25 £000	2023-24 £000
Ffioedd, taliadau ac incwm arall o wasanaethau	(38,878)	(25,540)
Grantiau'r Llywodraeth	(68,747)	(75,721)
Cyfanswm yr incwm	**(107,625)**	**(101,261)**
Treuliau cyflogeion	340,996	326,488
Treuliau gweithredu eraill	115,879	94,064
Cyfanswm cost gwasanaethau	**456,875**	**420,552**
Cost Net Gwasanaethau	**349,250**	**319,291**

Ceir rhagor o fanylion am ffioedd, taliadau ac incwm gwasanaeth arall, yn ogystal â grantiau'r Llywodraeth yn y nodyn isod.

NODYN 11: Incwm Grant ac Incwm

Cafodd y grantiau a'r cyfraniadau canlynol eu credydu gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2024-25:

NODYN 11 (TABL A)

Credydwyd i Wasanaethau	Corff ariannu	2024-25 £000	2023-24 £000
Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod	Y Swyddfa Gartref	(100)	(175)
Recriwtio Mwy o Swyddogion	Y Swyddfa Gartref	(12,825)	(9,064)
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	Y Swyddfa Gartref	(1,429)	(1,050)
Tîm Gorfodi – Atafaelu Asedau	Y Swyddfa Gartref	(252)	(242)
Anrhefn Sifil 2024	Y Swyddfa Gartref	(224)	-
Gwrthderfysgaeth – Arfau Tanio	Y Swyddfa Gartref	(1,354)	(1,323)
Gwrthderfysgaeth – Y Gangen Arbennig	Y Swyddfa Gartref	-	(2,719)
Uned Cudd-wybodaeth Wrthderfysgaeth	Y Swyddfa Gartref	(11,228)	(7,277)
Cynghorwyr Diogelwch Gwrthderfysgaeth	Y Swyddfa Gartref	(691)	(677)
Llinellau Cyffuriau	Y Swyddfa Gartref	(87)	(211)
Swyddfa Cofnodion Troseddol	Y Swyddfa Gartref	(826)	(775)
Seiberdroseddu	Y Swyddfa Gartref	(1,269)	(1,147)
Swyddi Diogelwch Penodol	Y Swyddfa Gartref	(741)	(743)
Gwasanaethau Digidol	Y Swyddfa Gartref	(49)	(234)
Lleihau Marwolaethau o ganlyniad i Gyffuriau	Y Swyddfa Gartref	(650)	(650)
Y Gronfa Cymunedau Lleol	Y Swyddfa Gartref	(212)	-
Y Ganolfan Rheoli Data Genedlaethol	Y Swyddfa Gartref	(5,833)	(5,433)
Cyllid Hyb Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu	Y Swyddfa Gartref	-	(700)
Rhaglen Fraenaru y Tu Allan i'r Llys	Y Swyddfa Gartref	(285)	-
Cronfa Cymelldaliadau'r Heddlu	Y Swyddfa Gartref	(2,660)	(893)
Dyfarniad Cyflog	Y Swyddfa Gartref	(3,701)	(7,461)
Grant Cymorth Cyfraniadau Pensiwn	Y Swyddfa Gartref	(10,480)	(3,106)
Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol/Uned Cudd-wybodaeth Ranbarthol	Y Swyddfa Gartref	(5,343)	(3,005)
Gofal Cywir, Person Cywir	Y Swyddfa Gartref	-	(141)
Strydoedd Mwy Diogel	Y Swyddfa Gartref	(353)	(904)
Gwyddoniaeth ac Arloesi	Y Swyddfa Gartref	(300)	(15,000)
Trwyddedau Meddalwedd	Y Swyddfa Gartref	-	(452)
Troseddau Arbenigol yn Ymwneud â Chyllyll	Y Swyddfa Gartref	-	(535)
Cymorth i Ddioddefwyr	Y Swyddfa Gartref	(2,878)	(2,867)
Trais yn erbyn Menywod a Merched	Y Swyddfa Gartref	(199)	(95)
Atal Trais	Y Swyddfa Gartref	(1,182)	(1,217)
Grant Iawndal Rhwymedi Pensiwn yr Heddlu	Y Swyddfa Gartref	(971)	-

NODYN 11 (TABL A) – ***Parhad***

Credydwyd i Wasanaethau	Corff ariannu	2024-25 £000	2023-24 £000
Partneriaeth Camerâu Lleihau Cyflymder - Lleihau Anafiadau	Y Swyddfa Gartref/Llywodraeth Cymru	(3,671)	(3,342)
Iawndal yr Ardoll Prentisiaethau	Llywodraeth Cymru	(2,400)	(2,400)
Swyddogion Cymorth Cymunedol	Llywodraeth Cymru	(6,677)	(9,689)
Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd	Llywodraeth Cymru	(95)	(155)
Rhaglen Ysgolion Cymru Gyfan	Llywodraeth Cymru/Cyrff Llywodraeth Leol Eraill	-	(1,980)
Grantiau Amrywiol Eraill (llai na £150,000 yn unigol)	Amrywiol	(451)	(294)
Llai Grantiau a Rennir â Phartneriaid Gweithredol Eraill		10,669	10,235
Cyfanswm y Grantiau a Gredydwyd i Wasanaethau		**(68,747)**	**(75,721)**
Grantiau Corfforaethol			
Grant Ychwanegol ar gyfer Pensiynau	Y Swyddfa Gartref	(42,155)	(47,477)
		(42,155)	**(47,477)**
Cyfanswm		**(110,902)**	**(123,198)**

	2024-25 £000	2023-24 £000
Incwm Arall		
Adennill Costau gan Gyrff Cyhoeddus Eraill	(1,962)	(3,036)
Incwm o Secondiadau	(1,674)	(1,879)
Taliadau Dyletswydd Arbennig	(905)	(945)
Plismona'r Senedd	(835)	(736)
Cynllun Adfer Cerbydau	(200)	(188)
Rhenti	(328)	(328)
Cymorth a Roddir i Heddluoedd Eraill	(763)	(887)
Costau'r Heddlu a Adenillwyd	(25,966)	(15,458)
Ffioedd Cyrsiau Hyfforddi	(1,131)	(1,404)
Cyfraniadau at bartneriaethau	(5,350)	(4,849)
Gwerthu Cerbydau	(345)	(272)
Gwerthu Adroddiadau ar Ddamweiniau	(122)	(89)
Ymwybyddiaeth o Gyflymder	(18)	(10)
Incwm o Enillion Troseddau	(293)	(142)
Ad-daliad o Ardrethi Annomestig	(1,235)	(457)
Deddf Eiddo'r Heddlu	(1,582)	-
Terfynau/Adfer Contractau	(2,253)	-
Arall (llai na £150,000 yn unigol)	(977)	(816)
Incwm Tybiannol mewn perthynas â PPE COVID-19	-	(17)
Llai Incwm a Rennir â Phartneriaid Gweithredol Eraill	7,061	5,973
Cyfanswm yr Incwm Arall a Gredydwyd i Wasanaethau	**(38,878)**	**(25,540)**
Incwm o Fuddsoddiadau	(4,625)	(3,350)
Cyfanswm yr Incwm Arall	**(43,503)**	**(28,890)**
Cyfanswm yr Incwm a Gredydwyd i Wasanaethau	**(107,625)**	**(101,261)**

NODYN 12: Cydnabyddiaeth Swyddogion/Cyflogeion

Cymhareb Cydnabyddiaeth

Mae'r datgeliad hwn yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac mae'n sicrhau bod cyrff yn y sector cyhoeddus yn dryloyw ac yn atebol.

Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Y gymhareb rhwng cydnabyddiaeth y Pennaeth Staff (Prif Weithredwr) a'r gydnabyddiaeth ganolrifol yn Nhîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu oedd:

	2024-25	2023-24
Pennaeth Staff – Cyflog Blynyddol	£126,350	£118,800
Canolrif	£41,115	£37,926
CYMHAREB	3.1	3.1

Y Prif Gwnstabl

Y gymhareb rhwng cydnabyddiaeth y Prif Gwnstabl a'r gydnabyddiaeth ganolrifol o fewn yr Heddlu oedd:

	2024-25	2023-24
Y Cyfarwyddwr â'r Cyflog Uchaf (Y Prif Gwnstabl) – Cyflog Blynyddol	£207,870	£193,278
Canolrif	£38,022	£35,745
CYMHAREB	5.5	5.4

Bandiau Cydnabyddiaeth

Nodir nifer swyddogion a chyflogeion yr heddlu a gafodd gydnabyddiaeth o fwy na £60,000 yn ystod y flwyddyn ar dudalen 23. Mae hyn yn un o ofynion penodol Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Mae'r diffiniad yn cynnwys cyflogau blynyddol a lwfansau treuliau ond nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr. Mae hefyd yn cynnwys taliadau ymadael fel y bo'n briodol. Nid yw'r tabl canlynol yn cynnwys uwch-swyddogion yr heddlu sydd wedi'u cofnodi yn y tablau ar dudalennau 24 a 25. Mae hyn yn unol â'r rheoliadau. Cyhoeddwyd dyfarniadau cyflog cenedlaethol ar gyfer staff a swyddogion o 7% ym mis Medi 2023 a 4.75% ym mis Medi 2024. Cydnabu hyn yn rhannol y lefelau chwyddiant anarferol o uchel a welwyd yn y DU ac yn rhyngwladol, ac mae'r dyfarniadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y newid mewn niferoedd yn y bandiau cydnabyddiaeth.

Y Grŵp

Bandiau £	Niferoedd 2024-25	Niferoedd 2023-24
60,000-64,999	273	257
65,000-69,999	211	78
70,000-74,999	76	30
75,000-79,999	17	10
80,000-84,999	11	12
85,000-89,999	11	8
90,000-94,999	10	11
95,000-99,999	12	2
100,000-104,999	6	6
105,000-109,999	2	1
110,000-114,999	3	-
	632	416

Pecynnau Ymadael

Cytunwyd ar ddau becyn ymadael gwerth cyfanswm o £36,997.98 yn 2024-25 (£37,741.76 2023-24).

Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Uwch-swyddogion yr Heddlu ac Uwch-gyflogeion Perthnasol

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r datgeliadau ynglŷn â chydnabyddiaeth ar gyfer swyddogion (yn uwch na rheng Uwch-arolygydd) ac uwch-gyflogeion perthnasol yr heddlu (deiliaid swydd dynodedig mewn corff Llywodraeth Leol) y mae eu cyflog yn hafal i £60,000 y flwyddyn neu'n uwch. Mae'r rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i enwi pobl y mae eu cyflog yn fwy na £150,000 y flwyddyn. Yn ogystal â'r gydnabyddiaeth a nodir uchod, mae'r datgeliadau canlynol yn cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr. Os nodir dim mewn colofn, nid oes angen ei chynnwys. Darperir datgeliad cyfatebol ar gyfer y flwyddyn gymharol.

Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 2024-25

Gwybodaeth am Ddeiliad y Swydd (Teitl y Swydd)	Nodiadau	O	I	Cyflog Blynyddol £	Cyflog (gan gynnwys Ffioedd a Lwfansau) £	Taliadau Bonws £	Lwfansau Treuliau £	Taliadau Terfynu £	Buddion mewn Nwyddau (e.e. Lwfans Car) £	Taliadau Eraill £	Cyfanswm Cydnabyddiaeth heb gynnwys Cyfraniadau Pensiwn 2024-25 £	Cyfraniadau Pensiwn (Cyflogwyr) £	Cyfanswm Cydnabyddiaeth gan gynnwys Cyfraniadau Pensiwn 2024-25 £
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 1	Nodyn 1	01/04/2024	08/05/2025	88,602	9,289	-	-	-	-	-	**9,289**	-	**9,289**
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 2	Nodyn 2	09/05/2025	31/03/2025	88,602	79,313	-	-	-	-	-	**79,313**	13,007	**92,320**
Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Nodyn 3	02/04//2024	08/05/2024	89,112	8,850	-	-	-	-	-	**8,850**	1,451	**10,301**
Cyfarwyddwr Strategaeth a Phrosiectau	Nodyn 4	01/04/2024	31/03/2025	66,360	66,360	-	-	-	-	-	**66,360**	10,883	**77,243**
Prif Weithredwr		01/04/2024	31/03/2025	126,350	126,350	-	-	-	-	-	**126,350**	20,721	**147,072**
Pennaeth Diogelwch Cymunedol ac Atal Trais		01/04/2024	31/03/2025	62,392	62,392	-	-	-	-	-	**62,392**	10,835	**73,226**
Y Prif Swyddog Cyllid		01/04/2024	31/03/2025	95,125	95,125	-	-	-	-	-	**95,125**	15,600	**110,725**

Nodyn 1: Dim pensiwn yn gymwys
Nodyn 2: Dechreuodd yn y swydd ar 08/05/2024 ar ôl cael ei ethol ar 03/5/2024
Nodyn 3: Cafodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ei gyflogi gan y Comisiynydd ar 02/04/2024 ar ôl cael ei secondio'n flaenorol. Cafodd deiliad y swydd ei ethol yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar 03/05/2024. Ni phenodwyd neb i'r rôl hon yn ei le.
Nodyn 4: Cafodd Deiliad y Swydd ei secondio i sefydliad allanol drwy gydol y flwyddyn a chafodd y costau eu hadennill yn llawn.

Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 2023-24

Gwybodaeth am Ddeiliad y Swydd (Teitl y Swydd)	Nodiadau	O	I	Cyflog Blynyddol £	Cyflog (gan gynnwys Ffioedd a Lwfansau) £	Taliadau Bonws £	Lwfansau Treuliau £	Taliadau Terfynu £	Buddion mewn Nwyddau (e.e. Lwfans Car) £	Taliadau Eraill £	Cyfanswm Cydnabyddiaeth heb gynnwys Cyfraniadau Pensiwn 2023-24 £	Cyfraniadau Pensiwn (Cyflogwyr) £	Cyfanswm Cydnabyddiaeth gan gynnwys Cyfraniadau Pensiwn 2023-24 £
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Nodyn 1	01/04/2023	31/03/2024	88,602	88,602	-	-	-	-	-	**88,602**	-	**88,602**
Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Nodyn 2	01/04/2023	31/03/2024	-	-	-	-	-	-	-	**-**	-	**-**
Cyfarwyddwr Strategaeth a	Nodyn 3	01/04/2023	31/03/2024	64,227	64,227	-	-	-	-	-	**64,227**	10,405	**74,632**
Phrosiectau Y Prif Weithredwr		01/04/2023	31/03/2024	119,592	119,592	-	-	-	-	-	**119,592**	19,374	**138,966**
Pennaeth Diogelwch Cymunedol ac Atal Trais		01/04/2023	31/03/2024	58,853	58,853	-	-	-	-	-	**58,853**	9,534	**68,387**
Y Prif Swyddog Cyllid	Nodyn 4	01/04/2023	31/07/2023	112,307	35,967	-	-	2,846	-	-	**38,813**	5,827	**44,640**
Prif Swyddog Cyllid 2	Nodyn 5	01/09/2023	31/03/2024	88,095	52,829	-	-	-	-	-	**52,829**	8,558	**61,387**

Nodyn 1: Dim pensiwn yn gymwys
Nodyn 2: Cyflawnwyd rôl Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gan secondai nad yw'n cael ei gyflogi gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru. Cyfanswm y costau yr aed iddynt ar gyfer y gwasanaethau hyn yn 2023-24 oedd £117,353.
Nodyn 3: Cafodd Deiliad y Swydd ei secondio i sefydliad allanol drwy gydol y flwyddyn a chafodd y costau eu hadennill yn llawn.
Nodyn 4: Ymddeolodd ar 31/07/2023 – Cafodd daliad o £2,846.02 am Wyliau Blynyddol ar ddiwedd ei gyflogaeth. Cafodd ôl-gyflog ar gyfer y cyfnod 01/04/2023 - 31/07/2023.
Nodyn 5: Penodwyd ar 01/09/2023.

Y Prif Gwnstabl 2024-25

Gwybodaeth am Ddeiliad y Swydd (Teitl y Swydd ac Enw)		O	I	Cyflog Blynyddol £	Cyflog (gan gynnwys ffioedd a lwfansau) £	Taliadau Bonws £	Lwfansau Treuliau £	Iawndal am golli swydd £	Buddion mewn Nwyddau (e.e. lwfans car) £	Taliadau eraill £	Cyfanswm Cydnabyddiaeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn 2024-25 £	Cyfraniadau pensiwn £	Cyfanswm Cydnabyddiaeth gan gynnwys Cyfraniadau Pensiwn 2024-25 £
Y Prif Gwnstabl J. Vaughan		01/04/2024	31/03/2025	209,372	209,372	-	-	-	-	-	**209,372**	73,908	**283,281**

Gwybodaeth am Ddeiliad y Swydd (Teitl y Swydd)	Nodiadau	O	I	Cyflog Blynyddol £	Cyflog (gan gynnwys Ffioedd a Lwfansau) £	Taliadau Bonws £	Lwfansau Treuliau £	Iawndal am Golli Swydd £	Buddion mewn Nwyddau (e.e. Lwfans Car) £	Taliadau Eraill £	Cyfanswm Cydnabyddiaeth heb gynnwys Cyfraniadau Pensiwn 2024-25 £	Cyfraniadau Pensiwn £	Cyfanswm Cydnabyddiaeth gan gynnwys Cyfraniadau Pensiwn 2024-25 £
Y Dirprwy Brif Gwnstabl M. Travis		01/04/2024	31/03/2025	157,241	157,241	-	-	-	-	-	**157,241**	55,506	**212,747**
Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol	Nodyn 1	01/04/2024	31/03/2025	133,191	133,191	-	-	-	7,548	-	**140,739**	47,016	**187,755**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Plismona Tiriogaethol 1		01/04/2024	31/03/2025	132,466	132,466	-	-	-	3,541	37	**136,044**	46,760	**182,804**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Plismona Tiriogaethol 2		01/04/2024	02/06/2024	125,697	21,064	-	-	-	-	-	**21,064**	7,436	**28,500**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Troseddau Arbenigol		01/04/2024	31/03/2025	126,379	126,379	-	313	-	1,845	-	**128,537**	44,612	**173,148**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Cydweithrediad Heddlu Cymru Gyfan	Nodyn 2	01/04/2024	31/03/2025	133,476	133,476	-	-	-	998	-	**134,474**	47,117	**181,591**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Cydweithrediad Heddlu Cymru Gyfan 2	Nodyn 3	06/01/2025	31/03/2025	-	-	-	-	-	-	-	**-**	-	**-**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro – Pennaeth y Portffolio Cymorth 1		01/04/2024	31/03/2025	122,741	122,741	-	899	-	1,506	-	**125,147**	43,328	**168,474**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro – Pennaeth y Portffolio Cymorth 2		17/02/2025	31/03/2025	118,213	14,344	-	148	-	-	-	**14,491**	5,063	**19,555**
Y Prif Swyddog Ariannol		01/04/2024	31/03/2025	133,191	133,191	-	-	-	2,318	-	**135,509**	21,843	**157,352**
Y Prif Swyddog Ariannol Dros Dro	Nodyn 4	01/01/2025	31/03/2025	94,958	24,239	-	-	-	-	-	**24,239**	3,975	**28,214**
Y Prif Swyddog Pobl		01/04/2024	31/03/2025	133,191	133,191	-	-	-	3,910	-	**137,101**	21,843	**158,944**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd		01/04/2024	31/03/2025	97,218	97,218	-	-	-	-	-	**97,218**	15,944	**113,161**
Cyfarwyddwr Data Digidol a Thechnoleg		01/04/2024	31/03/2025	97,218	97,218	-	1,239	-	-	7,000	**105,457**	17,092	**122,549**

Nodyn 1: Secondiwyd i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu hyd at 31/09/2024 ac adenillwyd y costau yn llawn ar gyfer y cyfnod.
Nodyn 2: Secondiwyd i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu o 06/01/2025 ac adenillwyd y costau yn llawn ar gyfer y cyfnod.
Nodyn 3: Llenwyd y swydd gan un o swyddogion Heddlu De Cymru. Mae wedi'i chynnwys yma at ddibenion cyflawnder yn unig. Cyfrannodd Heddlu De Cymru £8,963 at gostau cyflog.
Nodyn 4: Dyrchafiad dros dro ar 01/01/2025 i helpu i gyflenwi yn ystod absenoldeb y Prif Swyddog Ariannol oherwydd salwch.

Mae Adran 248A o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 yn nodi: *"1) This section applies where a) an emergency vehicle is made available to a person employed in an emergency service for the person's private use and b) the terms on which it is made available prohibit its private use otherwise than when the person is on call or engaged in on call or engaged in on-call commuting and c) the person does not make private use of it other than in such circumstances, 2) No liability to income tax arises by virtue of Chapter 6 or 10 or Part 3 (taxable benefits: cars, vans etc. and residual liability to charge) in respect of the benefit".*

Mae'r esemptiad hwn yn gymwys i'r tabl uchod fel a ganlyn: Y Prif Gwnstabl (blwyddyn lawn), y Dirprwy Brif Gwnstabl (blwyddyn lawn), Prif Gwnstabl Cynorthwyol Troseddau Arbenigol (o 11 Tachwedd 2024) a Phrif Gwnstabl Cynorthwyol Plismona Tiriogaethol 1 (o 28 Tachwedd 2024).

Y Prif Gwnstabl 2023-24 (Ailddatganwyd)

Gwybodaeth am Ddeiliad y Swydd (Teitl y Swydd ac Enw)		O	I	Cyflog Blynyddol £	Cyflog (gan gynnwys Ffioedd a Lwfansau) £	Taliadau Bonws £	Lwfansau Treuliau £	Iawndal am Golli Swydd £	Buddion mewn Nwyddau (e.e. Lwfans Car) £	Taliadau Eraill £	Cyfanswm Cydnabyddiaeth heb gynnwys Cyfraniadau Pensiwn 2023-24 £	Cyfraniadau Pensiwn £	Cyfanswm Cydnabyddiaeth gan gynnwys Cyfraniadau Pensiwn 2023-24 £
Y Prif Gwnstabl J. Vaughan		01/04/2023	31/03/2024	193,278	193,278	-	-	-	-	-	**193,278**	59,916	**253,194**

Gwybodaeth am Ddeiliad y Swydd (Teitl y Swydd)	Nodiadau	O	I	Cyflog Blynyddol £	Cyflog (gan gynnwys ffioedd a lwfansau) £	Taliadau Bonws £	Lwfansau Treuliau £	Iawndal am Golli Swydd £	Buddion mewn Nwyddau (e.e. Lwfans Car) £	Taliadau Eraill £	Cyfanswm Cydnabyddiaeth heb gynnwys Cyfraniadau Pensiwn 2023-24 £	Cyfraniadau Pensiwn £	Cyfanswm Cydnabyddiaeth gan gynnwys Cyfraniadau Pensiwn 2023-24 £
Dirprwy Brif Gwnstabl 1	Nodyn 1	01/04/2023	26/11/2023	145,305	93,853	-	-	-	-	-	**93,853**	29,094	**122,947**
Dirprwy Brif Gwnstabl 2	Nodyn 2	24/11/2023	31/03/2024	145,305	52,697	-	-	-	3,564	-	**56,261**	16,336	**72,597**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Plismona Tiriogaethol 1	Nodyn 3	01/04/2023	31/03/2024	126,068	126,068	-	-	-	9,751	-	**135,819**	39,081	**174,900**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Plismona Tiriogaethol 2		01/04/2023	31/03/2024	118,297	118,297	-	-	-	2,895	-	**121,192**	36,672	**157,864**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Plismona Tiriogaethol 3	Nodyn 4	01/04/2023	31/03/2024	116,193	116,193	-	516	-	-	-	**116,709**	36,020	**152,729**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Troseddau Arbenigol 1		01/04/2023	31/03/2024	112,561	112,561	-	1,239	-	-	-	**113,800**	34,894	**148,694**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Troseddau Arbenigol 2	Nodyn 5	28/08/2023	23/11/2023	111,891	27,676	43	299	-	-	-	**28,018**	8,580	**36,598**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Cydweithrediad Heddlu Cymru Gyfan 1		01/04/2023	31/03/2024	113,418	113,418	-	-	-	6,694	-	**120,112**	35,159	**155,271**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol – Pennaeth y Portffolio Cymorth 1	Nodyn 2	01/04/2023	23/11/2023	126,068	80,348	-	-	-	6,598	-	**86,946**	24,908	**111,854**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro – Pennaeth y Portffolio Cymorth 2		24/11/2023	31/03/2024	111,891	40,579	-	437	-	-	-	**41,016**	12,579	**53,595**
Y Prif Swyddog Ariannol		01/04/2023	31/03/2024	126,068	126,068	-	-	-	5,289	-	**131,357**	20,423	**151,780**
Y Prif Swyddog Pobl	Nodyn 6	01/04/2023	31/03/2024	126,068	126,068	-	-	-	4,634	6,015	**136,717**	20,014	**156,731**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd		01/04/2023	31/03/2024	92,017	92,017	-	-	-	-	-	**92,017**	14,907	**106,924**
Cyfarwyddwr Data Digidol a Thechnoleg	Nodyn 7	03/04/2023	31/03/2024	92,017	91,526	-	1,232				**92,758**	14,827	**107,585**

Nodyn 1: Gadawodd Heddlu De Cymru ar 26/11/2023.
Nodyn 2: Dyrchafwyd yn Ddirprwy Brif Gwnstabl o rôl Prif Gwnstabl Cynorthwyol – Pennaeth y Portffolio Cymorth ar 24/11/2023
Nodyn 3: Secondiwyd i Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion ar 16/01/2023. Adenillwyd costau cyflogi yn llawn gan y Cyngor.
Nodyn 4: Dyrchafiad dros dro ar 27/03/2023 yn ystod cyfnod o salwch hirdymor Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Plismona Tiriogaethol 2.
Nodyn 5: Dyrchafiad dros dro yn Brif Gwnstabl Cynorthwyol Troseddau Arbenigol rhwng 28/08/2023 a 23/11/2023.
Nodyn 6: Taliad yn ôl disgresiwn amhensiynadwy ar sail perfformiad o £8,538 yn ystod y flwyddyn ar y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Awst 2023.
Nodyn 7: Ni chafodd ei gynnwys yn Nhabl Cydnabyddiaeth yr Uwch-swyddogion yn 2023-24 yn wreiddiol

Darparwyd cerbydau ar gyfer y Prif Gwnstabl a Dirprwy Brif Gwnstabl 1. Fodd bynnag, nid oes unrhyw atebolrwydd i dalu treth incwm yn codi o'r budd am fod y ddau swyddog hyn ar ddyletswydd bob amser. Mae hyn yn cyd-fynd ag Adran 248A o ITEPA, sy'n nodi: *"1) This section applies where a) an emergency vehicle is made available to a person employed in an emergency service for the person's private use and b) the terms on which it is made available prohibit its private use otherwise than when the person is on call or engaged in on call or engaged in on-call commuting and c) the person does not make private use of it other than in such circumstances, 2) No liability to income tax arises by virtue of Chapter 6 or 10 or Part 3 (taxable benefits: cars, vans etc. and residual liability to charge) in respect of the benefit".*

NODYN 13: Partïon Cysylltiedig

Mae IAS 24 yn ei gwneud yn ofynnol i Heddlu De Cymru/y Comisiynydd ddatgelu'r holl drafodiadau perthnasol â phartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â’r potensial i reoli neu ddylanwadu ar Heddlu De Cymru/y Comisiynydd neu gael eu rheoli gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd. Drwy ddatgelu’r trafodiadau hyn, gall darllenwyr asesu i ba raddau y gallai Heddlu De Cymru/y Comisiynydd fod wedi’i gyfyngu yn ei allu i weithredu’n annibynnol neu y gallai fod wedi sicrhau’r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio’n rhydd â Heddlu De Cymru/y Comisiynydd.

Llywodraeth Ganolog

Mae gan Lywodraeth Ganolog ddylanwad sylweddol ar weithrediadau cyffredinol Heddlu De Cymru/y Comisiynydd. Mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn gweithredu'n unol ag ef. Mae'n darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau ac yn rhagnodi telerau llawer o drafodion Heddlu De Cymru/y Comisiynydd â phartïon eraill. Mae Nodyn 9 Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol yn manylu ar y cyllid a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ynghyd â ffigur cymharol y flwyddyn ddiwethaf.

Nodir y grantiau a gafwyd gan adrannau'r llywodraeth yn Nodyn 11, y mae telerau ac amodau caeth ynghlwm wrth y rhan fwyaf ohonynt. Mae gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd reolaeth uniongyrchol dros ei bolisïau ariannol a gweithredol.

Aelodau

Rhoddwyd ffurflen i bob aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio i ddatgan unrhyw fuddiannau allanol a thrafodiadau â phartïon cysylltiedig. Dangosir cyfanswm lwfansau'r aelodau a dalwyd yn Nodyn 12. Nodir y trafodiadau â phartïon cysylltiedig a gafwyd isod.

			Trafodiadau â Phartïon Cysylltiedig				Trafodiadau â Phartïon Cysylltiedig			
Aelod	Cydberthynas	Parti Cysylltiedig	Gwariant £ 24-25	Incwm £ 24-25	Credydwyr £ 31/03/2025	Dyledwyr £ 31/03/2025	Gwariant £ 23-24	Incwm £ 23-24	Credydwyr £ 31/03/2024	Dyledwyr £ 31/03/2024
Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio.	Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	Cyngor Abertawe	789,023	3,094	-	5,000	873,121	2,368	-	-
Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio	Cadeirydd Pwyllgor Safonau	Cyngor Abertawe	789,023	3,094	-	5,000	873,121	2,368	-	-
Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio	Aelod o'r Pwyllgor Archwilio	Llywodraeth Cymru *	22,191	120,457	-	32,596	-	139,186	-	10,120
Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio	Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio / y Cyd-bwyllgor Craffu ac Aelod o'r Pwyllgor Safonau	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	483,106	-	-	-	578,190	-	-	-
Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio	Cadeirydd Pwyllgor Safonau	Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru	10,702	143,801	-	-	10,842	224,603	-	-
Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio	Aelod o'r Pwyllgor Addysg a Chynhwysiant ***	Cyngor Rhondda Cynon Taf	1,472,159	743,032	-	-	1,050,904	619,576	-	48,132
Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio	Aelod o'r Pwyllgor Archwilio	ACAS	1,344	-	-	-	4,130	-	-	-
Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio	Aelod Anghyfreithiol	Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF	1,014	-	-	-	408	-	-	-
Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd**	Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	-	-	-	-	750	-	-	-
Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio	Aelod o'r Bwrdd	Chwaraeon Cymru	-	-	-	-	23,200	-	-	-
Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio	Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	Cyngor Sir Penfro	-	-	-	-	4,890	-	-	-
Dau Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio	Aelod	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	200	-	-	-	-	-	-	-

* Yn ystod 2024/25, cafodd y Comisiynydd nifer o grantiau gan Lywodraeth Cymru y manylir arnynt yn Nodyn 11.
** Daeth y swydd i ben o 31/01/2024.
*** Daeth y swydd i ben o 31/07/2024.

Tîm y Prif Swyddog

			Trafodiadau â Phartïon Cysylltiedig				Trafodiadau â Phartïon Cysylltiedig			
Swydd	Cydberthynas	Parti Cysylltiedig	Gwariant £ 24-25	Incwm £ 24-25	Credydwyr £ 31/03/2025	Dyledwyr £ 31/03/2025	Gwariant £ 23-24	Incwm £ 23-24	Credydwyr £ 31/03/2024	Dyledwyr £ 31/03/2024
Uwch-aelodau amrywiol o Dîm y Prif Gwnstabl	Cyfarwyddwr	Y Ganolfan Seibergadernid yng Nghymru Cyfyngedig	17,939	6,501	-	-	-	44,469	-	-
Dau Uwch-aelod o Dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Ymddiriedolwr*	Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru	20,000	-	-	-	20,000	-	-	-
Uwch-aelod dîm y Prif Gwnstabl	Aelod o Fwrdd Arweinyddiaeth Cymru	Business In the Community	20,200	-	-	-	-	-	-	-
Uwch-aelod dîm y Prif Gwnstabl	Cyfarwyddwr**	Police Digital Service	-	23,360	-	-	-	-	-	-

* Wedi'i gynnwys at ddibenion cymharu ar gyfer 2023/24
** Penodwyd ar 20/01/2025 felly nid yw'n barti cysylltiedig ar gyfer 2023-24

Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

			Trafodiadau â Phartïon Cysylltiedig				Trafodiadau â Phartïon Cysylltiedig			
Swydd	Cydberthynas	Parti Cysylltiedig	Gwariant £ 24-25	Incwm £ 24-25	Credydwyr £ 31/03/2025	Dyledwyr £ 31/03/2025	Gwariant £ 23-24	Incwm £ 23-24	Credydwyr £ 31/03/2024	Dyledwyr £ 31/03/2024
Dau (2023-24: Un) Uwch-aelod o Dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Aelod o'r Bwrdd	Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu	58,314	7,908	-	-	55,419	5,835	-	-
Un (2023-24: Dau) Uwch-aelod o Dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Aelodau	Undeb GMB	-	-	-	-	-	4,800	-	-
Uwch-aelod o Dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Aelod	Sefydliad Bevan	552			-	528	-	-	-
Uwch-aelod o Dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Aelod	Opera Cenedlaethol Cymru	-	-	-	-	5,500	-	-	-
Uwch-aelod o Dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Aelod	Y Gymdeithas Foduro (AA)	1,815	-	540	-	1,960	-	-	-
Uwch-aelod o Dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Ymddiriedolwr**	Gweithredu dros Blant	-	-	-	-	44,654	-	-	-
Uwch-aelod o Dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Trysorydd*	Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru	20,000	-	-	-	20,000	-	-	-
Uwch-aelod o Dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Ymddiriedolwr*	Ymddiriedolaeth Ieuenctid Heddlu De Cymru	20,000	-	-	-	20,000	-	-	-
Uwch-aelod o Dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Aelod	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	200	-	-	-	-	-	-	-

* Wedi'i gynnwys at ddibenion cymharu ar gyfer 2023/24
** Ymddeolodd yn ystod 2023-24 felly nid yw'n barti cysylltiedig yn 2024-25

Mae proses gadarn ar waith i gymeradwyo a chofrestru buddiannau busnes staff a swyddogion yr heddlu. Mae gan y Comisiynydd gyfrifoldeb statudol i ddatgan unrhyw fuddiannau, a chyhoeddir y rhain ar y wefan yn y lleoliad canlynol (https://www.comisiynydddecymru.org.uk)

NODYN 14: Lwfansau Aelodau

Yn unol â'r Cod, talwyd lwfansau gwerth £8.1k (y cyfanswm ar gyfer y Grŵp) i aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn 2024-25 (£10.1k yn 2023-24). Mae lwfansau'r aelodau yn gymwys i gyfrifon Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a chyfrifon y Prif Gwnstabl. Caiff yr aelodau lwfans presenoldeb trethadwy a delir drwy'r gyflogres.

NODYN 15: Costau Archwilio Allanol

Mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd wedi gwario £129k (£127k yn 2023-24) ar ffioedd archwilio, sy'n cwmpasu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, mewn perthynas ag archwilio'r Datganiad o Gyfrifon. Mae cyfanswm y ffi wedi'i rannu'n gyfartal rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

NODIADAU I'R DATGANIAD O SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

NODYN 16: Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido o dan y Rheoliadau

Mae’r nodyn hwn yn rhoi manylion yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a’r gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir yn ystod y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol i’r adnoddau a nodir gan ddarpariaethau statudol fel rhai sydd ar gael i fodloni gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

Mae'r canlynol yn disgrifio'r cronfeydd wrth gefn y gwneir yr addasiadau yn eu herbyn:

Balans Cronfa'r Heddlu

Cronfa'r Heddlu yw'r gronfa statudol y mae'n ofynnol i bob swm a dderbynnir gael ei dalu iddi ac y mae'n ofynnol i bob rhwymedigaeth gael ei thalu ohoni, ac eithrio i'r graddau y gallai rheolau statudol ddarparu fel arall. Gall y rheolau hyn hefyd nodi ym mha flwyddyn ariannol y dylai rhwymedigaethau a thaliadau effeithio ar falans Cronfa’r Heddlu, nad yw o reidrwydd yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae balans Cronfa’r Heddlu felly’n crynhoi’r adnoddau y mae gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd bŵer statudol i’w gwario ar wasanaethau neu ar fuddsoddiad cyfalaf (neu’r diffyg adnoddau y mae’n ofynnol iddo ei adennill) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn

Mae’r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn yn cadw'r enillion a geir yn sgil gwaredu tir neu asedau eraill, sydd wedi’u cyfyngu gan statud rhag cael eu defnyddio mewn unrhyw ffordd heblaw i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i’w neilltuo i ariannu gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae balans y gronfa wrth gefn yn dangos yr adnoddau nad ydynt wedi'u cymhwyso eto at y dibenion hyn ar ddiwedd y flwyddyn.

2024-25	Balans Cronfa'r Heddlu £000	Y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn £000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy £000
Addasiadau sy’n ymwneud â’r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn bennaf:				
Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i’r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:				
Taliadau a godwyd am ddibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol	(13,050)	-	**(13,050)**	13,050
Gwariant Refeniw a Ariannwyd o Gyfalaf o dan Statud	(13,122)	-	**(13,122)**	13,122
Colledion ailbrisio ar Asedau Anghyfredol	988	-	**988**	(988)
Amorteiddio Asedau Anniriaethol	(729)	-	**(729)**	729
Ennill o Asedau Hawl i Ddefnyddio a Roddwyd	116		**116**	(116)
Symiau Asedau Anghyfredol a ddilëwyd ar adeg Gwaredu neu Werthu fel rhan o’r Ennill/(Colled) o Waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(786)	(1,503)	**(2,289)**	2,289
Cynnwys eitemau nas ddebydwyd neu nas credydwyd i’r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:				
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf	4,296	-	**4,296**	(4,296)
Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa’r Heddlu	26,609	-	**26,609**	(26,609)
Addasiadau sy’n ymwneud â’r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn yn bennaf:				
Defnydd o’r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf newydd	-	1,607	**1,607**	(1,607)
Addasiadau sy’n ymwneud â’r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn bennaf:				
Gwrthdroi eitemau sy’n ymwneud â buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i’r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(173,400)	-	**(173,400)**	173,400
Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy’n daladwy yn ystod y flwyddyn	113,310	-	**113,310**	(113,310)
Addasiadau sy’n ymwneud â’r Cyfrif Absenoldebau a Gronnwyd yn bennaf:				
Y swm y mae cydnabyddiaeth swyddogion a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i’r gydnabyddiaeth y gellir codi amdani yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	2,178	-	**2,178**	(2,178)
Addasiadau sy’n ymwneud â’r Cyfrif Cydweithredol yn bennaf:				
Addasiadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer Cydweithio	(52)	-	**(52)**	52
Cyfanswm yr Addasiadau	**(53,642)**	**104**	**(53,538)**	**53,538**

2023-24	Balans Cronfa'r Heddlu £000	Y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn £000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy £000
Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn bennaf:				
Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:				
Taliadau a godwyd am Ddibrisiant ac Amhariad Asedau Anghyfredol	(11,261)	-	**(11,261)**	11,261
Gwariant Refeniw a Ariannwyd o Gyfalaf o dan Statud Colledion ailbrisio ar	(2,490)	-	**(2,490)**	2,490
Asedau Anghyfredol	(1,165)	-	**(1,165)**	1,165
Amorteiddio Asedau Anniriaethol	(989)	-	**(989)**	989
Symiau Asedau Anghyfredol a ddilëwyd ar adeg Gwaredu neu Werthu fel rhan o'r Ennill/(Colled) o Waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(226)	(835)	**(1,061)**	1,061
Cynnwys eitemau nas ddebydwyd neu nas credydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:				
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf	1,937	-	**1,937**	(1,937)
Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Heddlu	20,696	-	**20,696**	(20,696)
Addasiadau sy'n ymwneud â'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn yn bennaf:				
Defnydd o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf newydd	-	731	**731**	(731)
Addasiadau sy'n ymwneud â'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn bennaf:				
Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(166,240)	-	**(166,240)**	166,240
Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn	107,850	-	**107,850**	(107,850)
Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Absenoldebau a Gronnwyd yn bennaf:				
Y swm y mae cydnabyddiaeth swyddogion a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i'r gydnabyddiaeth y gellir codi amdani yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(2,123)	-	**(2,123)**	2,123
Addasiadau sy'n ymwneud â'r Cyfrif Cydweithredol yn bennaf:				
Addasiadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer Cydweithio	31	-	**31**	(31)
Cyfanswm yr Addasiadau	**(53,980)**	**(104)**	**(54,084)**	**54,084**

NODIADAU I'R FANTOLEN

NODYN 17: Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Anniriaethol

Eiddo, Offer a Chyfarpar (PPE)									
Symudiadau ar falansau yn 2024-25	**Tir ac Adeiladau Eraill £000**	**Cerbydau £000**	**Systemau Gwybodaeth a Chyfarpar £000**	**Asedau Dros Ben £000**	**Asedau Hawl i Ddefnyddio £000**	**Asedau sy'n cael eu Hadeiladu £000**	**Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar £000**	**Asedau Anniriaethol £000**	**Cyfanswm PPE £000**
Cost neu Brisiad									
Ar 1 Ebrill 2024	165,052	22,429	44,595	50	-	7,565	**239,691**	4,443	**244,134**
Ailddatgan balansau agoriadol	-	-	34	-	3,473	(4,144)	**(637)**	-	**(637)**
*Ychwanegiadau – cyfalaf	5,467	5,350	4,268	25	402	10,086	**25,598**	2,648	**28,246**
Dibrisiant ac Amhariad Cronedig wedi'i ysgrifennu i'r Swm Cario Gros	(3,970)	-	-	-	(8)	-	**(3,978)**	-	**(3,978)**
(Lleihad)/Cynnydd ailbrisio i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn	5,923	-	-	-	8	-	**5,931**	-	**5,931**
(Lleihad)/cynnydd neu amhariad ailbrisio i'r Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	988	-	-	-	-	-	**988**	-	**988**
Dadgydnabod – gwarediadau	(1,456)	(2,733)	(7,181)	-	(161)	-	**(11,531)**	(1,847)	**(13,378)**
Ailddosbarthu i/o Asedau a Ddelir i'w Gwerthu	(200)	-	-	-		-	**(200)**	-	**(200)**
Gwerthu/Adlesio Asedau Hawl i Ddefnyddio	(667)	-	-	-	667	-	**-**	-	**-**
Ailddosbarthu i/o Asedau sy'n cael eu Hadeiladu	130	103	-	-		(233)	**-**	-	**-**
Silfesur Asedau Hawl i Ddefnyddio	-	-	-	-	(300)	-	**(300)**	-	**(300)**
Ar 31 Mawrth 2025	**171,267**	**25,149**	**41,716**	**75**	**4,081**	**13,274**	**255,562**	**5,244**	**260,806**
Dibrisiant ac Amhariad									
Ar 1 Ebrill 2024	(1,873)	(9,742)	(23,494)	-	-	-	**(35,109)**	(2,612)	**(37,721)**
Ailddatgan balansau agoriadol			(34)				**(34)**		**(34)**
Tâl dibrisiant	(4,173)	(2,720)	(5,549)	(37)	(571)	-	**(13,050)**	(729)	**(13,779)**
Dadgydnabod – gwarediadau	98	2,094	6,989	-	18	-	**9,199**	1,842	**11,041**
Dibrisiant ac Amhariad Cronedig wedi'i ysgrifennu i'r Swm Cario Gros	3,970	-	-	-	8	-	**3,978**	-	**3,978**
Ar 31 Mawrth 2025	**(1,978)**	**(10,368)**	**(22,088)**	**(37)**	**(545)**	**-**	**(35,016)**	**(1,499)**	**(36,515)**
Gwerth Net ar y Llyfrau									
Ar 31 Mawrth 2025	**169,289**	**14,781**	**19,628**	**38**	**3,536**	**13,274**	**220,546**	**3,745**	**224,291**
Ar 31 Mawrth 2024	163,179	12,687	21,101	50	-	7,565	**204,582**	1,831	**206,413**

* Bu gwariant cyfalaf o £13.1 miliwn ar asedau nad oeddent yn rhan o ystad Heddlu De Cymru hefyd ac, felly, a ystyriwyd yn Wariant Refeniw a Ariannwyd o Adnoddau Cyfalaf o dan Statud (REFCUS).

Eiddo, Offer a Chyfarpar (PPE)								
Symudiadau ar falansau yn 2023-24	**Tir ac Adeiladau Eraill £000**	**Cerbydau £000**	**Systemau Gwybodaeth a Chyfarpar £000**	**Asedau Dros Ben £000**	**Asedau sy'n cael eu Hadeiladu £000**	**Cyfanswm £000**	**Asedau Anniriaethol £000**	**Cyfanswm PPE £000**
Cost neu Brisiad								
Ar 1 Ebrill 2023	162,581	18,904	43,034	50	4,472	**229,041**	8,176	**237,217**
*Ychwanegiadau – cyfalaf	4,394	4,331	8,908	-	3,710	**21,343**	1,066	**22,409**
Dibrisiant ac Amhariad Cronedig wedi'i ysgrifennu i'r Swm Cario Gros	(3,903)	(1,164)	(2,368)	(36)	-	**(7,471)**	(2,409)	**(9,880)**
(Lleihad)/Cynnydd ailbrisio i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn	3,243	-	-	36	-	**3,279**	-	**3,279**
(Lleihad)/cynnydd neu amhariad ailbrisio i'r Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	(1,163)	-	-	-	-	**(1,163)**	-	**(1,163)**
Dadgydnabod – gwarediadau	-	(259)	(4,979)	-	-	**(5,238)**	(2,390)	**(7,628)**
Ailddosbarthu i/o Asedau a Ddelir i'w Gwerthu	(100)	-	-	-	-	**(100)**	-	**(100)**
Ailddosbarthu i Gategorïau Eraill	-	617	-	-	(617)	**-**	-	**-**
Ailddosbarthu i/o Asedau sy'n cael eu Hadeiladu	-	-	-	-	-	**-**	-	**-**
Ar 31 Mawrth 2024	**165,052**	**22,429**	**44,595**	**50**	**7,565**	**239,691**	**4,443**	**244,134**
Dibrisiant ac Amhariad								
Ar 1 Ebrill 2023	(1,947)	(8,577)	(25,693)	(36)	-	**(36,253)**	(6,313)	**(42,566)**
Tâl dibrisiant	(3,829)	(2,329)	(5,105)	-	-	**(11,263)**	(989)	**(12,252)**
Dadgydnabod – gwarediadau	-	-	4,936	-	-	**4,936**	2,281	**7,217**
Dibrisiant ac Amhariad Cronedig wedi'i ysgrifennu i'r Swm Cario Gros	3,903	1,164	2,368	36	-	**7,471**	2,409	**9,880**
Ar 31 Mawrth 2024	**(1,873)**	**(9,742)**	**(23,494)**	**-**	**-**	**(35,109)**	(2,612)	**(37,721)**
Gwerth Net ar y Llyfrau								
Ar 31 Mawrth 2024	**163,179**	**12,687**	**21,101**	**50**	**7,565**	**204,582**	**1,831**	**206,413**
Ar 31 Mawrth 2023	160,634	10,327	17,341	14	4,472	**192,788**	1,863	**194,651**

* Bu gwariant cyfalaf o £2.49 miliwn ar asedau nad oeddent yn rhan o ystad Heddlu De Cymru hefyd ac, felly, a ystyriwyd yn Wariant Refeniw a Ariannwyd o Adnoddau Cyfalaf o dan Statud (REFCUS).

Nifer yr Asedau Sefydlog

Nid yw'r tabl isod yn cynnwys Asedau Hawl i Ddefnyddio.

	2024-25 Niferoedd	2023-24 Niferoedd
Pencadlys yr Heddlu, Pen-y-bont ar Ogwr	1	1
Pencadlys Adrannol	4	4
Gorsafoedd a Swyddfeydd Eraill yr Heddlu	50	50
Mastiau Radio	4	4
Tŷ ar gyfer Swyddogion yr Heddlu	1	1
Cyfanswm	**60**	**60**
Cerbydau	1,085	1,061

Dibrisiant

Defnyddiwyd y cyfraddau dibrisiant ac oes ddefnyddiol canlynol i gyfrifo dibrisiant. Ceir rhagor o fanylion yn y polisïau cyfrifyddu hefyd:

- Tir ac Adeiladau Eraill – rhwng 10 a 70 mlynedd;
- Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar – rhwng 2 a 15 mlynedd.
- Asedau Hawl i Ddefnyddio (heb gynnwys tir) – dros gyfnod y brydles

Ymrwymiadau Cyfalaf

Mae ymrwymiadau gwariant yn y dyfodol o dan archebion prynu sy'n weddill ar gyfer cynlluniau cyfalaf fel a ganlyn:

Ymrwymiadau	2024-25 £000	2023-24 £000
Cynlluniau Eiddo	16,059	25,727
Cerbydau	695	3,168
Systemau Cyfrifiadurol	894	2,695
Systemau Cyfathrebu	34	72
Arall	6,355	201
Cyfanswm	**24,037**	**31,863**

Ni fyddai'r rhain yn cynnwys unrhyw gynlluniau cyfalaf arfaethedig na rhai newydd, sy'n codi fel rhai y cyllidebwyd ar eu cyfer yn y rhaglen gyfalaf.

Eiddo Buddsoddi

Nid oes gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd unrhyw eiddo lle mae'r unig ddiben yw ennill rhent neu ei ddefnyddio ar gyfer arbrisiant cyfalaf neu'r ddau.

Asedau Anniriaethol

Mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn rhoi cyfrif am ei feddalwedd fel asedau anniriaethol, i'r graddau nad yw'r feddalwedd yn rhan annatod o system TG benodol ac y rhoddir cyfrif amdani fel rhan o eitem caledwedd eiddo, offer a chyfarpar. Mae'r asedau anniriaethol yn cynnwys trwyddedau a brynwyd a meddalwedd a gynhyrchwyd yn fewnol.

NODYN 18: Gwariant Cyfalaf a Chyllid Cyfalaf

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf yr aed iddo yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle bwriedir ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy daliadau ar refeniw, wrth i asedau gael eu defnyddio gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y Gofyniad Cyllid Cyfalaf, sef mesur o'r gwariant cyfalaf yr aed iddo'n hanesyddol gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd nad yw wedi'i ariannu eto. Ceir dadansoddiad o'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf yn y tabl isod.

	2024-25 £000	2023-24 £000
Gofyniad Cyllid Cyfalaf Cychwynnol	38,422	36,887
Addasiad ar gyfer Asedau Hawl i Ddefnyddio – Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill	3,357	-
Gofyniad Cyllid Cyfalaf wedi'i Addasu	**41,779**	**36,887**
Buddsoddiad Cyfalaf		
Eiddo, Offer a Chyfarpar	15,110	17,633
Asedau sy'n cael eu Hadeiladu	10,086	3,710
Asedau Anniriaethol	2,648	1,066
Asedau Hawl i Ddefnyddio	(45)	-
Gwariant Refeniw a Ariannwyd o Adnoddau Cyfalaf o dan Statud	13,124	2,490
Ffynonellau cyllid		
Derbyniadau Cyfalaf	(1,607)	(731)
Darpariaeth Isafswm Refeniw	(4,296)	(1,937)
Grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau eraill	(14,214)	(10,419)
Cyfraniadau refeniw uniongyrchol	(16,539)	(10,277)
Gofyniad Cyllid Cyfalaf Terfynol	**46,046**	**38,422**
Symudiad yn ystod y flwyddyn – (Cynnydd)/Lleihad	(4,267)	(1,535)
Esboniad o symudiad yn ystod y flwyddyn:		
Cyllid Cyfalaf (Darpariaeth Isafswm Refeniw)	4,296	1,937
Lleihad/(Cynnydd) mewn Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill – Asedau Hawl i Ddefnyddio Lleihad/(Cynnydd) yn yr Angen Sylfaenol i Fenthyca (Heb Gymorth Ariannol gan y Llywodraeth)	45 (8,608)	- (3,472)
(Cynnydd)/Lleihad yn y Gofyniad Cyllid Cyfalaf	**(4,267)**	**(1,535)**

Mae'r cynnydd yn y Gofyniad Cyllid Cyfalaf yn hafal i swm y gwariant cyfalaf a ariannwyd o fenthyca £8.6 miliwn llai'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a'r newid mewn Asedau Hawl i Ddefnyddio.

NODYN 19: *IFRS 16 Leases*

Trosglwyddo i *IFRS 16 Leases*

Mae IFRS 16 wedi'i chymhwyso'n ôl-weithredol, ond gyda'r effaith gronnol wedi'i chydnabod ar 1 Ebrill 2024. Mae hyn yn golygu bod asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau prydlesau wedi'u cyfrifo fel pe bai IFRS 16 bob amser wedi bod yn gymwys ond wedi'u cydnabod yn 2024-25 ac nid drwy addasu ffigurau'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae rhai dulliau rhwyddhau ymarferol wedi'u cymhwyso fel sy'n ofynnol neu a ganiateir gan y Cod:

- Caiff rhwymedigaethau prydlesau eu mesur ar werth presennol taliadau'r brydles sy'n weddill ar 1 Ebrill 2024 wedi'i ddisgowntio gan ddefnyddio cyfradd fenthyca gynyddrannol yr Heddlu ar y dyddiad hwnnw
- Cyfartaledd wedi'i bwysoli y cyfraddau benthyca cynyddrannol a ddefnyddiwyd i ddisgowntio rhwymedigaethau oedd 5.14%
- Caiff asedau hawl i ddefnyddio eu mesur ar faint rhwymedigaeth y brydles, wedi'i addasu ar gyfer taliadau prydles a gronnwyd a oedd wedi'u cynnwys yn y fantolen ar 31 Mawrth 2024 – nid yw unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol wedi'u cynnwys
- Cafodd pob prydles ei hailasesu i ganfod a oedd yn feichus ar 31 Mawrth 2024, felly nid yw asedau hawl i ddefnyddio wedi bod yn destun adolygiad o amhariadau.

Mae'r dull rhwyddhau ymarferol ym mharagraff 4.2.2.93 IFRS 16 wedi'i gymhwyso at gontractau y nodwyd yn flaenorol eu bod yn brydlesau yr oedd *IAS 17 Leases* ac *IFRIC 4 Determining Whether an Arrangement Contains a Lease* yn gymwys iddynt, ac eithrio mewn perthynas â phrydlesau heb unrhyw gostau ynghlwm wrthynt.

Ar gyfer prydlesau hedyn pupur neu ystyriaeth nominal, mae ased hawl i ddefnyddio wedi'i fesur ar werth teg gydag unrhyw ennill wrth drosglwyddo wedi'i gydnabod fel ased a roddwyd yn unol ag Adran 2.3 o'r Cod ac IPSAS 23 fel addasiad i'r balansau agoriadol.

Mae hyn wedi arwain at yr ychwanegiadau canlynol at y Fantolen wrth drosglwyddo:

	£'000
Eiddo, Offer a Chyfarpar – Asedau Hawl i Ddefnyddio	
Tir ac adeiladau	3,434
Cerbydau	9
Asedau eraill	30
Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar – Asedau Hawl i Ddefnyddio	**3,473**
Rhwymedigaethau prydlesau	
Credydwyr anghyfredol	2,774
Credydwyr cyfredol	583
Cyfanswm Rhwymedigaethau Prydlesau	**3,357**
Asedau a Roddwyd – Cyfrif Addasu Cyfalaf	116
Cyfanswm Rhwymedigaethau Prydlesau a Chronfeydd Wrth Gefn	**3,473**

Mae'r rhwymedigaethau prydlesau newydd eu cydnabod o £3.357 miliwn yn cymharu ag ymrwymiadau prydlesau gweithredu o £6.231 miliwn ar 31 Mawrth 2024 a ddatgelwyd yn y nodiadau i ddatganiadau ariannol 2023-24. Pan gaiff y rhain eu disgowntio ar eu gwerth presennol o £3,505k (gan ddefnyddio'r gyfradd fenthyca gynyddrannol ar 1 Ebrill 2024), mae gwahaniaeth o leihad o £149k o'r rhwymedigaethau prydlesau newydd eu cydnabod hyn. Mae hyn yn deillio'n bennaf o'r ffaith nad yw'r rhwymedigaethau prydlesau yn cynnwys prydlesau gwerth isel a phrydlesau a ddaw i ben cyn 31 Mawrth 2025.

Symiau a Gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	**£'000**
Treuliau prydlesau	71
byrdymor Treuliau asedau	16
gwerth isel Taliadau	7

Dadansoddiad Aeddfedrwydd o	**Taliadau Prydles yn y Dyfodol**	**Taliadau Prydles yn y Dyfodol wedi'u**
Llai na blwyddyn	751	616
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	563	460
Rhwng dwy a phum mlynedd	877	679
Rhwng pum a deng mlynedd	301	66
Mwy na 10 mlynedd	2,660	873
	5,152	**2,694**
Llai Elfen Llog	(2,458)	-
Gwerth Presennol Rhwymedigaethau Prydlesau	**2,694**	**2,694**

Cyfeirir at Asedau Hawl i Ddefnyddio mewn datgeliadau eraill yn y Datganiad o Gyfrifon hwn. Cyfanswm y llif arian parod allan yn ystod y flwyddyn ar gyfer Asedau Hawl i Ddefnyddio yw £0.957 miliwn.

NODYN 20: Asedau a Ddelir i'w Gwerthu

Caiff yr asedau hyn eu mesur ar eu swm cario neu werth teg, pa un bynnag sydd isaf. Ni chânt eu cynnwys yng nghwmpas cyfrifyddu cyfalaf wrth aros i gael eu gwerthu.

	2024-25 £000	2023-24 £000
Balans sy'n weddill ar ddechrau'r flwyddyn	**195**	**745**
Asedau a ddosbarthwyd/(ail-ddosbarthwyd) o'r newydd fel rhai a ddelir i'w gwerthu:	200	100
Asedau eiddo, offer a chyfarpar a werthwyd	(100)	(650)
Balans sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn	**295**	**195**

NODYN 21: Buddsoddiadau Byrdymor, Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod

Mae balans Buddsoddiadau Byrdymor, Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod yn cynnwys yr elfennau canlynol:

	2024-25 £000	2023-24 £000
Buddsoddiadau Byrdymor	38,266	25,787
Cyfanswm y Buddsoddiadau Byrdymor	**38,266**	**25,787**

	2024-25 £000	2023-24 £000
Arian parod a ddelir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu	30	26
Cyfrifon banc cyfredol	235	(1,940)
Cyfrifon banc y gellir cael gafael arnynt	6,085	6,054
Cronfeydd Marchnadoedd Ariannol	20,746	10,702
Cyfanswm yr Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod	**27,096**	**14,842**

NODYN 22: Dyledwyr

Dyledwyr Hirdymor

Yn 2022-23, newidiwyd telerau ac amodau taliadau ychwanegol am weithio ar y penwythnos ar gyfer rhai cyflogeion ac, o ganlyniad i hynny, roedd ganddynt hawl i gael benthyciad a fyddai'n daladwy dim ond ar ôl iddynt derfynu eu cyflogaeth. Ni chodwyd unrhyw log ar y benthyciadau am nad yw'n hysbys dros ba gyfnod o amser y caiff pob benthyciad unigol ei ad-dalu:

	2024-25 £000	2023-24 £000
Balans sy'n weddill ar ddechrau'r flwyddyn	**222**	**246**
Benthyciadau a Ad-dalwyd	(24)	(24)
Balans sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn	**198**	**222**

Dyledwyr Byrdymor

Mae'r symiau sy'n ddyledus gan drydydd partïon ar ddyddiad y fantolen fel a ganlyn:

	2024-25 £000	2023-24 £000
Cyrff llywodraeth ganolog	18,724	40,380
Awdurdodau lleol eraill a'r heddlu	15,791	15,756
Cyrff y GIG	22	18
Dyledwyr amrywiol eraill	1,153	1,024
Rhagdaliadau	7,179	12,519
Cyfanswm	**42,869**	**69,697**

NODYN 23: Credydwyr

Mae'r symiau sy'n ddyledus i drydydd partïon ar ddyddiad y fantolen fel a ganlyn:

Credydwyr Hirdymor

	2024-25 £000	2023-24 £000
Credydwyr byrdymor ar ddechrau'r flwyddyn	**1,461**	**-**
Credydwyr hirdymor newydd Symudiad yn ystod y flwyddyn	- (808)	1,461 -
Balans sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn	**653**	**1,461**

Credydwyr Byrdymor

	2024-25 £000	2023-24 £000
Cyrff llywodraeth ganolog	10,346	8,436
Awdurdodau lleol eraill	6,413	6,012
Cyrff y GIG	299	132
Endidau ac unigolion eraill (gan gynnwys cronfeydd eraill)	30,279	36,764
Cyfanswm	**47,337**	**51,344**

NODYN 24: Darpariaethau

Mae darpariaethau yn cynrychioli symiau a neilltuwyd mewn perthynas â rhwymedigaethau y gwyddys amdanynt neu sy'n sicr o godi, ond y mae eu hamseru a'u gwerth yn ansicr. Mae'r darpariaethau canlynol wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar 31 Mawrth 2025 gyda symudiadau'n mynd drwy'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	Hawliadau Cyfreithiol sydd Heb eu Talu £000	Hawliadau Yswiriant parthed MMI £000	Cyfanswm £000
Balans ar 1 Ebrill 2024	**(4,901)**	**(1,173)**	**(6,074)**
Darpariaethau ychwanegol a wnaed	(2,139)	-	(2,139)
Symiau a Ddefnyddiwyd yn 2024-25	901	-	901
Symiau nas Defnyddiwyd a Wrth-drowyd yn 2024-25	847	-	847
Balans ar 31 Mawrth 2025	**(5,292)**	**(1,173)**	**(6,465)**

Hawliadau Cyfreithiol ac Yswiriant sydd heb eu Talu

Mae'r rhain yn grwpio'r darpariaethau ar gyfer hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus, costau Atebolrwydd Cyflogwyr, Hawliadau Tribiwnlys Cyflogaeth a hawliadau Atebolrwydd Amrywiol Eraill. Mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn cadw darpariaeth i dalu costau taliadau-dros-ben tebygol polisïau a risgiau hunanyswiriedig ar gyfer achosion/hawliadau presennol. Mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn darparu dyraniad o'i gyllideb refeniw a darpariaethau blynyddoedd blaenorol i helpu i dalu'r costau hyn. Cedwir rhwymedigaeth amcangyfrifedig yr hawliadau gwerth £1.17m a reolwyd gan Municipal Mutual Insurance (MMI) yn flaenorol er mwyn talu am unrhyw newidiadau posibl i'r ardoll a gymhwysir ar daliadau ac mae'n cynrychioli'r uchafswm y gellir ei dynnu i lawr.

Mae'r atodlen ganlynol yn amlinellu'r prif risgiau sydd wedi'u hyswirio'n allanol a'r rheini sy'n hunanyswiriedig:

Risgiau yswiriedig	'Risgiau 'hunanyswiriedig'
Atebolrwydd Cyflogwyr (ar y cyd ag Atebolrwydd Cyhoeddus) uwchlaw cyfanswm o £1,650,000 ac uwchlaw £100,000 ar gyfer hawliadau unigol	Atebolrwydd Cyflogwyr (ar y cyd ag Atebolrwydd Cyhoeddus) islaw cyfanswm o £1,650,000 ac islaw £100,000 ar gyfer hawliadau unigol
Atebolrwydd Cyhoeddus (ar y cyd ag Atebolrwydd Cyflogwyr) uwchlaw cyfanswm o £1,650,000 ac uwchlaw £150,000 ar gyfer hawliadau unigol	Atebolrwydd Cyhoeddus (ar y cyd ag Atebolrwydd Cyflogwyr) islaw cyfanswm o £1,650,000 ac islaw £150,000 ar gyfer hawliadau unigol
Damwain Bersonol Cyflogeion	Dim
Adeiladau – Pob Risg uwchlaw £500 ac eithrio yn achos eiddo a mastiau radio lle mae'n £10,000	Adeiladau – Pob Risg islaw £500 ac eithrio yn achos eiddo gwag a mastiau radio lle mae'n £10,000
Cerbydau – Trydydd parti yn unig	Cerbydau – Iawndal damwain oni bai y gellir ei adennill gan drydydd parti
Pob Risg – cyfarpar, cyfrifiaduron ac arian – uwchlaw £250	Pob risg islaw £250
Gwarant Cywirdeb uwchlaw £100,000	Hawliadau Cywirdeb islaw £100,000

NODYN 25: Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy

Nid yw'r cronfeydd wrth gefn annefyddiadwy ar gael i'w defnyddio i helpu i ddarparu gwasanaethau ar y dyddiad adrodd. Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn yn deillio o'r canlynol:

a) addasiadau statudol sy'n ofynnol i gysoni balansau â'r symiau sy'n daladwy ar y dreth gyngor (neu renti) ar gyfer y flwyddyn, i gydymffurfio â deddfwriaeth, neu

b) enillion neu golledion cyfrifyddu a gydnabyddir mewn incwm a gwariant cynhwysfawr arall yn unol â'r safonau cyfrifyddu a fabwysiadwyd gan y Cod, yn hytrach nag yn y gwarged neu'r diffyg ar y llinell darparu gwasanaethau.

	2024-25 £000	2023-24 £000
Y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn	(36,082)	(31,393)
Y Cyfrif Addasu Cyfalaf	(142,460)	(136,793)
Y Gronfa Pensiynau Wrth Gefn – Llywodraeth Leol	790	900
Y Gronfa Diffyg Pensiwn Wrth Gefn – yr Heddlu	2,562,260	2,819,980
Y Cyfrif Absenoldebau a Gronnwyd	11,765	13,944
Y Gronfa Cyfran Deg Cydweithio Wrth Gefn	1,125	1,073
Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy	**2,397,398**	**2,667,711**

Y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn

Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn cynnwys yr enillion a wnaed gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn deillio o gynnydd yng ngwerth Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Anniriaethol. Bydd y balans yn lleihau pan gaiff asedau ag enillion cronedig:

- eu hailbrisio'n is neu y lleiheir eu gwerth a bod yr enillion yn cael eu colli;
- eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau a bod yr enillion yn cael eu colli drwy ddibrisiant; neu
- eu gwaredu a bod yr enillion yn cael eu gwireddu.

Dim ond enillion ailbrisio a gronnwyd ers 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crëwyd y Gronfa Wrth Gefn, a geir yn y Gronfa Wrth Gefn. Mae'r enillion a gronnwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cyfuno ym malans y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill		**(31,393)**		**(29,470)**
Ailbrisio asedau (tuag i fyny) a cholledion amhariad na chânt eu codi ar y (Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	(6,203)		(3,442)	
Ailbrisio asedau (tuag i lawr) a cholledion amhariad na chânt eu codi ar y (Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	280		162	
Ailbrisio Asedau Hawl i Ddefnyddio	(8)		-	
Gwarged/Diffyg ar ailbrisio asedau anghyfredol na chânt eu cofnodi ar y Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau		**(5,931)**		**(3,280)**
Asedau a godwyd ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf yn flaenorol				
Gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant cost hanesyddol (a godwyd ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf)	1,107		928	
Enillion a Gronnwyd ar Asedau a Werthwyd neu a Ddilëwyd	135		429	
Swm a ddilëwyd ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf		**1,242**		**1,357**
Balans ar 31 Mawrth		**(36,082)**		**(31,393)**

Y Cyfrif Addasu Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau o ran amseru sy'n codi o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifyddu am ddefnyddio asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu'r gwaith o gaffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny o dan ddarpariaethau statudol. Mae'r cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisio a gronnwyd ar eiddo, offer a chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crëwyd y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn er mwyn cadw enillion o'r fath. Mae Nodyn 16 yn rhoi manylion am ffynhonnell yr holl drafodiadau yn y cyfrif, heblaw am y rheini sy'n ymwneud â'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn.

Caiff cost caffael, adeiladu neu wella ei dynnu o'r cyfrif gan fod dibrisiant, colledion o ganlyniad i amhariad ac amorteiddiadau yn cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda chofnodion cysoni o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i drosi ffigurau gwerth cyfredol yn sail cost hanesyddol). Caiff y cyfrif ei gredydu â'r symiau a neilltuwyd gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd fel cyllid ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella. Mae'r cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi ac enillion a gydnabuwyd ar asedau a roddwyd.

	2024-25		2023-24	
	£000	£000	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill		**(136,793)**		**(129,037)**
Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:				
Taliadau a godwyd am ddibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol	13,050		11,262	
Gwariant Refeniw a Ariannwyd ar gyfer Cyfalaf o dan Statud	13,124		2,490	
Colledion ailbrisio ar eiddo, offer a chyfarpar	(988)		1,163	
Amorteiddio asedau anniriaethol	729		989	
Asedau Hawl i Ddefnyddio – Hedyn pupur a rhagdaliadau	(116)		-	
Symiau asedau anghyfredol a ddilëwyd ar adeg gwaredu neu werthu fel rhan o'r ennill/colled o waredu ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	2,288		1,061	
Cyfanswm		**28,087**		**16,965**
Symiau addasu a ddilëwyd o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn	(1,242)		(1,357)	
Y swm net a ddilëwyd mewn perthynas â chost asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn		**26,845**		**15,608**
Arian cyfalaf a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn:				
Defnydd o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf newydd	(1,607)		(731)	
Cyfraniadau a grantiau cyfalaf a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a ddefnyddiwyd i ariannu cyfalaf	(1,090)		(8,118)	
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Heddlu	(4,296)		(1,937)	
Gwariant Refeniw a Ariannwyd ar gyfer Cyfraniadau Cyfalaf o dan Statud	(13,124)		(2,301)	
Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn Cronfa'r Heddlu	(12,395)		(10,277)	
		(32,512)		**(23,364)**
Balans ar 31 Mawrth		**(142,460)**		**(136,793)**

Cyfrif Absenoldebau a Gronnwyd

Mae'r Cyfrif Absenoldebau a Gronnwyd yn darparu ar gyfer y gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar Falans Cronfa'r Heddlu sy'n cronni o ddigolledu am absenoldebau a enillwyd ond nas cymerwyd yn ystod y flwyddyn (e.e. hawl i wyliau blynyddol a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth). Mae'r trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans Cronfa'r Heddlu gael ei niwtraleiddio drwy drosglwyddo symiau i'r cyfrif neu o'r cyfrif.

	2024-25 £000	2023-24 £000
Balans ar 1 Ebrill	**13,944**	**11,820**
Setlo neu ganslo croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	(13,944)	(11,820)
Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol	11,765	13,944
Balans ar 31 Mawrth	**11,765**	**13,944**

Y Gronfa Cyfran Deg Cydweithio Wrth Gefn

Mae'r Gronfa Cyfran Deg Cydweithio Wrth Gefn wedi cael ei sefydlu i gynrychioli ailddatgan costau cydweithio a gwariant gwirioneddol yr aed iddo yn unol â safonau cyfrifyddu.

	2024-25 £000	2023-24 £000
Balans ar 1 Ebrill	**1,073**	**1,104**
Symiau a addaswyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol	52	(31)
Balans ar 31 Mawrth	**1,125**	**1,073**

Y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn

Mae'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn darparu ar gyfer gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau ar gyfer cyfrifyddu am fuddiannau ôl-gyflogaeth ac am ariannu buddiannau yn unol â darpariaethau statudol. Mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn rhoi cyfrif am fuddiannau ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan fod y buddiannau yn cael eu hennill gan gyflogeion sydd wedi cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r rhwymedigaethau a gydnabyddir er mwyn adlewyrchu chwyddiant, tybiaethau sy'n newid ac enillion buddsoddi o unrhyw adnoddau a neilltuwyd i dalu am gostau. Fodd bynnag, mae'r trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i fuddiannau a enillwyd gael eu hariannu am fod Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i gronfeydd pensiwn neu, yn y pen draw, yn talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Felly, mae'r balans debyd ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn dangos diffyg sylweddol yn y buddiannau a enillwyd gan gyn-gyflogeion a chyflogeion presennol a'r adnoddau y mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd wedi'u neilltuo i'w talu. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo erbyn adeg t[illegible]

	2024-25 £000	2023-24 £000
Balans ar 1 Ebrill	**2,820,880**	**2,724,120**
(Enillion)/colledion actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau pensiwn	(317,920)	38,370
Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	173,400	166,240
Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn	(113,310)	(107,850)
Balans ar 31 Mawrth	**2,563,050**	**2,820,880**

NODYN 26: Cynlluniau Pensiwn Buddiannau Diffiniedig a Rhwymedi McCloud

Achosion Cyfreithiol

Virgin Media

Ym mis Mehefin 2023, canfu'r Uchel Lys yn achos Virgin Media fod angen tystysgrif actiwaraidd ar gyfer newidiadau i fuddiannau aelodau mewn cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig wedi'u heithrio rhwng 1996 a 2016 yn unol ag adran 37 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993 ac y dylid ystyried bod newidiadau heb y dystysgrif hon yn ddi-rym. Mae'r gofyniad hwn yn gymwys i hawliau gwasanaeth blaenorol a hawliau gwasanaeth yn y dyfodol, ac i newidiadau er anfantais neu fudd aelodau'r cynllun. Apeliwyd yn erbyn y dyfarniad ym mis Mehefin 2024 ond gwrthodwyd yr apêl. Mae'r Llywodraeth wedi nodi bod angen rhoi eglurder i gynlluniau a chyflogwyr sy'n noddi ynglŷn â rhwymedigaethau cynlluniau a lefelau buddiannau aelodau er mwyn iddynt allu cynllunio ar gyfer y dyfodol. Felly, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth i alluogi'r cynlluniau pensiynau yr effeithir arnynt i gael cadarnhad actiwaraidd yn ôl-weithredol fod newidiadau hanesyddol i fuddiannau yn cyrraedd y safonau angenrheidiol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn debygol o ddigwydd nes Datganiad o Gyfrifon 2025/26.

McCloud/Sargeant

Mae Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, ynghyd â Phrif Gwnstabliaid eraill a'r Swyddfa Gartref, yn wynebu nifer o hawliadau ar hyn o bryd mewn perthynas â gwahaniaethu anghyfreithlon sy'n deillio o'r darpariaethau trosiannol yn Rheoliadau Pensiwn yr Heddlu 2015. Roedd yr hawliadau yn erbyn cynllun pensiwn yr Heddlu (achos Aaron) wedi'u hatal yn flaenorol y tu ôl i ddyfarniad McCloud/Sargeant, ond cynhaliwyd ymarfer rheoli achosion ym mis Hydref 2019, ac roedd y Gorchymyn a ddeilliodd ohono yn cynnwys datganiad dros dro bod gan yr hawlwyr yr hawl i gael eu trin fel petaent wedi cael diogelwch trosiannol llawn ac wedi aros yn eu cynllun presennol ar ôl 1 Ebrill 2015. Er bod y datganiad dros dro ond yn gymwys i hawlwyr, nododd y Llywodraeth yn glir, drwy Ddatganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ar 25 Mawrth 2020, y byddai unigolion nad ydynt yn hawlwyr yn cael eu trin yn yr un ffordd.

Ar 16 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Trysorlys EM ymgynghoriad ar drefniadau trosiannol ar gyfer pensiynau'r sector cyhoeddus i ddileu gwahaniaethu fel y'i nodwyd drwy achosion McCloud/Sargeant. Cyflwynodd yr ymgynghoriad hwn ofyniad i aelodau fod wedi bod yn aelodau o'r cynllun ar neu cyn 31 Mawrth 2012 ac ar neu ar ôl 1 Ebrill er mwyn bod yn gymwys i gael rhwymedi. Ar 4 Chwefror 2021, cyhoeddodd Trysorlys EM ei ymateb i'r ymgynghoriad yn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer rhwymedi a nodwyd yn yr ymgynghoriad ac yn datgan y byddai'r aelodau yn cael dewis rhwng cadw buddiannau o'u cynllun pensiwn etifeddol neu o'u cynllun newydd, yn ystod cyfnod y rhwymedi (2015-2022). Caiff y dewis hwn ei ohirio ar gyfer yr aelodau tan iddynt ymddeol. Gan na nododd canfyddiadau'r Tribiwnlys Cyflogaeth gwreiddiol fod cyflwyno'r cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus newydd yn wahaniaethol (yn hytrach y darpariaethau trosiannol a oedd yn wahaniaethol), caiff y cynlluniau etifeddol eu dileu o fis Ebrill 2022 ymlaen a'u disodli gan y cynlluniau pensiwn newydd a gyflwynwyd yn wreiddiol yn 2015.

Roedd cyfnod rhwymedi McCloud rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Bydd wyth aelod cymwys yn gallu dewis o ba gynllun y maent am gael buddiannau ar gyfer y cyfnod hwn. Oherwydd y strwythurau buddiannau gwahanol, mae'r Actiwari yn disgwyl i'r mwyafrif o aelodau cymwys yr heddlu ddewis cymryd buddiannau cynlluniau etifeddol (Cynllun 1987 neu Gynllun 2006) ar gyfer cyfnod y rhwymedi. Cynhwyswyd darpariaeth ar gyfer rhwymedi McCloud yn natgeliadau pensiwn 2018-19 fel cost gwasanaeth blaenorol ar gyfer pedair blynedd o wasanaeth rhwymedi rhwng 2015 a 2019. Priodolwyd y gost gwasanaeth blaenorol hon yn gymesur i gynllun 1987 a chynllun 2006. Ar gyfer blynyddoedd ar ôl 2021-22, darparwyd ar gyfer y gwasanaeth rhwymedi ychwanegol a gronnwyd bob blwyddyn yng nghostau gwasanaeth 2015. Gan fod cyfnod y rhwymedi bellach wedi dod i ben, mae'r Actiwari wedi symud yr holl rwymedigaethau sy'n gysylltiedig â McCloud ar gyfer aelodau cymwys o'r cyfnod rhwng 2019 a 2022 i'r cynlluniau etifeddol cysylltiedig. Mae hyn yn golygu bod yr holl rwymedigaethau sy'n gysylltiedig â McCloud yn cael eu dal yn y cynllun etifeddol y disgwylir i fuddiannau gael eu talu ohono. Mae hyn wedi arwain at ychwanegu cost gwasanaeth blaenorol sy'n cyfateb i £48m at Gynllun 1987 a chost gwasanaeth blaenorol sy'n cyfateb i £3m at Gynllun 2006. Gan nad yw'r rhwymedigaethau hyn yn cael eu dal yng Nghynllun 2015 mwyach, mae enillion gwasanaeth blaenorol o £52m.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS – ar gyfer Staff yr Heddlu)

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn gwneud cyfraniadau at gost buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy mewn gwirionedd tan i gyflogeion ymddeol, mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd wedi ymrwymo i wneud y taliadau y mae angen eu datgelu ar yr adeg y bydd cyflogeion yn ennill eu hawliad yn y dyfodol.

Mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl-gyflogaeth, sef:

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir yn lleol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cynllun cyflog terfynol buddiannau diffiniedig a ariennir ydyw, sy'n golygu bod Heddlu De Cymru/y Comisiynydd a chyflogeion yn talu cyfraniadau i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi fantoli'r rhwymedigaethau pensiwn â'r asedau buddsoddi. Mae'r dull a ddefnyddir i bennu cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar adolygiad gan actiwarïaid y cynllun. Nid oes unrhyw gytundeb â chyrff cyhoeddus eraill i rannu diffygion cyflogwyr eraill.
- Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau yn ôl disgresiwn ar ôl ymddeol yn gynnar. Trefniant buddiannau diffiniedig nas ariennir ydyw. O dan y trefniant hwn, cydnabyddir rhwymedigaethau pan gaiff buddiannau eu dyfarnu. Fodd bynnag, nid oes unrhyw asedau buddsoddi ar gael i fodloni'r rhwymedigaethau pensiwn hyn, ac mae'n rhaid i arian parod gael ei gynhyrchu er mwyn talu'r taliadau pensiwn gwirioneddol wrth iddynt ddod yn ddyledus yn y pen draw.

Prisiad Actiwaraidd 2022

Dangosir effaith darparu ar gyfer hyn yn '(Enillion)/colledion actiwaraidd oherwydd profiad o ran rhwymedigaeth' ac 'Elw ar asedau'r cynllun (uwchlaw)/islaw'r hyn a gydnabuwyd mewn llog net' ac fe'i hadlewyrchu yn sefyllfa'r fantolen. Mae'r tybiaethau demograffig hefyd wedi'u diweddaru er mwyn adlewyrchu'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer Prisiad Actiwaraidd 2022. Mae'r newidiadau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar sefyllfa'r fantolen.

Trafodiadau sy'n ymwneud â Buddiannau Ôl-gyflogaeth

Rydym yn cydnabod cost buddiannau ymddeol yng nghost gwasanaethau a gofnodwyd pan gânt eu hennill gan gyflogeion, yn hytrach na phan gaiff y buddiannau eu talu fel pensiynau yn y pen draw. Mae'r canlyniadau yn darparu ar gyfer Prisiad Actiwaraidd 2022 o'r Gronfa.

Fodd bynnag, mae'r taliad y mae'n ofynnol i ni ei godi yn erbyn y dreth gyngor yn seiliedig ar yr arian parod sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddiannau ôl-gyflogaeth/ymddeol ei gwrthdroi o Gronfa'r Heddlu drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae'r trafodiadau canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans Cronfa'r Heddlu drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Buddiannau yn ôl Disgresiwn nas Ariennir	Cynllun Pensiwn 2024-25 £000	Trefniadau Buddiannau yn ôl Disgresiwn 2024-25 £000	Cyfanswm 2024-25 £000	Cynllun Pensiwn 2023-24 £000	Trefniadau Buddiannau yn ôl Disgresiwn 2023-24 £000	Cyfanswm 2023-24 £000
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr						
Cost Gwasanaethau:						
- Cost gwasanaeth cyfredol	16,120	-	**16,120**	16,740	-	**16,740**
- Cost gwasanaeth blaenorol (gan gynnwys cwtogiadau)	40	-	**40**	-	-	**-**
Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi:						
- Llog ar rwymedigaeth/(ased) buddiannau diffiniedig net	(3,150)	40	**(3,110)**	(680)	40	**(640)**
- Llog ar ased heb ei gydnabod	2,770	-	**2,770**	-	-	**-**
Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	**15,780**	**40**	**15,820**	**16,060**	**40**	**16,100**
Buddiannau Ôl-gyflogaeth Eraill a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall						
- Elw ar asedau'r cynllun (uwchlaw)/islaw'r hyn a gydnabuwyd mewn llog net	20,780	-	**20,780**	(31,500)	-	**(31,500)**
- **(Enillion)/colledion actiwaraidd:**						
Oherwydd newidiadau mewn tybiaethau ariannol	(97,320)	(50)	**(97,370)**	(19,700)	-	**(19,700)**
Oherwydd newidiadau mewn tybiaethau demograffig	(3,640)	(10)	**(3,650)**	(7,090)	(20)	**(7,110)**
Oherwydd profiad o ran rhwymedigaeth	710	-	**710**	6,960	(40)	**6,920**
Oherwydd cyfyngiad ar wargedion	79,920	-	**79,920**	57,680	-	**57,680**
Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	**450**	**(60)**	**390**	**6,350**	**(60)**	**6,290**
Cyfanswm y Swm a Gydnabuwyd	**16,230**	**(20)**	**16,210**	**22,410**	**(20)**	**22,390**
Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn:						
- Gwrthdroi taliadau net a wnaed i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer buddiannau ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod	(15,780)	(40)	**(15,820)**	(16,060)	(40)	**(16,100)**
Y swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans Cronfa'r Heddlu mewn perthynas â phensiynau yn ystod y flwyddyn:						
- Cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun			**16,320**			**15,100**
- Buddiannau ymddeol sy'n daladwy i bensiynwyr			**-**			**-**

Newidiadau i Werth Presennol y Rhwymedigaeth Buddiannau Diffiniedig

Asedau a Rhwymedigaethau mewn perthynas â Buddiannau Ôl-gyflogaeth Cysoni gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig):	Cynllun Pensiwn a Ariennir 2024-25 £000	Buddiannau yn ôl Disgresiwn Nas Ariennir 2024-25 £000	Cyfanswm 2024-25 £000	Cynllun Pensiwn a Ariennir 2023-24 £000	Buddiannau yn ôl Disgresiwn Nas Ariennir 2023-24 £000	Cyfanswm 2023-24 £000
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	**(477,330)**	**(900)**	**(478,230)**	**(466,550)**	**(1,010)**	**(467,560)**
Cost gwasanaeth cyfredol	(16,120)	-	**(16,120)**	(16,740)	-	**(16,740)**
Cost llog	(22,690)	(40)	**(22,730)**	(21,300)	(40)	**(21,340)**
Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun	(6,400)	-	**(6,400)**	(5,980)	-	**(5,980)**
Buddiannau a dalwyd	16,440	90	**16,530**	13,410	90	**13,500**
Cost gwasanaeth blaenorol (gan gynnwys cwtogiadau)	(40)	-	**(40)**	-	-	**-**
- Enillion)/colledion actiwaraidd:						
Oherwydd newidiadau mewn tybiaethau ariannol	97,320	50	**97,370**	19,700	-	**19,700**
Oherwydd newidiadau mewn tybiaethau demograffig	3,640	10	**3,650**	7,090	20	**7,110**
Oherwydd profiad o ran rhwymedigaeth	(710)	-	**(710)**	(6,960)	40	**(6,920)**
Balans terfynol ar 31 Mawrth	**(405,890)**	**(790)**	**(406,680)**	**(477,330)**	**(900)**	**(478,230)**

Newidiadau i Werth Teg Asedau

Cysoni gwerth teg asedau'r cynllun: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	2024-25 £000	2023-24 £000
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	**535,010**	**473,950**
Incwm o'r llog ar asedau	25,840	21,980
Enillion/(colledion) ail-fesur ar asedau	(20,780)	31,500
Cyfraniadau'r cyflogwr	16,230	15,100
Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun	6,400	5,980
Buddiannau a dalwyd	(16,440)	(13,500)
Balans terfynol ar 31 Mawrth	**546,260**	**535,010**

Hanes Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Hanes y Cynllun	2024-25 £000	2023-24 £000	2022-23 £000	2021-22 £000	2020-21 £000
Gwerth presennol rhwymedigaethau:					
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Buddiannau	(405,890)	(477,330)	(466,550)	(666,990)	(696,570)
yn ôl Disgresiwn	(790)	(900)	(1,010)	(1,170)	(1,290)
Gwerth teg asedau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	**546,260**	**535,010**	**473,950**	**501,690**	**476,370**
Cyfanswm	**139,580**	**56,780**	**6,390**	**(166,470)**	**(221,490)**
Gwarged/(diffyg) yn y cynllun:					
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – Statws a Ariennir Ased heb ei	140,370	57,680	7,400	(165,300)	(220,200)
gydnabod	(140,370)	(57,680)	-	-	-
Cyfanswm Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	**-**	**-**	**7,400**	**(165,300)**	**(220,200)**
Buddiannau yn ôl Disgresiwn	(790)	(900)	(1,010)	(1,170)	(1,290)
Ased/(rhwymedigaeth) a gydnabuwyd ar y Fantolen	**(790)**	**(900)**	**6,390**	**(166,470)**	**(221,490)**

Ased Pensiynau Net yn 2024-25

Yn 2024-25, roedd Mantolen IAS19 yn dangos ased pensiynau net ar y dyddiad cyfrifyddu. Mae'r actiwari wedi cydnabod hyn yn unol ag IFRIC 14 gan gyfrifo'r budd economaidd mwyaf y gellid ei gydnabod yn y cyfrifon (y cyfeirir ato fel brig yr ased).

Y Sail dros Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Aseswyd asedau ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol, sef amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol yn dibynnu ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, lefelau cyflog ac ati, Aseswyd rhwymedigaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r rhwymedigaethau Buddiannau yn ôl Disgresiwn gan Aon Hewitt Limited, sef cwmni annibynnol o actiwarïaid, ac mae'r amcangyfrifon ar gyfer Cronfa Cynghorau Sir yn seiliedig ar brisiad 2022 o'r cynllun.

Nodir y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari yn y tabl canlynol:

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	Cynllun Pensiwn 2024-25	Buddiannau yn ôl Disgresiwn 2024-25	Cynllun Pensiwn 2023-24	Buddiannau yn ôl Disgresiwn 2023-24
Tybiaethau ynglŷn â Marwolaethau				
Aelod sy'n Bensiynwr sy'n 65 oed ar y Dyddiad Cyfrifyddu:				
■ Dynion	20.9	20.9	21.0	21.0
■ Menywod	23.7	23.7	23.8	23.8
Aelod Gweithredol sy'n 45 oed ar y Dyddiad Cyfrifyddu:				
■ Dynion	21.8	-	22.3	-
■ Menywod	24.8	-	25.2	-
Prif Dybiaethau Ariannol				
Cyfradd cynnydd mewn cyflog	3.75%	-	3.85%	-
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau	2.50%	2.50%	2.60%	2.60%
Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau’r cynllun	5.80%	5.80%	4.80%	4.80%

Dyrannu Asedau

Dangosir y rhaniad bras o asedau ar gyfer y Gronfa gyfan (yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd drwy'r Actiwari a chan yr Awdurdod sy'n Gweinyddu'r Gronfa) yn y tabl isod:

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	31 Mawrth 2025 %	31 Mawrth 2024 %
Buddsoddiadau	65.1%	64.0%
Ecwiti Eiddo	6.1%	6.5%
Bondiau'r	10.9%	12.2%
Llywodraeth	14.7%	15.6%
Bondiau	3.2%	1.7%
	100.0%	**100.0%**

Cyfraniadau ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2026

Amcangyfrifir y bydd y cyflogwr yn talu £17.1 miliwn i'r Gronfa mewn cyfraniadau rheolaidd ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2026. Efallai y bydd cyfraniadau ychwanegol yn ddyledus mewn perthynas ag unrhyw fuddiannau yn ôl disgresiwn y bydd y cyflogwr yn eu rhoi yn ychwanegol at fuddiannau aelodau yn y Gronfa dros y cyfnod cyfrifyddu nesaf neu efallai y bydd newidiadau o ganlyniad i wahaniaethau rhwng ffigurau gwirioneddol ac amcangyfrifedig yn y cynllun.

Cynllun Pensiwn yr Heddlu (ar gyfer Swyddogion yr Heddlu

Mae hyn yn cynnwys cynlluniau pensiwn yr heddlu 1987, 2006 a 2015 ynghyd â'r cynllun buddiannau oherwydd anaf.

Cymryd Rhan mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn gwneud cyfraniadau at gost buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy mewn gwirionedd tan i gyflogeion ymddeol, mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd wedi ymrwymo i wneud y taliadau y mae angen eu datgelu ar yr adeg y bydd cyflogeion yn ennill eu hawliad yn y dyfodol.

Mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl-gyflogaeth, sef:

- Mae Cynllun Pensiwn yr Heddlu, a weinyddir gan XPS Administration, yn gynllun buddiannau diffiniedig nas ariennir, sy'n golygu nad oes unrhyw asedau buddsoddi yn cael eu cronni i fodloni rhwymedigaethau pensiwn. Yn lle hynny, o 1 Ebrill 2006 ymlaen, caiff taliadau pensiwn gwirioneddol eu talu o gyfuniad o gyfraniadau cyflogwyr a chyflogeion, yn seiliedig ar ganrannau o gyflogau'r heddlu, a'r balans drwy Grant y Llywodraeth.
- Buddiannau yn ôl disgresiwn ar ôl ymddeol yn gynnar. Trefniant buddiannau diffiniedig nas ariennir ydyw. O dan y trefniant hwn, cydnabyddir rhwymedigaethau pan gaiff buddiannau eu dyfarnu. Fodd bynnag, nid oes unrhyw asedau buddsoddi ar gael i fodloni'r rhwymedigaethau pensiwn hyn, ac mae'n rhaid i arian parod gael ei gynhyrchu er mwyn talu'r taliadau pensiwn gwirioneddol wrth iddynt ddod yn ddyledus yn y pen draw.

Trafodiadau sy'n ymwneud â Buddiannau Ôl-gyflogaeth

Rydym yn cydnabod cost buddiannau ymddeol yng nghost gwasanaethau a gofnodwyd pan gânt eu hennill gan gyflogeion, yn hytrach na phan gaiff y buddiannau eu talu fel pensiynau yn y pen draw. Defnyddiwyd model meddalwedd, a ddatblygwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth, i gyfrifo'r rhwymedigaeth hirdymor bosibl a'r amcangyfrifon o gostau cynlluniau'r Heddlu yn seiliedig ar adolygiad gan Actiwari, gan ddefnyddio data ar bensiynau a'r gyflogres.

Fodd bynnag, mae'r taliad y mae'n ofynnol i ni ei godi yn erbyn y dreth gyngor yn seiliedig ar yr arian parod sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddiannau ôl-gyflogaeth/ymddeol ei gwrthdroi o Gronfa'r Heddlu drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodiadau canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans Cronfa'r Heddlu drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

Cynllun Pensiwn yr Heddlu a Budd-daliadau Anafiadau Nas Ariennir	Cynllun Pensiwn a Buddiannau yn ôl Disgresiwn - **2024-25** **£000**	Cynllun Pensiwn a Buddiannau yn ôl Disgresiwn - **2023-24** **£000**
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
Cost Gwasanaethau:		
- Cost gwasanaeth cyfredol	25,310	24,770
- Costau gwasanaeth a roddwyd	-	(30)
Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi:		
- Llog ar rwymedigaeth/(ased) buddiannau diffiniedig net	132,270	125,400
Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	**157,580**	**150,140**
Buddiannau Ôl-gyflogaeth Eraill a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		
(Enillion)/colledion actiwaraidd:		
- Oherwydd newidiadau mewn tybiaethau ariannol	(316,730)	(57,540)
- Oherwydd newidiadau mewn tybiaethau demograffig	(4,270)	-
- Oherwydd rhwymedigaethau buddiannau diffiniedig	2,690	89,620
Cyfanswm y Buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	**(318,310)**	**32,080**
Cyfanswm y Swm a Gydnabuwyd	**(160,730)**	**182,220**
Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn		
- Gwrthdroi taliadau net a wnaed i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer buddiannau ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod	(157,580)	(150,140)
Y swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans Cronfa'r Heddlu mewn perthynas â phensiynau yn ystod y flwyddyn:		
- Cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun	52,646	43,076

Asedau a Rhwymedigaethau mewn perthynas â Buddiannau Ôl-gyflogaeth

Cysoni gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig):	Cynllun Pensiwn a Buddiannau yn ôl Disgresiwn - **2024-25** **£000**	Cynllun Pensiwn a Buddiannau yn ôl Disgresiwn - **2023-24** **£000**
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	**(2,819,980)**	**(2,730,510)**
Cost gwasanaeth cyfredol	(25,310)	(24,770)
Taliad gwasanaeth blaenorol	-	30
Cost llog	(132,270)	(125,400)
Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun	(20,240)	(18,930)
Oherwydd newidiadau sy'n codi mewn perthynas â'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig	(2,690)	(89,620)
Oherwydd newidiadau mewn tybiaethau demograffig	4,270	-
Oherwydd newidiadau mewn tybiaethau ariannol	316,730	57,540
Buddiannau a dalwyd	117,230	111,680
Balans terfynol ar 31 Mawrth	**(2,562,260)**	**(2,819,980)**

Mae'r rhwymedigaethau'n dangos ymrwymiadau sylfaenol Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn yr hirdymor i dalu buddiannau ôl-gyflogaeth (ymddeol). Mae cyfanswm y rhwymedigaeth, sef £2.562bn (£2.820bn yn 2023-24), yn cael effaith sylweddol ar werth net Heddlu De Cymru/y Comisiynydd fel y'i cofnodwyd yn y Fantolen, gan arwain at falans cyffredinol negyddol. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn parhau'n iach:

- caiff y diffyg yng nghynllun pensiwn yr heddlu ei unioni drwy grant gan y llywodraeth neu gyfraniadau cynyddol dros fywyd gwaith sy'n weddill y cyflogeion (h.y. cyn i'r taliadau ddod yn ddyledus), fel yr aseswyd gan y llywodraeth ac actiwari'r cynllun;
- dim ond er mwyn talu am y buddiannau yn ôl disgresiwn pan delir y pensiynau mewn gwirionedd y bydd angen codi cyllid.

Y Sail dros Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Aseswyd rhwymedigaethau ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned amcanestynedig, sef amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol yn dibynnu ar dybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, lefelau cyflog ac ati. Aseswyd rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn yr Heddlu a'r rhwymedigaethau Buddiannau yn ôl Disgresiwn gan Adran Actiwari'r Llywodraeth, sef un o asiantaethau Llywodraeth y DU, gan ddefnyddio data ar y gyflogres a phensiynau a ddarparwyd gan neu ar ran Heddlu De Cymru/y Comisiynydd.

Mae ymarfer ailbrisio llawn yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ac mae'r datgeliad yn seiliedig ar ddata a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymarfer hwnnw. Mae gwerth rhwymedigaethau wedi'i gyfrifo ar 31 Mawrth 2025 drwy gario'r rhwymedigaeth a gyfrifwyd ar 31 Mawrth 2020 ymlaen i 31 Mawrth 2025. Mae'r dull hwn yn rhesymol ond mae'n creu rhywfaint o ansicrwydd. Felly, dylid cydnabod y gallai'r canlyniadau fod yn wahanol i'r rhai a fyddai'n deillio o brisiad actiwaraidd sy'n seiliedig ar ddata'r holl aelodau ar 31 Mawrth 2025.

Nodir y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari yn y tabl canlynol:

Cynllun Pensiwn yr Heddlu a Budd-daliadau Anafiadau Nas Ariennir	Cynllun Pensiwn a Buddiannau yn ôl Disgresiwn - 2024-25	Cynllun Pensiwn a Buddiannau yn ôl Disgresiwn - 2023-24
Tybiaethau ynglŷn â Marwolaethau		
Aelod sy'n Bensiynwr sy'n 65 oed ar y Dyddiad Cyfrifyddu:		
■ Dynion	21.9	21.9
■ Menywod	23.9	23.6
Aelod Gweithredol sy'n 45 oed ar y Dyddiad Cyfrifyddu:		
■ Dynion	23.3	23.6
■ Menywod	25.2	25.1
Prif Dybiaethau Ariannol		
Cyfradd CPI chwyddiant	2.70%	2.60%
Cyfradd cynnydd mewn cyflog	3.45%	3.85%
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau	2.70%	2.60%
Cyfradd ailbrisio Enillion Gyrfa Cyfartalog	3.95%	3.85%

Cyfraniadau ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2026

Amcangyfrifir y bydd y Cyflogwr yn talu £62.7 miliwn i'r Gronfa mewn cyfraniadau rheolaidd ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2026.

Bydd nifer yr aelodau yn y gwahanol gynlluniau pensiwn yn wahanol i'r rhai a amcangyfrifwyd. Bydd cyfraniadau'r cyflogwr yn newid o ganlyniad i'r gwahaniaeth rhwng niferoedd amcangyfrifedig a gwirioneddol. Bydd dyfarniadau anafiadau hefyd yn amrywio o ganlyniad i faterion yn ymwneud â marwolaeth a gall aelodau ychwanegol gael eu derbyn i'r cynllun Dyfarniadau Anafiadau. Mae'n anodd rhagweld y ffactorau hyn.

NODYN 27: Offerynnau ariannol

Categorïau o Offerynnau Ariannol

Caiff y categorïau canlynol o offerynnau ariannol eu cario ar y Fantolen:

	Hirdymor		Cyfredol	
	31 Mawrth 2025 £000	31 Mawrth 2024 £000	31 Mawrth 2025 £000	31 Mawrth 2024 £000
Buddsoddiadau				
Adneuon, benthyciadau a symiau derbyniadwy	-	-	65,362	40,629
Dyledwyr				
Asedau ariannol a gariwyd ar symiau contractau	198	222	42,869	69,697
Benthyciadau				
Rhwymedigaethau ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio	(32,035)	(30,742)	(1,594)	(1,085)
Credydwyr				
Rhwymedigaethau ariannol a gariwyd ar symiau contractau	(653)	(1,461)	(47,337)	(51,344)

Incwm, Treuliau, Enillion a Cholledion

	2024-25		2023-24	
	Rhwymedigaethau Ariannol a fesurwyd ar gost wedi'i hamorteiddio £000	Asedau Ariannol: Benthyciadau a symiau derbyniadwy £000	Rhwymedigaethau Ariannol a fesurwyd ar gost wedi'i hamorteiddio £000	Asedau Ariannol: Benthyciadau a symiau derbyniadwy £000
Traul llog	901		768	
Cyfanswm traul mewn perthynas â'r Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	**901**	**-**	**768**	**-**
Incwm llog		(4,625)		(3,350)
Cyfanswm incwm mewn perthynas â'r Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	**-**	**(4,625)**	**-**	**(3,350)**

Gwerthoedd Teg Asedau a Rhwymedigaethau

Caiff rhwymedigaethau ariannol, asedau ariannol a gynrychiolir gan adneuon, benthyciadau a symiau derbyniadwy a dyledwyr a chredydwyr hirdymor eu cario ar y Fantolen ar gost wedi'i hamorteiddio. Gellir asesu eu gwerth teg drwy gyfrifo gwerth presennol y llifau arian parod a welir dros gyfnod yr offerynnau sy'n weddill, gan ddefnyddio'r tybiaethau canlynol:

- ystodau amcangyfrifedig cyfraddau llog ar 31 Mawrth 2025, rhwng 4.82% a 5.97% ar gyfer benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus;
- mae benthyciadau sy'n dderbyniadwy ac yn daladwy yn seiliedig ar gyfraddau benthyca newydd ar gyfer adneuon cyfatebol, neu fenthyciadau ar y dyddiad hwnnw;
- ni chydnabyddir unrhyw ad-daliad cynnar nac amhariad;
- pan fydd offeryn yn aeddfedu dros y 12 mis nesaf, tybir y bydd y swm cario yn agos at y gwerth teg; a
- tybir mai gwerth teg symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill yw'r swm a anfonebwyd neu a filiwyd.

Mae'r gwerthoedd teg a gyfrifwyd fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2025		31 Mawrth 2024	
	Swm cario £000	Gwerth teg £000	Swm cario £000	Gwerth teg £000
Benthyciadau byrdymor	(978)	(978)	(1,085)	(1,085)
Rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio byrdymor	(616)	(616)	-	-
Benthyciadau hirdymor	(29,957)	(15,419)	(30,742)	(17,869)
Rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio hirdymor	(2,078)	(2,078)	-	-
Cyfanswm	**(33,629)**	**(19,091)**	**(31,827)**	**(18,954)**

Mae gwerth teg y rhwymedigaethau yn is na'r swm am fod portffolio benthyciadau Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn cynnwys nifer o fenthyciadau cyfradd sefydlog lle mae'r gyfradd llog sy'n daladwy yn is na'r cyfraddau cyfredol ar ddydiad y Fantolen.

Prisio Offerynnau Ariannol a gaiff eu cario ar sail Gwerth Teg

Mae prisiad offerynnau ariannol wedi'i ddosbarthu'n dair lefel, yn ôl ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg:

- **Lefel 1** – mae gwerth teg yn deillio o brisiau nas addaswyd a restrwyd mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau unfath (ecwitïau a restrir, gwarannau sefydlog a restrir, gwarannau cysylltiedig â mynegai a restrir ac ymddiriedolaethau unedol). Dangosir buddsoddiadau a restrir ar brisiau cynnig. Mae gwerth cynnig y buddsoddiad yn seiliedig ar restr brisiau'r gyfnewidfa stoc berthnasol.
- **Lefel 2** – pan nad yw prisiau'r farchnad ar gael (e.e. pan gaiff offeryn ei fasnachu mewn marchnad na chaiff ei hystyried yn weithredol neu pan ddefnyddir technegau prisio i bennu gwerth teg ac mae'r technegau hyn yn defnyddio mewnbynnau sy'n seiliedig i raddau helaeth ar ddata arsylladwy'r farchnad).
- **Lefel 3** – pan nad yw o leiaf un mewnbwn a allai gael effaith sylweddol ar brisiad yr offeryn yn seiliedig ar ddata arsylladwy'r farchnad. Byddai'r cyfryw offerynnau yn cynnwys buddsoddiadau ecwiti a chronfeydd rhagfantoli nas rhestrwyd. Nid yw'r Gronfa yn buddsoddi yn yr un ohonynt ar hyn o bryd.

	31 Mawrth 2025			31 Mawrth 2024		
	Pris a Restrwyd ar y Farchnad Lefel 1 £000	**Gan ddefnyddio Mewnbynnau Arsylladwy Lefel 2 £000**	**Gyda Mewnbynnau Anarsylladwy Sylweddol Lefel 3 £000**	**Pris a Restrwyd ar y Farchnad Lefel 1 £000**	**Gan ddefnyddio Mewnbynnau Arsylladwy Lefel 2 £000**	**Gyda Mewnbynnau Anarsylladwy Sylweddol Lefel 3 £000**
Asedau Ariannol:						
Adneuon, Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy	-	65,362	-	-	40,629	-
Rhwymedigaethau Ariannol:						
Rhwymedigaethau ar gost wedi'i hamorteiddio	-	(19,091)	-	-	(18,954)	-
Cyfanswm yr asedau net	**-**	**46,271**	**-**	**-**	**21,675**	**-**

Noder nad oes unrhyw werthoedd teg wedi'u pennu ar gyfer y dyledwyr a'r credydwyr hirdymor ar y Fantolen gan nas ystyrir eu bod yn sylweddol wahanol i'r gwerthoedd cario.

NODYN 28: Natur a Maint y Risgiau sy'n Deillio o Offerynnau Ariannol

Mae gweithgareddau Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn ei amlygu i amrywiaeth o risgiau ariannol:

- **Risg o ran credyd** – y posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Comisiynydd;
- Risg o ran hylifedd – y posibilrwydd na fydd arian gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd i gyflawni ei ymrwymiadau i wneud taliadau; a
- **Risg o ran y farchnad** – y posibilrwydd y gallai Heddlu De Cymru/y Comisiynydd wynebu colled ariannol o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau megis cyfraddau llog a symudiadau yn y farchnad stoc.

Mae rhaglen rheoli risg gyffredinol Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy marchnadoedd ariannol ac yn ceisio lleihau'r effaith andwyol bosibl y gallent ei chael ar yr adnoddau sydd ar gael i ariannu gwasanaethau. Tîm trysorlys canolog sy'n gyfrifol am y gwaith o reoli risg, o dan bolisïau a gymeradwywyd gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn Strategaeth Rheoli flynyddol y Trysorlys

Risg o ran Credyd

Mae risg o ran credyd yn codi o adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol, yn ogystal ag amlygiadau credyd i gwsmeriaid Heddlu De Cymru/y Comisiynydd. Caiff y risg hon ei lleihau cymaint â phosibl drwy'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sy'n nodi na ddylid adneuo arian gyda sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn bodloni meini prawf credyd gofynnol, fel y'u nodir gan Wasanaethau Statws Credyd. Mae'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol hefyd yn nodi uchafswm y dylid ei fuddsoddi gyda sefydliad ariannol ym mhob categori.

Nodir manylion y meini prawf credyd a bennwyd mewn perthynas ag asedau ariannol a ddelir gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd isod:

- Mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn dibynnu ar statws credyd a gyhoeddir gan Fitch Ratings, Moody’s Investors Service neu Standard & Poor’s er mwyn cadarnhau ansawdd credyd cydbartïon (dyroddwyr a dyroddiadau) a chynlluniau buddsoddi. Mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd hefyd wedi pennu'r hirdymor a'r byrdymor lleiaf a statws credyd arall y mae'n tybio ei fod yn "uchel" ar gyfer pob categori o fuddsoddiad; ac
- Mae'r uchafswm y dylid ei fenthyca i bob sefydliad yn amodol ar ystyriaeth o'r sgoriau risg uchod, ffactorau eraill a chyngor gan gynghorwyr rheoli'r trysorlys.

Ceir rhagor o fanylion yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys flynyddol a gaiff ei hystyried gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd cyn 1 Ebrill pob blwyddyn ariannol. Caiff cwsmeriaid ar gyfer nwyddau a gwasanaethau eu hasesu, gan ystyried eu sefyllfa ariannol, eu profiad yn y gorffennol a ffactorau eraill.

Ni all uchafswm yr amlygiad i risg credyd mewn perthynas â'i fuddsoddiadau mewn banciau a chymdeithasau adeiladu gael ei asesu'n gyffredinol gan y bydd y risg y bydd unrhyw sefydliad yn methu â gwneud taliadau llog neu ad-dalu'r prifswm yn benodol i bob sefydliad unigol. Mae profiad diweddar wedi dangos mai anaml y bydd endidau o'r fath yn methu â bodloni eu hymrwymiadau. Mae risg o ddiffygdalu yn gymwys i bob adnau, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ar 31 Mawrth 2025 fod hyn yn debygol o grisialu. Bydd trefniadau diogelu adneuon yn cyfyngu ar unrhyw golledion a allai godi. Nid yw Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn caniatáu credyd i ddyledwyr fel arfer, gan gynnwys balansau sy'n ddyledus gan adrannau'r Llywodraeth, awdurdodau lleol eraill, sefydliadau busnes ac unigolion. Gellir dadansoddi symiau sy'n ddyledus ond nad yw eu gwerth wedi lleihau yn ôl oedran fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2025 £000	31 Mawrth 2024 £000
Llai na thri mis yn orddyledus	32	336
Rhwng tri a chwe mis yn	4	(14)
orddyledus Rhwng chwe a 12	31	28
mis yn orddyledus	6	(87)
Mwy na 12 mis		
Cyfanswm y dyledion gorddyledus	**73**	**263**
Gwerth y dyledion amheus a oedd yn destun amhariad:	23	13
Amhariad dyledion amheus fel % o gyfanswm y ddyled gorddyledus	31.5%	4.9%

Risg o ran Hylifedd

Mae gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd system rheoli llif arian parod gynhwysfawr sy'n ceisio sicrhau bod arian parod ar gael yn ôl yr angen. Os bydd symudiadau annisgwyl yn digwydd, gall Heddlu De Cymru/y Comisiynydd fenthyca o'r marchnadoedd arian a'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Nid oes unrhyw risg sylweddol na fydd yn gallu codi arian i fodloni ei ymrwymiadau o dan offerynnau ariannol. Yn hytrach, y risg yw y bydd Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn rhwym i ad-dalu cyfran sylweddol o'r arian a fenthyciwyd ganddo ar adeg pan fydd cyfraddau llog yn anffafriol. Mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn pennu terfynau ar gyfran ei fenthyciadau cyfradd sefydlog yn ystod cyfnodau penodol.

Mae'r dadansoddiad aeddfedu o'r rhwymedigaethau ariannol fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2025 £000	31 Mawrth 2024 £000
Llai na blwyddyn Rhwng	1,401	890
blwyddyn a dwy flynedd	1,037	785
Rhwng dwy a phum	2,304	1,729
mlynedd Rhwng pum a 10	1,546	1,719
mlynedd	27,148	26,509
Mwy na 10 mlynedd		
Cyfanswm y Benthyciadau sy'n Orddyledus 33,436	**31,632**	

Mae llog sy'n ddyledus yn y flwyddyn ariannol ganlynol hefyd wedi'i gynnwys ar y Fantolen. Ar gyfer 2024-25, y llog cronedig yw £193k (£195k yn 2023-24).

Risg o ran y Farchnad - Risg Cyfraddau Llog

Mae Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn agored i risg o ran ei amlygiad i symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar Heddlu De Cymru/y Comisiynydd. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog yn cael yr effeithiau canlynol:

- benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – bydd y draul llog a godir ar y (Gwarged) neu'r Diffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn cynyddu. Nid yw Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn benthyca ar gyfraddau amrywiol fel arfer;
- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg benthyciadau rhwymedigaethau yn gostwng;
- buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – bydd yr incwm llog a gredydir i'r (Gwarged) neu'r Diffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn cynyddu. Nid yw Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn buddsoddi ar gyfraddau amrywiol fel arfer; a
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg asedau hirdymor yn gostwng. Caiff buddsoddiadau byrdymor eu cario ar gost gan fod hwn yn frasamcan teg o'u gwerth.

Ni chaiff benthyciadau eu cario ar werth teg, felly ni fyddai enillion na cholledion nominal ar fenthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar y (Gwarged) na'r Diffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau nac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall. Fodd bynnag, caiff newidiadau yn y llog sy'n daladwy a'r llog derbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfradd amrywiadwy eu cofnodi ar y (Gwarged) neu'r Diffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau, gan effeithio ar Falans Cronfa'r Heddlu. Caiff symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog sydd â phris marchnad a restrir eu hadlewyrchu yn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Mae gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd nifer o strategaethau ar gyfer rheoli'r risg o ran cyfradd llog. Ei bolisi yw ceisio sicrhau mai uchafswm o 25% o'r hyn y mae'n ei fenthyca sy'n destun cyfraddau amrywiol. Yn ystod cyfnodau pan fydd cyfraddau llog yn gostwng, a phan geir amgylchiadau economaidd ffafriol, gall benthyciadau cyfradd sefydlog gael eu had-dalu'n gynnar er mwyn lleihau'r risg o golledion.

Caiff y risg o golled ei lleddfu gan y ffaith y bydd cyfran o grant y Llywodraeth sy'n daladwy ar gostau ariannu yn symud fel arfer gyda'r cyfraddau llog sy'n weithredol neu gost benthyca Heddlu De Cymru/y Comisiynydd ac yn gwneud iawn am gyfran o unrhyw gostau uwch.

Mae gan dîm rheoli'r trysorlys strategaeth ar gyfer asesu'r amlygiad i gyfraddau llog a chaiff y strategaeth hon ei hystyried wrth fynd ati i lunio'r gyllideb flynyddol a'i defnyddio i ddiweddaru'r gyllideb yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn golygu y gellir darparu ar gyfer unrhyw newidiadau andwyol. Bydd y dadansoddiad hefyd yn nodi a fydd unrhyw fenthyciadau newydd a drefnwyd yn destun cyfradd sefydlog neu amrywiadwy. Yn ôl y strategaeth asesu hon, ar 31 Mawrth 2025, pe bai cyfraddau llog wedi bod 1% yn uwch a phe bai'r holl newidynnau eraill wedi bod yn gyson, byddai'r effaith ariannol yn ostyngiad yng ngwerth teg cyfradd sefydlog rhwymedigaethau benthyca gwerth £1.998m (£2.458m yn 2023-24). Nid oedd unrhyw fenthyciadau na buddsoddiadau cyfradd amrywiadwy yn 2024-25.

Risg o ran y Farchnad – Risg Prisiau

Nid yw Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn buddsoddi mewn cyfrannau ecwiti na chyfranddaliadau fel arfer.

Risg o ran Cyfraddau Cyfnewid Arian Tramor

Nid oes gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd unrhyw asedau ariannol na rhwymedigaethau mewn arian cyfred tramor ac felly nid yw'n agored i golledion sy'n deillio o symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid.

NODYN 29: Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol

Nid oes rhwymedigaethau digwyddiadol nac asedau digwyddiadol ar gyfer y flwyddyn ariannol.

NODIADAU I'R DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD

NODYN 30: Datganiad Llif Arian Parod – Gweithgareddau Gweithredu

	2024-25 £000	2023-24 £000
Mae'r llifau arian parod ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:		
(Gwarged)/diffyg net wrth ddarparu gwasanaethau	**46,892**	**33,962**
Addasiadau i warged/diffyg net wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn ymwneud ag arian parod:		
Dibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol	(25,184)	(14,916)
Amorteiddio asedau anniriaethol	(729)	(989)
Addasiadau i'r gronfa bensiwn	(60,090)	(58,390)
Cyfraniadau (at)/o ddarpariaethau	(391)	(1,336)
Swm Cario Asedau anghyfredol a gafodd eu gwerthu neu eu dadgydnabod	(2,288)	(1,061)
Gwerthu ac adlesio	(667)	-
Ennill ar asedau a roddwyd	116	-
Gwrthdroi cyllid cyfalaf prosiect ofer	(4,144)	-
Cynnydd/(lleihad) mewn stocrestrau	648	392
Cynnydd/(lleihad) mewn dyledwyr	(26,852)	18,963
(Cynnydd)/lleihad mewn credydwyr	7,875	(5,625)
	(111,706)	**(62,962)**
Addasiadau ar gyfer eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y gwarged/diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido:		
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau	14,214	1,557
Elw o werthu asedau anghyfredol	1,503	836
Enillion o fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid	3,724	2,582
Llifau arian parod net o weithgareddau gweithredu	**(45,373)**	**(24,025)**

NODYN 31: Datganiad Llif Arian Parod – Gweithgareddau Buddsoddi

	2024-25 £000	2023-24 £000
Prynu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	37,902	23,158
Cydnabod asedau hawl i ddefnyddio	4,126	-
Prynu buddsoddiadau byrdymor a hirdymor	134,513	110,500
Enillion o werthu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	(1,503)	(836)
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau	(14,214)	(1,557)
Enillion o fuddsoddiadau byrdymor a hirdymor	(122,034)	(98,746)
Llifau arian parod net o weithgareddau buddsoddi	**38,790**	**32,519**

NODYN 32: Datganiad Llif Arian Parod – Gweithgareddau Ariannu

	2024-25 £000	2023-24 £000
Derbyniadau arian parod mewn perthynas â benthyciadau byrdymor a hirdymor	(2,840)	-
Ad-dalu benthyciadau byrdymor a hirdymor	893	997
Llifau arian parod net o weithgareddau ariannu	**(1,947)**	**997**

NODIADAU AR GYDWEITHIO

NODYN 33: Cydweithio

Mae gan heddluoedd yng Nghymru hanes hir a llwyddiannus o gydweithio i ddatblygu meysydd plismona arbenigol. Roedd hyn yn cynnwys y rhai o dan gylch gwaith Cyd-bwyllgor Awdurdodau Heddlu Cymru gynt. Caiff cydweithio yn y dyfodol ei sbarduno gan yr angen i fodloni'r Gofyniad Plismona Strategol a gan ganlyniadau'r Asesiad Strategol Rhanbarthol o fygythiadau, risgiau a niwed i ranbarth deheuol Cymru.

Bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer pob Heddlu yn gyfrifol am sicrhau bod y Gofyniad Plismona Strategol yn cael ei fodloni. Fel rhan o hyn, byddant yn ceisio cydweithio â'r Comisiynwyr a'r Heddluoedd eraill i ddarparu'r gwasanaeth mwyaf effeithiol posibl. Caiff cytundebau o'r fath eu rheoleiddio gan Adran 22A o Ddeddf yr Heddlu 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Mae'r gwasanaethau cydweithredol a'u cyllid yn parhau o dan drefniadau llywodraethu diwygiedig y Comisiynydd a'r Heddlu. Caiff y rhain eu hystyried yn gyllidebau cyfun i bob diben, gyda chytundebau ar gyfer cyfraniadau ariannu, sy'n cael eu gwneud a'u hamrywio o bryd i'w gilydd, a rhai Grantiau Penodol gan y Llywodraeth. Cynhelir y cyllidebau cyfun gan y Comisiynydd a'r Heddlu dros Heddlu De Cymru ar ran pedwar Heddlu Cymru i bob diben.

Cyfanswm costau'r tîm cydweithredol yn 2024-25 oedd £0.506 miliwn (£0.470 miliwn yn 2023-24) a chyfraniad Heddlu De Cymru at y costau hyn oedd £0.130 miliwn yn 2024-25 (£0.110 miliwn yn 2023-24).

Mae'r tabl cyntaf isod yn rhoi crynodeb o'r Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer prif weithgareddau'r unedau cydweithredol yn seiliedig ar y cyfraniadau ariannu a wnaed gan bob Heddlu i'r trefniant cydweithredol.

Mae'r polisïau cyfrifyddu, o dan gyd-drefniadau, yn cynnwys diffiniadau ac esboniad o'r gofynion cyfrifyddu ar gyfer cyd-weithrediadau, y mae'r olaf yn ymwneud â chyfrannau o incwm gwariant, asedau a rhwymedigaethau. O ganlyniad i ofyniad IFRS 11, mae'r ail dabl isod yn darparu gwybodaeth ddiwygiedig sy'n ymwneud â Heddlu De Cymru a heddluoedd eraill er mwyn dangos y cyfansymiau ar gyfer cyd-weithrediad.

O ganlyniad i ofynion IFRS 11, mae gwariant gros yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi lleihau £17.679 miliwn ac mae incwm/grantiau wedi lleihau £17.730 miliwn, sef cynnydd o £0.051 miliwn mewn gwariant net (lleihad o £0.030 miliwn yn 2023-24). Mae'r cynnydd net hwn wedi'i wrthdroi yn y Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn heb unrhyw effaith ar falans Cronfa'r Heddlu.

Mae asedau, dyledwyr a chredydwyr mewn perthynas â'r trefniadau wedi parhau i gael eu nodi ym mantolenni heddluoedd ar sail eu perthnasedd.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn seilio costau ei Swydd Diogelwch Benodedig ar incwm a gwariant yn hytrach nag ar ddyraniad ar sail poblogaeth Cymru. Nid yw'n rhan o'r Tasglu Rhanbarthol, sy'n gweithredu yn Heddluoedd y Rhanbarth Deheuol.
Ar gyfer yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol, mae Heddlu Gogledd Cymru yn cyfrannu at Ranbarth Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru.

2024-25											
MAES GWASANAETH CYDWEITHREDOL	Uned Cudd-wybodaeth Wrthderfysgaeth/ Cangen Arbennig £000	Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol £000	Diogelwch Gwrthderfysgaeth Penodol/wrth Borthladdoedd £000	Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol £000	Tasglu Rhanbarthol (RTF) £000	Is-adran Gwasanaethau Digidol £000	Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd £000	Uned Ymchwiliadau Gwyddonol ar y Cyd £000	Uned Arfau Tanio ar y Cyd £000	Caffael ar y Cyd £000	Cyfanswm £000
Gwariant ar Gyflogau	9,656	651	3,773	13,950	1,792	5,415	2,178	7,260	15,897	775	**61,347**
Gwariant nad yw'n ymwneud â Chyflogau	1,934	76	1,086	2,254	584	60	-	857	2,594	7	**9,452**
Gwariant Gros	**11,590**	**727**	**4,859**	**16,204**	**2,376**	**5,475**	**2,178**	**8,117**	**18,491**	**782**	**70,799**
Incwm Grant Penodol	(11,532)	(727)	(4,858)	(7,571)	-	-	-	-	(1,415)	-	**(26,104)**
Incwm	(58)	-	(1)	(67)	(72)	-	-	(82)	(738)	-	**(1,018)**
Cyfanswm Incwm a Grantiau	**(11,590)**	**(727)**	**(4,859)**	**(7,638)**	**(72)**	**-**	**-**	**(82)**	**(2,153)**	**-**	**(27,122)**
Heddlu De Cymru	-	-	-	(4,599)	(1,237)	(3,447)	(1,395)	(5,416)	(8,169)	(391)	**(24,653)**
Heddlu Dyfed-Powys	-	-	-	(1,742)	(468)	-	-	-	(4,901)		**(7,112)**
Heddlu Gwent	-	-	-	(2,225)	(599)	(2,028)	(783)	(2,619)	(3,268)	(391)	**(11,913)**
Heddlu Gogledd Cymru	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfraniadau'r Heddlu -		**-**	**-**	**(8,566)**	**(2,304)**	**(5,475)**	**(2,178)**	**(8,035)**	**(16,338)**	**(782)**	**(43,678)**
(Gwarged) neu Ddiffyg	-	(0)	-	-	-	-	-	-	-	-	-

2023-24											
MAES GWASANAETH CYDWEITHREDOL	Uned Cudd-wybodaeth Wrthderfysgaeth/ Cangen Arbennig £000	Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol £000	Diogelwch Gwrthderfysgaeth Penodol/wrth Borthladdoedd £000	Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol £000	Tasglu Rhanbarthol (RTF) £000	Is-adran Gwasanaethau Digidol £000	Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd £000	Uned Ymchwiliadau Gwyddonol ar y Cyd £000	Uned Arfau Tanio ar y Cyd £000	Caffael ar y Cyd £000	Cyfanswm £000
Gwariant ar Gyflogau	9,240	627	3,698	11,642	1,662	4,518	1,736	6,776	14,666	693	**55,258**
Gwariant nad yw'n ymwneud â Chyflogau	2,315	64	528	2,338	560	66	-	835	2,374	11	**9,091**
Gwariant Gros	**11,555**	**691**	**4,226**	**13,980**	**2,222**	**4,584**	**1,736**	**7,611**	**17,040**	**704**	**64,349**
Incwm Grant Penodol	(11,492)	(691)	(4,226)	(7,315)	-	-	-	-	(1,336)	-	**(25,060)**
Incwm	(63)	-	-	(116)	(29)	-	-	-	(844)	-	**(1,052)**
Cyfanswm Incwm a Grantiau	**(11,555)**	**(691)**	**(4,226)**	**(7,431)**	**(29)**	**-**	**-**	**-**	**(2,180)**	**-**	**(26,112)**
Heddlu De Cymru	-	-	-	(3,516)	(1,177)	(2,900)	(1,105)	(5,101)	(7,430)	(352)	**(21,581)**
Heddlu Dyfed-Powys	-	-	-	(1,332)	(446)	-	-	-	(4,458)	-	**(6,236)**
Heddlu Gwent	-	-	-	(1,701)	(570)	(1,684)	(631)	(2,510)	(2,972)	(352)	**(10,420)**
Heddlu Gogledd Cymru	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfraniadau'r Heddlu -		**-**	**-**	**(6,549)**	**(2,193)**	**(4,584)**	**(1,736)**	**(7,611)**	**(14,860)**	**(704)**	**(38,237)**
(Gwarged) neu Ddiffyg	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-

Noder: yn 2024-25, ni chafodd y cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn cyflogwr ar gyfer swyddogion o 1 Ebrill 2024 ei ariannu o'r grant Gwrthderfysgaeth ond o grant penodol ar gyfer y cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn ar gyfer yr heddlu cyfan.

2024-25

Cyfran o Gydweithrediad y Gwasanaeth	Uned Cudd-wybodaeth Wrthderfysgaeth/ Cangen Arbennig £000	Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol £000	Diogelwch Gwrthderfysgaeth Penodol/wrth Borthladdoedd £000	Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol £000	Tasglu Rhanbarthol (RTF) £000	Is-adran Gwasanaethau Digidol £000	Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd £000	Uned Ymchwiliadau Gwyddonol ar y Cyd £000	Uned Arfau Tanio ar y Cyd £000	Caffael ar y Cyd £000	Cyfanswm £000	
Cyfran o fudd y gwasanaeth	Poblogaeth (sail budd cenedlaethol)	Poblogaeth (sail budd cenedlaethol)	Poblogaeth (sail budd cenedlaethol)	Poblogaeth (sail budd cenedlaethol)	Cyfraniad ariannol y cytunwyd arno (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol y cytunwyd arno (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol y cytunwyd arno (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol y cytunwyd arno (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol y cytunwyd arno (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol y cytunwyd arno (darpariaeth leol)		Poblogaeth
Gwariant Gros												
Heddlu De Cymru	4,961	311	1,079	8,877	1,276	3,447	1,395	5,471	9,246	391	**36,454**	**42.80%**
Heddlu Dyfed-Powys	1,914	120	416	3,425	483	-	-	-	5,547	-	**11,905**	**16.51%**
Heddlu Gwent	2,181	137	475	3,902	617	2,028	783	2,646	3,698	391	**16,858**	**18.82%**
Heddlu Gogledd Cymru	2,534	159	2,889	-	-	-	-	-	-	-	**5,582**	**21.87%**
Cyfanswm	**11,590**	**727**	**4,859**	**16,204**	**2,376**	**5,475**	**2,178**	**8,117**	**18,491**	**782**	**70,799**	
Cyfanswm Incwm a Grantiau												
Heddlu De Cymru	(4,961)	(311)	(1,079)	(4,185)	(38)	-	-	(55)	(1,076)	-	**(11,705)**	**42.80%**
Heddlu Dyfed-Powys	(1,914)	(120)	(416)	(1,614)	(15)	-	-	-	(646)	-	**(4,726)**	**16.51%**
Heddlu Gwent	(2,181)	(137)	(475)	(1,839)	(19)	-	-	(27)	(431)	-	**(5,109)**	**18.82%**
Heddlu Gogledd Cymru	(2,534)	(159)	(2,889)	-	-	-	-	-	-	-	**(5,582)**	**21.87%**
Cyfanswm Incwm a Grantiau	**(11,590)**	**(727)**	**(4,859)**	**(7,638)**	**(72)**	**-**	**-**	**(82)**	**(2,153)**	**-**	**(27,122)**	

2023-24

Cyfran o Gydweithrediad y Gwasanaeth	Uned Cudd-wybodaeth Wrthderfysgaeth/ Cangen Arbennig £000	Cynghorwyr Gwrthderfysgaeth Arbenigol £000	Diogelwch Gwrthderfysgaeth Penodol/wrth Borthladdoedd £000	Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol £000	Tasglu Rhanbarthol (RTF) £000	Is-adran Gwasanaethau Digidol £000	Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd £000	Uned Ymchwiliadau Gwyddonol ar y Cyd £000	Uned Arfau Tanio ar y Cyd £000	Caffael ar y Cyd £000	Cyfanswm £000	
Cyfran o fudd y gwasanaeth	Poblogaeth (sail budd cenedlaethol)	Poblogaeth (sail budd cenedlaethol)	Poblogaeth (sail budd cenedlaethol)	Poblogaeth (sail budd cenedlaethol)	Cyfraniad ariannol y cytunwyd arno (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol y cytunwyd arno (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol y cytunwyd arno (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol y cytunwyd arno (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol y cytunwyd arno (darpariaeth leol)	Cyfraniad ariannol y cytunwyd arno (darpariaeth leol)		Poblogaeth
Gwariant Gros												
Heddlu De Cymru	4,919	293	1,104	7,627	1,194	2,900	1,105	5,101	8,520	352	**33,115**	**42.31%**
Heddlu Dyfed-Powys	1,915	115	430	2,969	452	-	-	-	5,112	-	**10,993**	**16.62%**
Heddlu Gwent	2,182	131	490	3,384	577	1,684	631	2,510	3,408	352	**15,349**	**18.94%**
Heddlu Gogledd Cymru	2,539	152	2,202	-	-	-	-	-	-	-	**4,893**	**22.13%**
Cyfanswm	**11,555**	**691**	**4,226**	**13,980**	**2,223**	**4,584**	**1,736**	**7,611**	**17,040**	**704**	**64,350**	
Cyfanswm Incwm a Grantiau												
Heddlu De Cymru	(4,919)	(293)	(1,104)	(4,054)	(16)	-	-	-	(1,090)	-	**(11,476)**	**42.31%**
Heddlu Dyfed-Powys	(1,915)	(115)	(430)	(1,579)	(6)	-	-	-	(654)	-	**(4,699)**	**16.62%**
Heddlu Gwent	(2,182)	(131)	(490)	(1,798)	(8)	-	-	-	(436)	-	**(5,045)**	**18.94%**
Heddlu Gogledd Cymru	(2,539)	(152)	(2,202)	-	-	-	-	-	-	-	**(4,893)**	**22.13%**
Cyfanswm Incwm a Grantiau	**(11,555)**	**(691)**	**(4,226)**	**(7,431)**	**(30)**	**-**	**-**	**-**	**(2,180)**	**-**	**(26,113)**	

Noder: yn 2024-25, ni chafodd y cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn cyflogwr ar gyfer swyddogion o 1 Ebrill 2024 ei ariannu o'r grant Gwrthderfysgaeth ond o grant penodol ar gyfer y cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn ar gyfer yr heddlu cyfan.

Maes Saethu Arfau Tanio'r Tri Heddlu – Prosiect Cyfalaf Cydweithredol

Mae Prosiect Maes Saethu Arfau Tanio'r Tri Heddlu yn brosiect cyfalaf ar y cyd rhwng Heddlu De Cymru, Heddlu Gwent a Heddlu Dyfed-Powys i adeiladu a gweithredu ased ar y cyd a fydd yn cynnig Cyfleuster Hyfforddiant Gweithredol ar gyfer yr Uned Arfau Tanio ar y Cyd.

Mae'r Ased yn cael ei adeiladu yn ardal Heddlu De Cymru ond bydd yn eiddo i'r tri heddlu ac yn cael ei ariannu a'i weithredu ganddynt. Y rhaniad o ran cyllid/perchnogaeth ar gyfer yr Ased fydd:

- Heddlu De Cymru – 44.35%
- Heddlu Gwent – 28.93%
- Heddlu Dyfed-Powys – 26.72%

Cyfanswm y Gwariant ar yr Ased sy'n cael ei Adeiladu ar 31 Mawrth 2025 yw £26.329m, gyda gwariant o £21.619m yn ystod y flwyddyn ariannol (£2.64m yn 2023-24). Dangosir dadansoddiad o'r gwariant hwn a'r cyllid ar ei gyfer gan y tri heddlu partner yn y tabl cysylltiedig.

	Heddlu De Cymru £000	Heddlu Gwent £000	Heddlu Dyfed-Powys £000	Cyfanswm £000
	44.35%	28.93%	26.72%	100%
Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar 31 Mawrth 2024	2,088	1,363	1,258	**4,710**
Gwariant 24-25	9,588	6,254	5,777	**21,619**
Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar 31 Mawrth 2025	**11,676**	**7,617**	**7,035**	**26,329**

RHESTR TERMAU

AMORTEIDDIO
Dylai asedau anniriaethol gael eu hamorteiddio ar sail systematig dros eu hoes economaidd. Mae hyn yn debyg i ddibrisiant.

CRONIAD
Swm a gynhwysir yn y cyfrifon terfynol i gwmpasu incwm a gwariant y gellir eu priodoli i gyfnod y cyfrif ond nad yw taliad wedi'i wneud/ei dderbyn ar ddyddiad y Fantolen.

GWASANAETHAU ASIANTAETH
Gwasanaethau a ddarperir gan un corff (yr asiant) ar ran y corff cyfrifol, ac a ad-delir gan y corff cyfrifol fel arfer.

ENILLION A CHOLLEDION ACTIWARAIDD
Gall newidiadau mewn diffygion neu wargedion actiwaraidd godi o ganlyniad i enillion a cholledion (digwyddiadau nad ydynt wedi cyd-daro â'r tybiaethau actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf) neu newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd.

ASED
Asedau diriaethol ac anniriaethol sy'n rhoi buddiannau i Heddlu De Cymru/y Comisiynydd am gyfnod o fwy na blwyddyn. Ystyrir buddiannau o lai na blwyddyn yn asedau cyfredol.

ARCHWILIO
Archwiliad annibynnol o weithgareddau sefydliad.

Y Fantolen
Datganiad o'r asedau, y rhwymedigaethau a'r balansau a gofnodir ar y dyddiad a bennir.

Gwariant Cyfalaf
Gwariant ar gaffael ased sefydlog, offer neu gyfarpar neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased sefydlog cyfredol, yn hytrach na'i gynnal yn unig.

Y Cyfrif Addasu Cyfalaf
Mae'r cyfrif addasu cyfalaf yn cynnwys symiau y mae'n ofynnol drwy statud eu neilltuo ar wahân i dderbyniadau cyfalaf er mwyn ad-dalu benthyciadau allanol a swm gwariant cyfalaf a ariennir drwy grantiau, refeniw a derbyniadau cyfalaf. Mae hefyd yn cynnwys y gwahaniaeth rhwng symiau a ddarperir ar gyfer dibrisiant a'r hyn roedd angen ei godi ar refeniw i ad-dalu prifswm benthyciadau allanol.

DERBYNIAD CYFALAF
Enillion o werthu asedau sefydlog (e.e. tir neu adeiladau, neu arian arall a dderbynnir tuag at wariant cyfalaf).

CRONFA DERBYNIADAU CYFALAF WRTH GEFN
Mae'r gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn ar gael i ariannu gwariant o natur gyfalafol yn y dyfodol, fel y'i cyllidebir gan y Rhaglen Gyfalaf.

Datganiad Llif Arian Parod
Datganiad sy'n crynhoi'r symudiadau mewn arian parod, refeniw a chyfalaf, yn ystod y flwyddyn.

Y DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR
Mae'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yn dangos cost gyfrifyddu darparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu drwy drethiant.

CREDYDWR
Swm sy'n ddyledus gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd am waith a wnaed, nwyddau a gafwyd neu wasanaethau a roddwyd yn ystod y cyfnod cyfrifyddu ond nad yw taliad amdano wedi'i wneud eto.

COST GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU)
Y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn y disgwylir iddynt ddeillio o wasanaeth cyflogai yn y cyfnod cyfredol.

GWERTH CYFREDOL
Gwerth cyfredol ased yw'r pris y gellid bod wedi'i gyfnewid amdano mewn trafodiad hyd braich, llai, lle y bo'n gymwys, unrhyw grantiau sy'n dderbyniadwy tuag at brynu neu ddefnyddio'r ased.

DYLEDWR
Swm sy'n ddyledus i Heddlu De Cymru/y Comisiynydd yn y cyfnod cyfrifyddu ond nas derbyniwyd ar ddyddiad y fantolen.

DIBRISIANT
Mesur cost, neu swm wedi'i ailbrisio, buddiannau'r ased sefydlog a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod. Mae defnyddio yn cynnwys treulio oes ddefnyddiol ased sefydlog, ei disbyddu neu ei lleihau mewn modd arall, boed hynny o ganlyniad i ddefnydd, am fod amser wedi mynd heibio neu oherwydd anarferiant drwy naill ai newidiadau mewn technoleg neu'r galw am y nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir gan yr ased.

CRONFEYDD CYFALAF WRTH GEFN A GLUSTNODWYD
Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn, a gynhyrchir drwy gyfraniadau refeniw gwirfoddol ychwanegol, ar gael i ariannu gwariant o natur gyfalafol yn y dyfodol, fel y'i cyllidebir gan y Rhaglen Gyfalaf.

CRONFEYDD REFENIW WRTH GEFN A GLUSTNODWYD
Defnyddir y rhain i ariannu gwariant refeniw yn y dyfodol ar brosiectau penodol nad ydynt wedi'u gorffen yn llawn yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

AMHARIAD
Lleihad yng ngwerth eiddo, offer neu gyfarpar neu offeryn ariannol, islaw ei swm cario ar y fantolen.

RHESTR TERMAU

STOCRESTRAU (STOCIAU)
Caffaelir lifrau, cydrannau cyfarpar cyfathrebu, diesel, petrol a rhannau cerbydau gan Heddlu De Cymru/y Comisiynydd i'w defnyddio ar sail barhaus. Dangosir gwerth yr eitemau hynny nad ydynt wedi'u defnyddio ar y dyddiad penodedig yn y Fantolen fel asedau.

PRYDLESU
Dull o ariannu'r defnydd o asedau lle mae tâl rhent yn cael ei dalu dros gyfnod penodedig.

RHWYMEDIGAETH
Swm sy'n ddyledus i unigolyn neu sefydliad a gaiff ei dalu rywbryd yn y dyfodol.

DATGANIAD O SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN
Mae hwn yn dangos y symudiad o ddechrau'r flwyddyn hyd at ddiwedd y flwyddyn ar gronfeydd wrth gefn gwahanol a nodir fel cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac annefnyddiadwy.

ARDRETH ANNOMESTIG GENEDLAETHOL
Yr ardreth annomestig genedlaethol neu'r ardreth fusnes yw'r tâl a godir ar feddianwyr safleoedd busnes i ariannu cyfran o wariant refeniw Llywodraeth Leol a'r Heddlu. Pennir swm yr ardreth annomestig genedlaethol gan Lywodraeth Ganolog drwy luosydd a gymhwysir at y gwerthoedd ardrethol. Mae'r lluosydd yn gyson ledled Cymru a chaiff y cyfanswm a gesglir ei ddosbarthu gan Lywodraeth Ganolog ond ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru.

COST GWASANAETH BLAENOROL (PENSIYNAU)
Y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun sy'n ymwneud â gwasanaeth cyflogai mewn cyfnodau blaenorol sy'n codi yn y cyfnod cyfredol o ganlyniad i gyflwyno buddiannau ymddeol, neu eu gwella.

CRONFA'R HEDDLU
Cynhelir y gronfa wrth gefn hon i dalu am wariant eithriadol ac annisgwyl.

GRANT YR HEDDLU
Swm grant y Swyddfa Gartref tuag at ofynion refeniw Heddlu De Cymru/y Comisiynydd.

PRAESEPT
Swm yr incwm a gesglir gan Gynghorau Bwrdeistref Sirol cyfansoddol gan dalwyr y dreth gyngor i dalu am wasanaethau Heddlu De Cymru/y Comisiynydd.

DARPARIAETH
Swm a neilltuir yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau yr aed iddynt, sy'n ansicr o ran amseriad neu swm.

BWRDD BENTHYCIADAU GWAITH CYHOEDDUS
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth sy'n rhoi benthyciadau tymor hwy i Awdurdodau Lleol ar gyfraddau llog sydd ond ychydig yn uwch na'r cyfraddau y gall y Llywodraeth ei hun eu sicrhau wrth gael benthyciad.

CRONFA WRTH GEFN
Symiau a neilltuir at ddibenion sydd y tu hwnt i'r diffiniad o ddarpariaethau ac sydd ar gael fel arfer i ariannu gwariant ar ôl dyddiad y fantolen. Neilltuir cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd at ddibenion penodol.

CYFRIF REFENIW/CYFRIF INCWM A GWARIANT
Cyfrif sy'n cofnodi gwariant ac incwm o ddydd i ddydd ar eitemau megis cyflogau, costau rhedeg gwasanaethau ac ariannu gwariant cyfalaf.

GRANT CYNNAL REFENIW
Grant a weinyddir gan Lywodraeth Cymru a delir i gynnal gwariant refeniw Llywodraeth Leol a'r Heddlu.

ASED HAWL I DDEFNYDDIO

Ased ar brydles a gydnabyddir ar y Fantolen sy'n cynrychioli hawl Heddlu De Cymru fel deiliad prydles i ddefnyddio ased sylfaenol am gyfnod y brydles.

GWARGED NEU DDIFFYG WRTH DDARPARU GWASANAETHAU
Cyfanswm costau gweithredu darparu gwasanaethau Heddlu De Cymru/y Comisiynydd. Gellir dod o hyd iddo yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr cyn cymhwyso enillion a cholledion yn seiliedig ar newidiadau ym mhrisiannau'r farchnad, cyfraddau llog a thybiaethau mesur actiwaraidd.

BENTHYCA/BUDDSODDI DROS DRO
Arian sy'n cael ei fenthyca/ei fuddsoddi am gyfnod cychwynnol o lai na blwyddyn.

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

South Wales Police and Crime Commissioner

HEDDLU DE CYMRU · SOUTH WALES POLICE